



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
**The National Assembly for Wales**

**Cofnod y Trafodion**  
**The Record of Proceedings**

Dydd Mercher, 5 Hydref 2011  
Wednesday, 5 October 2011

## Cynnwys Contents

- |     |  |
|-----|--|
| 3   | Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasnaethau Cymdeithasol<br>Questions to the Minister for Health and Social Services |
| 25  | Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol<br>Questions to the Counsel General   |
| 32  | Datganiad: Comisiynydd y Gymraeg<br>Statement: The Welsh Language Commissioner   |
| 39  | Cynnig Gweithdrefnol<br>Procedural Motion  |
| 40  | Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad<br>Questions to the Assembly Commission  |
| 55  | Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Canser<br>Welsh Conservatives Debate: Cancer  |
| 84  | Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Cynllunio<br>Welsh Conservatives Debate: Planning   |
| 115 | Dadl Plaid Cymru: Y Rhaglen Lywodraethu<br>Plaid Cymru Debate: The Programme for Government                            |
| 144 | Cyfnod Pleidleisio<br>Voting Time  |

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy yn ddi yn y Siambro. Yn ogystal, cynhwysir cyfieithiad Saesneg o gyfraniadau yn y Gymraeg.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In addition, an English translation of Welsh speeches is included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m. gyda'r Llywydd (Rosemary Butler) yn y Gadair.  
The Assembly met at 1.30 p.m. with the Presiding Officer (Rosemary Butler) in the Chair.*

**Y Llywydd:** Pryn hawn da. Galwaf Gynulliad Cenedlaethol Cymru i drefn.

**The Presiding Officer:** Good afternoon. I call the National Assembly for Wales to order.

## **Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasnaethau Cymdeithasol** **Questions to the Minister for Health and Social Services**

### **Rhestrau Aros Orthopedig**

**1. Ieuan Wyn Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am restrau aros orthopedig yng Nghymru. OAQ(4)0028(HSS)

**The Minister for Health and Social Services (Lesley Griffiths):** Significant work has been undertaken to address the backlog of patients waiting over 36 weeks for orthopaedic treatment. Additional clinical sessions, for outpatient and inpatient activity, are being run throughout the week and at weekends across many sites in Wales.

### **Orthopaedic Waiting Lists**

**1. Ieuan Wyn Jones:** Will the Minister make a statement on orthopaedic waiting lists in Wales. OAQ(4)0028(HSS)

**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Lesley Griffiths):** Mae gwaith sylweddol wedi cael ei wneud i fynd i'r afael â'r ôl-groniad o gleifion yn aros dros 36 wythnos am driniaeth orthopedig. Cynhelir sesiynau clinigol ychwanegol ar gyfer trin cleifion allanol a chleifion mewnol drwy gydol yr wythnos ac ar benwythnosau ar draws sawl safle yng Nghymru.

**Arweinydd Plaid Cymru (Ieuan Wyn Jones):** Diolch yn fawr i'r Gweinidog am yr ateb. Bydd yn ymwybodol bod arian sylweddol wedi cael ei roi eleni, £21 miliwn, i helpu gyda'r rhestrau aros. A yw'n ymwybodol bod nifer o gleifion yn poeni bod byrddau iechyd lleol yn trin y ffigurau ar gyfer rhestrau aros? Maent yn trefnu bod cleifion yn gweld ymgynghorydd fwy nag unwaith, gan achosi i'w lle ar y rhestr gael ei wthio yn ôl. Mae nifer o gleifion yn cael eu galw am asesiad cyn llawdriniaeth ddwywaith neu dair cyn derbyn y driniaeth. A fydd yn ei gwneud yn glir i reolwyr y gwasanaeth iechyd nad yw triniaeth o'r fath yn dderbyniol, ac y dylai'r arian y maent yn ei dderbyn gael ei ddefnyddio i sicrhau bod cleifion yn cael eu trin o fewn amser priodol?

**Lesley Griffiths:** I was not aware of that issue. I will make it clear to the chairs and chief executives of local health boards that that sort of behaviour is not acceptable. The money has been brought forward to bring the waiting lists down. I have explained to them all that, by the end of March next year, I expect to see a huge decrease. In fact, no-one should be waiting longer than 36 weeks.

**The Leader of Plaid Cymru (Ieuan Wyn Jones):** I thank the Minister for that reply. She will be aware that significant money, £21 million, has been allocated this year to help with waiting lists. Is she aware that many patients are worried that local health boards are manipulating the figures for waiting lists? They arrange for patients to see consultants more than once, meaning that their place on the list is pushed back. Many patients are called for pre-operative assessment two or three times before they are treated. Will she make it clear to health service managers that that is unacceptable, and that the money that they receive should be used to ensure that patients are treated within the appropriate times?

**Lesley Griffiths:** Nid oeddwyn yn ymwybodol o'r mater hwnnw. Byddaf yn ei gwneud yn glir i gadeiryddion a phrif weithredwyr y byrddau iechyd lleol nad yw'r fath ymddygiad yn dderbyniol. Mae'r arian wedi cael ei ddwyn ymlaen i ddod â'r rhestrau aros i lawr. Rwyf wedi esbonio iddynt i gyd fy mod yn disgwyl gweld gostyngiad enfawr erbyn diwedd mis Mawrth

Looking at figures over the past few months, there has been a decrease.

y flwyddyn nesaf. Mewn gwirionedd, ni ddylai neb fod yn aros yn hirach na 36 wythnos. Mae'r ffigurau yn ystod y misoedd diwethaf yn dangos y bu gostyngiad.

**Antoinette Sandbach:** Minister, given that many of your Government's policies repatriate patients to Wales and have reduced the use of the private sector to deal with orthopaedic waiting lists, are you prepared to set aside, particularly for north Wales, the one-size-fits-all approach of your predecessor? Will you do what is in the best interests of patients in north Wales by looking at alternative service providers from outside Wales who may help address those waiting list difficulties?

**Lesley Griffiths:** I will never accept privatisation of the NHS in Wales. I certainly would not support that.

**Antoinette Sandbach:** Weinidog, o gofio bod llawer o bolisiau eich Llywodraeth yn dychwelyd cleifion i Gymru ac wedi lleihau defnydd o'r sector preifat i ddelio â rhestrau aros orthopedig, a ydych yn barod i roi dull un-maint-i-bawb eich rhagflaenydd o'r neilltu, yn enwedig ar gyfer y gogledd? A wnewch chi'r hyn a fydd orau ar gyfer cleifion yn y gogledd drwy edrych ar ddarparwyr gwasanaeth amgen o'r tu allan i Gymru a all helpu i fynd i'r afael â'r anawsterau hynny gyda rhestrau aros?

**Lesley Griffiths:** Ni wnaf byth dderbyn preifateiddio'r GIG yng Nghymru. Yn ddi-os, ni fyddwn yn cefnogi hynny.

### Grŵp Annibynnol o Glinigwyr

**2. David Rees:** Beth fydd cylch gorchwyl y grŵp annibynnol o glinigwyr a gaiff ei sefydlu i adolygu cynlluniau byrddau iechyd. OAQ(4)0034(HSS)

**Lesley Griffiths:** My letter dated 4 October to all Assembly Members explains the latest position. The terms of reference will be agreed at the first meeting, to be held this month.

**David Rees:** Minister, thank you for that response and for the letter yesterday that pre-empted my question. Unlike the UK Government, I do have a plan B. As the clinicians in the national clinical forum review the various health boards' plans, I hope that they consider not only clinical issues, as you identify in your letter, but also social issues and accessibility to those services, particularly with regard to transportation and its affordability to patients.

### Independent Group of Clinicians

**2. David Rees:** What will the terms of reference be for the independent group of clinicians that will be established to review health board plans. OAQ(4)0034(HSS)

**Lesley Griffiths:** Caiff y sefyllfa ddiweddaraf ei hesbonio yn fy llythyr ar 4 Hydref i holl Aelodau'r Cynulliad. Cytunir beth yw'r cylch gorchwyl yn y cyfarfod cyntaf, a gaiff ei gynnal y mis hwn.

**David Rees:** Weinidog, diolch ichi am yr ymateb hwnnw ac am y llythyr ddoe a achubodd y blaen ar fy nghwestiwn. Yn wahanol i Lywodraeth y DU, mae gennylf gynllun amgen. Tra fo'r clinigwyr yn y fforwm clinigol cenedlaethol yn adolygu cynlluniau'r amrywiol fyrrdau iechyd, gobeithiaf eu bod yn ystyried nid yn unig materion clinigol, fel y nodwch yn eich llythyr, ond hefyd materion cymdeithasol a hygyrchedd y gwasanaethau hynny, yn enwedig mewn perthynas â thrafnidiaeth a fforddiadwyedd i gleifion.

**Lesley Griffiths:** Yes, that should be looked at by the forum. However, the LHBs must also engage with clinical and political stakeholders in a way that has not been seen before. They will work alongside each other.

**Lesley Griffiths:** Cytunaf y dylai'r fforwm edrych ar hynny. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r byrddau iechyd lleol hefyd ymgysylltu â rhanddeiliaid clinigol a gwleidyddol mewn ffordd sydd heb ei weld erioed o'r blaen. Byddant yn gweithio ochr yn ochr â'i gilydd.

**Darren Millar:** Minister, we in the Welsh Conservative Party have made it clear that we have a number of concerns regarding the national clinical forum that will advise local health boards on proposals for reorganisation and reconfiguration. Minister, do you accept that you have given the appearance of wanting to shirk your responsibility for NHS Wales?

**Lesley Griffiths:** I do not think that I have given that appearance. I have said that I am not going to shirk my responsibilities. The national clinical forum has been set up to look at the service plans coming forward from LHBs to ensure that we have what we need to meet the challenges facing the NHS in Wales.

**Darren Millar:** The vast majority of the Welsh public see it very differently, Minister. They see you as wanting to pass the buck to this organisation, which you are establishing and which will be concocted of employees from within the NHS—the chair of which, certainly in the short term, has nailed his colours to the mast on axing maternity units, for example.

I remind you of the McKinsey agenda, which you say guides the reform of the Welsh NHS for the future. In the report on the five-year service workforce and financial framework for the NHS, you indicated that you supported the McKinsey agenda, but you made no reference to the suggestion in the report that 1,200 nurses would need to be axed from the Welsh NHS and that hospital wards and beds would need to close, as would NHS facilities. Are you telling us that we will, or will not, see the closure of NHS facilities and the axing of front-line personnel under your time as Minister?

**Lesley Griffiths:** Dr Chris Jones, the NHS medical director you refer to, will chair the first meeting, and then an independent chair will be appointed. The membership of the forum is drawn from a wide range of clinical specialists, including critical care, children's health, nursing and midwifery, general

**Darren Millar:** Weinidog, yr ydym ym Mhlaid Geidwadol Cymru wedi ei gwneud yn glir bod gennym nifer o bryderon yngylch y fforwm clinigol cenedlaethol a fydd yn cyngori byrddau iechyd lleol ar gynigion ar gyfer ad-drefnu ac ailgyflunio. Weinidog, a ydych yn derbyn ei bod yn ymddangos fel pe baech eisiau esgeuluso'ch cyfrifoldeb dros GIG Cymru?

**Lesley Griffiths:** Nid wyf yn credu fy mod wedi gadael y fath argraff. Yr wyf wedi dweud nad wyf yn mynd i esgeuluso fy ngyfrifoldebau. Sefydlwyd y fforwm clinigol cenedlaethol er mwyn edrych ar y cynlluniau gwasanaeth mae byrddau iechyd lleol yn eu cyflwyno er mwyn sicrhau bod gennym yr hyn sydd ei angen arnom i ymateb i'r heriau sy'n wynebu'r GIG yng Nghymru.

**Darren Millar:** Nid felly mae mwyafrif helaeth y cyhoedd yng Nghymru yn ei gweld hi, Weinidog. Maent yn eich gweld fel rhywun sydd am daflu'r baich tuag at y sefydliad hwn yr ydych yn ei sefydlu a fydd yn gybolfa o weithwyr tu fewn i'r GIG. Mae ei gadeirydd, yn sicr yn y tymor byr, wedi datgan ei farn yn glir am gael gwared ar unedau mamolaeth, er enghrafft.

Hoffwn eich atgoffa am agenda McKinsey, oherwydd yr ydych yn dweud ei fod yn llywio diwygio GIG Cymru ar gyfer y dyfodol. Yn yr adroddiad ar y gweithlu gwasanaeth pum mlynedd a'r fframwaith ariannol ar gyfer y GIG, mynegasoch eich bod yn cefnogi agenda McKinsey, ond ni chyfeiriasoch o gwbl at yr awgrym yn yr adroddiad y byddai angen cael gwared ar 1,200 o nrysos o'r GIG yng Nghymru ac y byddai angen cau wardiau a gwelyau mewn ysbtyai, yn ogystal â chyfleusterau GIG. A ydych yn dweud wrthym y byddwn, neu na fyddwn, yn gweld cau cyfleusterau GIG a chael gwared ar bersonél rheng flaen tra eich bod yn Weinidog?

**Lesley Griffiths:** Bydd Dr Chris Jones, cyfarwyddwr meddygol y GIG yr ydych yn cyfeirio ato, yn cadeirio'r cyfarfod cyntaf, ac yna penodir cadeirydd annibynnol. Mae aelodau'r fforwm yn arbenigwyr clinigol mewn amrywiaeth eang o feysydd, gan gynnwys gofal critigol, iechyd a nysio plant

surgery, public health and the Academy of Medical Royal Colleges in Wales—they are eminent people. The forum is there to look at service plans that are coming forward from the local health boards, which none of us have seen, and that is what it will be doing.

a bydwreigiaeth, llawdriniaeth gyffredinol, iechyd y cyhoedd ac Academi Colegau Meddygol Brenhinol Cymru—maent yn bobl amlwg. Mae'r fforwm yno i edrych ar y cynlluniau gwasanaeth sy'n cael eu cyflwyno gan y byrddau iechyd lleol, nad oes yr un ohonom wedi eu gweld, a dyna fydd ei briod waith.

**Elin Jones:** Minister, will you support every proposal for change to a hospital service put forward by a local health board and supported by the national clinical forum, or do you envisage a situation in which you will say ‘no’?

**Lesley Griffiths:** The latter.

**Elin Jones:** You will say ‘no’, will you?

**The Presiding Officer:** Order. The Minister has replied. I call the Leader of the Welsh Liberal Democrats.

**Alun Davies:** Oh God, here we go.

**The Presiding Officer:** I beg your pardon.

**Alun Davies:** I said ‘here we go’.

**The Presiding Officer:** Please refrain from speaking when you are sitting down. [ASSEMBLY MEMBERS: ‘Hear, hear.’] I do not need any support or Manchester manners this afternoon.

**The Leader of the Welsh Liberal Democrats (Kirsty Williams):** Minister, there is some public concern that while it might have been done for very sound reasons, your decision to set up the clinical forum has given the appearance that you intend to outsource decision making on what, potentially, could be some very controversial plans from local health boards. Will you clarify for the Chamber, and for the public at large, that you will have the final sign-off on the plans that come forward from the LHBs for consideration by the clinical forum, and that you will either agree them or send them back to the local health board if you are not satisfied?

**Elin Jones:** Weinidog, a fyddwch yn cefnogi pob cynnig i newid gwasanaeth ysbty a gyflwynir gan fwrdd iechyd lleol ac a'i cefnogir gan y fforwm clinigol cenedlaethol, neu a ydych yn rhagweld sefyllfa lle byddwch yn dweud ‘na’?

**Lesley Griffiths:** Yr olaf.

**Elin Jones:** Byddwch yn dweud ‘na’, a fyddwch?

**Y Llywydd:** Trefn. Mae'r Gweinidog wedi ymateb. Galwaf Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru.

**Alun Davies:** O Dduw, dyma ni'n mynd.

**Y Llywydd:** Mae'n ddrwg gennyf.

**Alun Davies:** Dywedais ‘dyma ni'n mynd’.

**Y Llywydd:** Os gwelwch yn dda, a wnewch chi ymatal rhag siarad pan fyddwch yn eistedd i lawr? [AELODAU'R CYNULLIAD: ‘Clywch, clywch.’] Nid oes arnaf angen unrhyw gymorth neu foesau Manceinion y prynhawn yma.

**Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Kirsty Williams):** Weinidog, mae rhyw faint o bryder cyhoeddus bod eich penderfyniad, er y gallai fod wedi cael ei wneud am resymau cadarn iawn, i sefydlu'r fforwm clinigol yn ymddangos fel pe baech yn bwriadu allanoli gwneud penderfyniadau ar gynlluniau, o bosibl, a allent fod yn rhai dadleuol iawn gan fyrrdau iechyd lleol. A wnewch egluro i'r Siambra, ac i'r cyhoedd yn gyffredinol, mai chi fydd y person olaf i gymeradwyo'r cynlluniau a gyflwynir gan y byrddau er mwyn i'r fforwm clinigol eu hystyried, ac y byddwch naill ai yn eu cymeradwyo neu eu hanfon yn ôl at y bwrdd iechyd lleol os nad ydych yn fodlon?

**Lesley Griffiths:** I keep hearing that there is all this concern among the public. I have not heard it; I have heard concern from opposition Members, but not from members of the public. When the plans come to me, I will have the final say. I will be able to send those plans back if I believe that they do not fit in with Welsh Government policy.

**Lesley Griffiths:** Yr wyf yn cadw clywed bod cryn bryder ymhllith y cyhoedd. Nid wyf wedi ei glywed; yr wyf wedi clywed pryderon gan Aelodau'r gwrthbleidiau, ond nid gan aelodau o'r cyhoedd. Pan ddaw'r cynlluniau ataf, bydd gennyf y gair olaf. Byddaf yn gallu anfon y cynlluniau hynny yn ôl os wyf yn credu nad iddynt yn cyd-fynd â pholisi Llywodraeth Cymru.

**Kirsty Williams:** I am very grateful for that clarification, and for your assurances that you take personal responsibility as Minister for health in Wales for the future direction for the provision of services. Will you also explain to us today how the clinical forum will ensure that the LHBs' engagement with the patient voice and with patient representatives is taken into consideration? Will patient groups and patient representatives have direct access to the clinical forum, or will the clinical forum simply rely on the public consultation methods employed by the local health boards?

**Kirsty Williams:** Yr wyf yn ddiolchgar iawn am yr eglurhad hwnnw ac am eich sicrwydd eich bod yn bersonol yn gyfrifol fel y Gweinidog iechyd yng Nghymru dros gyfeiriad darparu gwasanaethau yn y dyfodol. A wnewch chi hefyd esbonio i ni heddiw sut y bydd y fforwm clinigol yn sicrhau bod ymgysylltu'r byrddau iechyd lleol â llais y claf a chynrychiolwyr cleifion yn cael ei ystyried? A fydd grwpiau a chynrychiolwyr cleifion yn cael mynediad uniongyrchol at y fforwm clinigol, neu a fydd y fforwm clinigol ond yn dibynnu ar y dulliau ymgynghori cyhoeddus a arferir gan y byrddau iechyd lleol?

**Lesley Griffiths:** The reason I gave in my initial answer to David Rees, that this has to be above anything we have ever seen before, is to ensure that when the plans are looked at by the national clinical forum, it will know that such engagement has taken place.

**Lesley Griffiths:** Yn fy ateb cychwynnol i David Rees, rhoddais y rheswm pam fod yn rhaid i hyn ragori ar unrhyw beth yr ydym wedi ei weld erioed o'r blaen, sef sicrhau, pan ystyria'r fforwm clinigol cenedlaethol y cynlluniau, y bydd yn gwybod bod ymgysylltu o'r fath wedi digwydd.

#### Amseroedd Aros

**3. Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am amseroedd aros yn dilyn asesiad cyn llawdriniaeth. OAQ(4)0024(HSS)

**Lesley Griffiths:** We do not hold information on waiting times from pre-operative assessment to the date of surgery. The National Leadership and Innovation Agency for Healthcare recommends that pre-operative assessments are carried out no more than six weeks prior to the anticipated date of surgery.

#### Waiting Times

**3. Rhodri Glyn Thomas:** Will the Minister make a statement on waiting times following a pre-op assessment. OAQ(4)0024(HSS)

**Lesley Griffiths:** Nid ydym yn cadw gwybodaeth am amseroedd aros o asesiad cyn llawdriniaeth hyd at ddyddiad y llawdriniaeth. Mae'r Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd yn argymhell y caiff asesiadau cyn llawdriniaeth eu cynnal ddim mwy na chwe wythnos cyn y dyddiad disgwyliedig ar gyfer y llawdriniaeth.

**Rhodri Glyn Thomas:** Ategaf rai o'r pethau a ddywedodd Ieuan Wyn Jones wrthych. Mae nifer o bobl wedi bod i'm gweld yn ddiweddar wedi iddynt gael asesiad, a'r

**Rhodri Glyn Thomas:** I endorse some of Ieuan Wyn Jones's comments. A number of people have been to see me recently following assessments that, often, say that

asesiad hwnnw'n aml iawn yn dweud bod angen triniaeth ar frys. Ond mae pob math o dactegau'n cael ei ddefnyddio er mwyn ceisio osgoi'r amseriad. Mae pobl yn cael eu galw i mewn, fel y dywedodd Ieuan, ac wedyn yn cael eu hanfon adref, ac mae'r holl broses yn dechrau eto. Mae rhai pobl yn cael llythyrau yn dweud nad oedd y llawfeddyg a welsant yn wreiddiol ar gael, a phe byddent am gael y driniaeth yn gynt, bod rhaid iddynt newid i lawfeddyg newydd. Yr hyn nad yw'n glir, oni bai eich bod yn darllen y llythyr yn ofalus iawn, yw, os byddwch yn gwrtod y dewis hwnnw, byddwch yn mynd yn ôl at ddiwedd y rhestr aros. Mae pob math o bethau tebyg yn digwydd, Weinidog. A wnewch chi edrych yn fanwl ar y sefyllfa hon, oherwydd yr wyf yn siŵr bod gan bob Aelod Cynulliad enghreifftiau tebyg o'r hyn sy'n digwydd i gleifion sy'n disgwyl am driniaeth? Mae'n cael effaith emosiynol fawr ar y claf pan fo'r oedi enfawr hyn yn digwydd.

**Lesley Griffiths:** I will commit to having a look at it. Two of you have now raised the matter with me. As an Assembly Member, that issue has never been raised with me. A patient should only be listed for surgery if they are clinically fit to undertake the procedure that is planned. Any clinical decisions about a patient's treatment are for the relevant clinicians to make.

**Janet Finch-Saunders:** Minister, a large part of my casework is tied up in dealing with patients who have been waiting for answers having heard nothing back from their pre-operative assessment. Will you explain the decision to close down numerous theatres under this health board, and what steps are you taking to ensure that future refurbishments do not compromise patient care and waiting times?

**Lesley Griffiths:** I assume that you are referring to the closure of theatres in Ysbyty Glan Clwyd, which has been done for reasons that are well-documented to do with asbestos. The hospital has taken the most appropriate steps it can. I visited the hospital myself and have seen the excellent work that is being carried out by the theatre staff there. I have said that I will look at the issue of cancellations in relation to pre-operative

they need urgent treatment. However, all sorts of tactics are then used in order to try to change the timings. People are called in, as Ieuan said, and then sent home, with the whole process starting again. Some people are sent letters saying that the first surgeon that they saw is no longer available, and that they would have to change to a new surgeon if they wanted to receive their treatment more quickly. What is not clear, unless you read the letter very carefully, is that, if you refuse that option, you go back to the end of the waiting list. A whole array of such things are happening, Minister. Will you give careful consideration to this issue, as I am sure that all Assembly Members have similar examples of things happening to patients awaiting treatment? Such extended delays are having a huge emotional impact on patients.

**Lesley Griffiths:** Ymrwymaf i edrych ar y mater. Mae dau ohonoch bellach wedi ei godi gyda mi. Fel Aelod o'r Cynulliad, nid yw'r mater hwnnw erioed wedi cael ei godi gyda mi. Dylai claf ond gael ei restru ar gyfer llawdriniaeth os yw mewn cyflwr addas yn glinigol ar gyfer y weithdrefn sydd wedi'i chynllunio. Penderfyniadau'r clinigwyr perthnasol yw pob penderfyniad clinigol am driniaeth claf.

**Janet Finch-Saunders:** Weinidog, mae rhan fawr o'm gwaith achos ynglwm â delio â chleifion sydd wedi bod yn aros am atebion heb glywed dim yn dilyn eu hasesiad cyn llawdriniaeth. A wnewch chi egluro'r penderfyniad i gau nifer o theatrau yn y bwrdd iechyd hwn, a pha gamau yr ydych yn eu cymryd i sicrhau nad yw gwaith adnewyddu yn y dyfodol yn cyfaddawdu gofal cleifion ac amseroedd aros?

**Lesley Griffiths:** Yr wyf yn cymryd yn ganiataol eich bod yn cyfeirio at gau theatrau yn Ysbyty Glan Clwyd, a wnaed am resymau sy'n hysbys iawn sydd yn ymwneud ag asbestos. Mae'r ysbyty wedi cymryd y camau mwyaf priodol o fewn ei gallu. Ymwelais â'r ysbyty fy hun, gan weld y gwaith rhagorol sy'n cael ei wneud gan staff y theatr yno. Yr wyf wedi dweud y byddaf yn edrych ar ganslo mewn perthynas ag asesiadau cyn

assessments.

llawdriniaeth.

### Cefnogi Byrddau Iechyd

**4. Andrew R.T. Davies:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gefnogi byrddau iechyd yn rhanbarth Canol De Cymru. OAQ(4)0027(HSS)

**Lesley Griffiths:** The local health boards, including those in South Wales Central, have both the competence and the resources to address the wide range of issues that will arise in their areas. Where they need support, the Welsh Government will provide it.

### Supporting Health Boards

**4. Andrew R.T. Davies:** Will the Minister outline the Welsh Government's commitment to supporting health boards in the South Wales Central region. OAQ(4)0027(HSS)

**Lesley Griffiths:** Mae gan y byrddau iechyd lleol, gan gynnwys y rhai yng Nghanol De Cymru, y cymhwysedd a'r adnoddau i fynd i'r afael â'r amrywiaeth eang o faterion a fydd yn codi yn eu hardaloedd. Lle byddant angen cymorth, bydd Llywodraeth Cymru yn ei ddarparu.

**The Leader of the Opposition (Andrew R.T. Davies):** Thank you for that answer, Minister. You will be aware of the staff notice that went around the Cardiff and Vale University Local Health Board last week, outlining the grave challenges the health board faces on unprecedented performance targets and operational issues. Could you give me and the staff and patients that rely on Cardiff and Vale University Local Health Board assurances that the Welsh Government, if required to do so, will work with the health board to overcome these problems, and that, if resources are required to overcome these issues, you will be sympathetic to such requests?

**Arweinydd yr Wrthblaid (Andrew R.T. Davies):** Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. Byddwch yn ymwybodol o'r rhybudd staff a gylchredwyd ym Mwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro'r wythnos diwethaf, yn amlinellu'r heriau dwys a wyneba'r bwrdd iechyd ar dargedau perfformiad a materion gweithredu digyffelyb. A allech roi sicrwydd i mi ac i'r staff a'r cleifion sy'n dibynnu ar Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro y bydd Llywodraeth Cymru, os oes rhaid gwneud hynny, yn gweithio gyda'r bwrdd iechyd i oresgyn y problemau hyn, ac, os oes angen adnoddau i oresgyn y materion hyn, y byddwch yn cydymdeimlo â cheisiadau o'r fath?

**Lesley Griffiths:** Every LHB—not just Cardiff and the Vale—is facing a challenging financial situation, particularly in light of the nearly £1 billion that was cut from our budget by your Government in London. Cardiff and the Vale has confirmed that its savings requirement for this year is £87.8 million. It is not as a result of any cut to its allocation, but relates largely to cost pressures associated with the delivery of services. It is therefore absolutely right that it is looking to how it can save this money, as all LHBs are having to do.

**Lesley Griffiths:** Wyneba pob bwrdd iechyd lleol—nid dim ond Caerdydd a'r Fro—sefyllfa ariannol heriol, yn enwedig yng ngoleuni'r toriad o bron i £1 biliwn oddi ar ein cyllideb gan eich Llywodraeth yn Llundain. Mae Caerdydd a'r Fro wedi cadarnhau bod gofyn iddo arbed £87.8 miliwn eleni. Nid yw o ganlyniad i unrhyw doriad i'w ddyraniad, ond mae'n ymwneud yn bennaf â phwysau costau sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau. Felly, mae'n gwbl iawn ei fod yn bwrw golwg ar sut y gall arbed yr arian hwn, fel yw rhan pob bwrdd iechyd lleol.

**Leanne Wood:** Minister, I have discovered that there are question marks over the GP out-of-hours services in the Cynon valley and the Rhondda. According to staff, health board

**Leanne Wood:** Weinidog, yr wyf wedi darganfod bod ansicrwydd am wasanaethau y tu allan i oriau meddyg teulu yng nghwm Cynon a'r Rhondda. Yn ôl staff, mae

officials are reviewing the services at Aberdare and Ysbyty Cwm Rhondda, which could lead to patients having to travel to Prince Charles Hospital in Merthyr, or to the Royal Glamorgan Hospital in Llantrisant. I have grave concerns about this proposal because, as you are aware, it is an area that is characterised by ill health and low levels of car ownership. How will this proposal fit with your party's pre-election pledge not only to provide out-of-hours GP services, but to extend them?

swyddogion y bwrdd iechyd yn adolygu'r gwasanaethau yn Aberdâr ac Ysbyty Cwm Rhondda, a allai arwain at fod cleifion yn gorfol teithio i Ysbyty'r Tywysog Siarl ym Merthyr, neu i Ysbyty Brenhinol Morgannwg yn Llantrisant. Mae gennyf bryderon dwys am y cynnig hwn oherwydd, fel y gwyddoch, mae'n ardal sy'n cael ei nodweddu gan afiechyd a lefelau isel o berchnogaeth ceir. Sut fydd y cynnig hwn yn cyd-fynd â'r addewid cyn yr etholiad gan eich plaid, nid yn unig i ddarparu gwasanaethau meddygol teulu y tu allan i oriau, ond i'w hymestyn?

**Lesley Griffiths:** I am currently undertaking a review of out-of-hours services—not just in relation to the issue that you raise—which I hope will be reporting to me next year. We are determined to take forward our manifesto pledges on extending access to GP services.

**Lesley Griffiths:** Yr wyf wrthi'n cynnal adolygiad o wasanaethau tu allan i oriau—nid yn unig o ran y mater a godwch—a gobeithiaf y caf adroddiad flwyddyn nesaf. Yr ydym yn benderfynol o fwrw ymlaen â'n haddewidion maniffesto ar ymestyn mynediad i wasanaethau meddygon teulu.

**Eluned Parrott:** Minister, in August, I wrote you to inquire into the future of minor injuries units in South Wales Central. As an example, I pointed out the case of the minor injuries unit at Barry Hospital, which had its hours reduced during the summer holidays, and it was closed during the cold snap, when you would expect minor injuries from slips and falls to increase. In your reply to me, you stated that you expected LHBs to provide healthcare to local people that is safe, effective and accessible. I am delighted that you take that view. Therefore, what communications have you had with Cardiff and Vale University Local Health Board to ensure that this important facility is retained and that the people in the Vale of Glamorgan are able to access some form of emergency care in the Vale of Glamorgan?

**Eluned Parrott:** Weinidog, ym mis Awst, ysgrifennais atoch i ymchwilio i ddyfodol unedau mân anafiadau yng Nghanol De Cymru. Fel enghraift, tynnais sylw at achos yr uned mân anafiadau yn Ysbyty'r Barri lle gostyngwyd yr oriau yn ystod gwyliau'r haf ac a gafodd ei gau yn ystod y tywydd oer, pryd y byddech yn disgwyl bod mân anafiadau achos llithro a disgyn yn cynyddu. Yn eich ateb i mi, dywedasoch eich bod yn disgwyl i fyrrdau iechyd lleol ddarparu gofal iechyd i bobl leol sy'n ddiogel, yn effeithiol ac yn hygrych. Yr wyf yn falch iawn eich bod o'r farn honno. Felly, pa ohebiaeth a ydych chi wedi cael gyda Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro i sicrhau y cedwir y cyfleuster pwysig hwn a bod pobl ym Mro Morgannwg yn gallu cael rhyw fath o ofal brys ym Mro Morgannwg?

1.45 p.m.

**Lesley Griffiths:** As I said in my response to you, it is a matter for the LHB.

**Lesley Griffiths:** Fel y dywedais yn fy ymateb i chi, mae'n fater i'r bwrdd iechyd lleol.

### Gofal i'r Henoed

5. **Christine Chapman:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella gofal i'r henoed. OAQ(4)0025(HSS)

### Care for the Elderly

5. **Christine Chapman:** Will the Minister make a statement on what the Welsh Government is doing to improve care for the elderly. OAQ(4)0025(HSS)

**The Deputy Minister for Children and Social Services (Gwenda Thomas):** The Welsh Government is committed to improving care for older people through a wide range of initiatives and the national service framework for older people. Our social services strategy also provides a modernisation agenda, to ensure that older people can maintain independence and receive the care that they need.

**Y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol (Gwenda Thomas):** Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i wella gofal i bobl hŷn drwy amrywiaeth eang o fentrau a'r fframwaith gwasanaeth cenedlaethol ar gyfer pobl hŷn. Mae ein strategaeth gwasanaethau cymdeithasol hefyd yn darparu agenda moderneiddio, er mwyn sicrhau bod pobl hŷn yn gallu cynnal eu hannibyniaeth a derbyn y gofal sydd ei angen arnynt.

**Christine Chapman:** Thank you for that answer, Deputy Minister. I have been alerted recently to a number of cases in care homes in which the care of elderly residents has fallen short of the standards that we should accept in terms of the dignity of the care that we give to older people. Deputy Minister, do you agree that we should ensure that we focus on issues of staff training? 'Sustainable Social Services for Wales: A Framework for Action' stated that we will not register social care staff beyond social workers and care managers. What measures will be put in place to ensure that all staff in care homes possess the expertise needed so that residents have a more caring and dignified experience?

**Christine Chapman:** Diolch i chi am yr ateb hwnnw, Ddirprwy Weinidog. Cefais fy rhybuddio'n ddiweddar am nifer o achosion mewn cartrefi gofal, lle mae gofal preswylwyr oedrannus wedi methu â chyrraedd y safonau y dylem eu derbyn o ran urddas y gofal a roddwn i bobl hŷn. Ddirprwy Weinidog, a ydych yn cytuno y dylem sicrhau ein bod yn canolbwytio ar faterion o hyfforddi staff? Nododd 'Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu' na fyddwn yn cofrestru staff gofal cymdeithasol y tu hwnt i weithwyr cymdeithasol a rheolwyr gofal. Pa fesurau caiff eu rhoi ar waith i sicrhau bod pob aelod o staff mewn cartrefi gofal yn meddu ar yr arbenigedd sydd ei angen fel bod preswylwyr yn cael profiad mwy urddasol a gofalog?

**Gwenda Thomas:** I agree with you that any lack of dignity in the care of the elderly is totally unacceptable. 'Sustainable Social Services for Wales' focuses on that, and we will look at ways to change the registration and inspection process. We will register the officers in charge and also make care providers more responsible for the care that they provide. I believe that that will be a step forward and will put the responsibility where it should lie.

**Gwenda Thomas:** Cytunaf â chi fod unrhyw ddiffyg urddas o fewn gofal yr henoed yn gwbl annerbyniol. Mae 'Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru' yn canolbwytio ar hynny, a byddwn yn edrych ar ffyrdd i newid y broses gofrestru ac arolygu. Byddwn yn cofrestru'r swyddogion cyfrifol a hefyd sicrhau bod darparwyr gofal yn fwya cyfrifol am y gofal y maent yn ei ddarparu. Credaf y bydd yn gam ymlaen ac yn rhoi'r cyfrifoldeb lle y dylai fod.

**Mohammad Asghar:** The Commissioner for Older People in Wales's 'Dignified Care?' report, published in March, raised a number of deeply concerning issues about the treatment of older people in hospital settings. There was concern at the lack of suitable ward environments for older people, cramped conditions and the inadequate availability of bathroom facilities. These have been highlighted as an affront to the dignity of older people receiving hospital care in Wales.

**Mohammad Asghar:** Cododd adroddiad Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, 'Gofal gydag Urddas?' a gyhoeddwyd ym mis Mawrth, nifer o faterion pryderus iawn ynghylch triniaeth pobl hŷn mewn ysbytai. Yr oedd pryder ynghylch ddiffyg amgylcheddau addas ar wardiau ar gyfer pobl hŷn, amodau cyfyng ac argaeedd annigonol o gyfleusterau ystafell ymolchi. Mae'r rhain wedi'u hamlygu fel sarhad i urddas pobl hŷn sy'n derbyn gofal mewn ysbytai yng Nghymru.

How is the Welsh Government working with the health boards and trusts to ensure that issues such as these are being addressed, helping older people who are staying in hospital to be as comfortable as possible? I am sure that you will do something about this.

**Gwenda Thomas:** The older people's commissioner's report has been taken very seriously. The Minister for health has responded to it in detail and has supplied extra information to the commissioner. There is now a clear way forward to respond to the concerns that the commissioner raised.

**Jenny Rathbone:** I am reassured by your statement last week that Care and Social Services Inspectorate Wales will be involved in assessing the new providers of the homes currently run by Southern Cross Healthcare. Do you think that any new legislation is required or possible from the devolved administration to protect future care homes from being asset-stripped in the way that Southern Cross was?

**Gwenda Thomas:** There are lessons to learn from what has happened with the Southern Cross providers. As far as Wales is concerned, alternative providers have come forward to run all of the homes, as I understand the situation. They will be subject to a rigorous registration process by CSSIW, but I take your point that alternative provision should perhaps be looked at. There is a commitment to do that in the Labour manifesto.

**Lindsay Whittle:** What would your response be to a proposal to set up a high-level multi-agency working group in order to develop a longer term strategy for the care of elderly people? I am sure that you will agree that this needs to be done now, without waiting for the situation to get out of hand.

**Gwenda Thomas:** Yes, I agree. That is why we are setting up the national policy forum. That is a commitment within 'Sustainable Social Services for Wales'. The first meeting of that forum will be held tomorrow. It is a cross-party forum and will provide continuity

Sut y mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r byrddau iechyd a'r ymddiriedolaethau i sicrhau bod materion fel y rhain yn cael sylw, gan helpu pobl hŷn sy'n aros yn yr ysbty i fod mor gyfforddus â phosibl? Yr wyf yn siŵr y byddwch yn gwneud rhywbeth am hyn.

**Gwenda Thomas:** Mae adroddiad y comisiynydd pobl hŷn wedi cael ei gymryd o ddifrif. Mae'r Gweinidog iechyd wedi ymateb iddo'n fanwl ac wedi darparu gwybodaeth ychwanegol i'r comisiynydd. Bellach, mae ffordd glir ymlaen i ymateb i'r pryderon a godwyd gan y comisiynydd.

**Jenny Rathbone:** Fe'm calonogir gan eich datganiad yr wythnos diwethaf y bydd Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn rhan o asesu darparwyr newydd y cartrefi sy'n cael eu rhedeg ar hyn o bryd gan Southern Cross Healthcare. A gredwch fod unrhyw ddeddfwriaeth newydd yn ofynnol neu'n bosibl gan y weinyddiaeth ddatganoledig i warchod cartrefi gofal yn y dyfodol rhag iddynt golli eu hasedau yn y ffordd yr oedd Southern Cross wedi?

**Gwenda Thomas:** Mae yna wersi i'w dysgu o'r hyn sydd wedi digwydd gyda darparwyr Southern Cross. Cyn belled ag y mae Cymru dan sylw, mae darparwyr amgen wedi dod i'r adwy i redeg yr holl gartrefi, fel y deallaf y sefyllfa. Byddant yn gorfod mynd trwy broses gofrestru drwyndl gan AGGCC, ond derbyniaf eich pwnt y dylid edrych, efallai, ar ddarpariaeth amgen. Mae yna ymrwymiad i wneud hynny ym maniffesto Llafur.

**Lindsay Whittle:** Beth fyddai eich ymateb i gynnig i sefydlu gweithgor lefel uchel aml-asiantaeth er mwyn datblygu strategaeth tymor hwy i ofalu am bobl oedrannus? Yr wyf yn siŵr y byddwch yn cytuno bod angen gwneud hyn yn awr, heb aros i'r sefyllfa i fynd dros ben llestri.

**Gwenda Thomas:** Ydw, rwy'n cytuno. Dyna pam yr ydym yn sefydlu fforwm polisi cenedlaethol. Mae hynny'n ymrwymiad yn 'Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru'. Cynhelir cyfarfod cyntaf y fforwm hwnnw yfory. Mae'n fforwm trawsbleidiol a

from the forum that has been advising me up to now. I can assure you that one of the aspects on the agenda tomorrow will be to consider the wider membership of that forum.

bydd yn darparu parhad y fforwm sydd wedi bod yn fy nghynggori hyd yn hyn. Gallaf eich sicrhau y bydd ystyried aelodaeth ehangach y fforwm hwnnw yn un o'r agweddau ar yr agenda yfory.

**Lindsay Whittle:** Thank you, Deputy Minister, for that answer. The membership of that forum is vital and I take your assurance that that will be looked at and, hopefully, expanded. The problem is that there is no co-ordinated approach to the strategy for care of the elderly. The expression 'the elderly' implies that this is a homogenous group, whereas their ages vary from 65 to 100 and their needs differ enormously. Some are very active; I read of people who are running marathons in their 90s, and others, sadly, are very frail. I was speaking to 150 pupils in my region this week—pupils who may be future constituents of mine; I thought that I would get that in—and statistics show that 20 per cent or more will reach 100 years of age. Good luck to them. However, we need this 10-year strategy right now, so will you please get it done, Deputy Minister? You have said that you will take it into account; will you please come back to us as soon as you can on that?

**Lindsay Whittle:** Diolch i chi, Ddirprwy Weinidog, am yr ateb hwnnw. Mae aelodaeth y fforwm hwnnw'n hanfodol, a chymraf eich sicrwydd y caiff honno ei hystyried a'i hehangu, gobeithio. Y broblem yw nad oes unrhyw ddull cydgysylltiedig i'r strategaeth ar gyfer gofalu am yr henoed. Mae'r ymadrodd 'yr henoed' yn awgrymu ei fod yn grŵp unffurf, tra bod eu hoedrannau yn amrywio o 65 i 100 ac mae eu hanghenion yn wahanol iawn. Mae rhai yn weithgar iawn; Darllenais am bobl sy'n rhedeg marathonau yn eu 90au, ac erall sy'n fregus iawn, yn anffodus. Yr oeddwn yn siarad â 150 o ddisgyblion yn fy rhanbarth yr wythnos hon—disgyblion a all fod yn etholwyr i mi yn y dyfodol; yr oeddwn yn awyddus i ddweud hynny—a dengys ystadegau y bydd 20 y cant neu fwy yn cyrraedd 100 mlwydd oed. Pob lwc iddynt. Fodd bynnag, mae arnom angen y strategaeth 10 mlynedd hon yn awr, felly, os gwelwch yn dda, a wnewch chi hyn, Ddirprwy Weinidog? Yr ydych wedi dweud y byddwch yn ei ystyried; a wnewch chi ddod yn ôl atom cyn gynted ag y gallwch ar hynny, os gwelwch yn dda?

**Gwenda Thomas:** I am happy to support that. The national service framework is the 10-year strategy that you may have been referring to. I think that co-ordination through the national policy partnership is the way forward. I give you my assurance that we will look at wider membership of that forum.

**Gwenda Thomas:** Yr wyf yn hapus i gefnogi hynny. Y fframwaith gwasanaeth cenedlaethol, efallai, yw'r strategaeth 10 mlynedd yr ydych yn cyfeirio ato. Credaf mai cydgysylltu drwy'r bartneriaeth polisi cenedlaethol yw'r ffordd ymlaen. Rwy'n eich sicrhau y byddwn yn edrych ar aelodaeth ehangach o'r fforwm hwnnw.

**Rebecca Evans:** Last year, only two thirds of people over 65 took up the free flu vaccination that they are entitled to. How can the Welsh Government ensure the greatest take-up of the winter flu vaccine this year?

**Rebecca Evans:** Y llynedd, dim ond dwy ran o dair o bobl dros 65 oed a gafodd y brechiad rhag y ffliw am ddim y mae ganddynt hawl iddo. Sut y gall Llywodraeth Cymru sicrhau'r defnydd mwyaf o frechlyn ffliw'r gaeaf eleni?

**Gwenda Thomas:** The Welsh Government is mounting a nationwide publicity campaign involving leaflets, posters in doctors' surgeries, promotion by local radio DJs, and posters on public transport and in rural areas. This is supported by a notification system

**Gwenda Thomas:** Mae Llywodraeth Cymru yn cynnal ymgyrch cyhoeddusrwydd ledled y wlad sy'n cynnwys taflenni, posteri mewn meddygfeydd, hyrwyddo gan gyflwynwyr radio lleol, a phosteri ar drafnidiaeth gyhoeddus ac mewn ardaloedd gwledig.

operated by GPs. We are also making funds available to health boards to organise local promotional activities such as out-of-hours vaccination clinics and advertisements in local newspaper shops. I am sure that you will be happy for me to share with you that I will have my vaccine on the morning of 14 October in the community hall in Gwauncaegurwen.

Cefnogir hyn gan system hysbysu a weithredir gan feddygon teulu. Yr ydym hefyd yn gwneud arian ar gael i fyrrdaau iechyd i drefnu gweithgareddau hyrwyddo lleol megis clinigau brechiad tu allan i oriau a hysbysebion mewn siopau papur newydd lleol. Yr wyf yn siŵr y byddwch yn hapus i mi rannu â chi y byddaf yn cael fy mrechlyn i ar fore'r 14 Hydref yn neuadd gymunedol Gwauncaegurwen.

**Mick Antoniw:** Deputy Minister, will you look into the position of former Southern Cross homes, in particular two in my constituency that are to be handed over to Four Seasons, a company with £700 million-worth of debt that is based offshore and has a totally anti-trade union history? Will you look at the suitability of this company to provide for the future of the residents of these homes and, if necessary, will you make representations to the CSSIW?

**Gwenda Thomas:** If you want to bring any specific concerns to my attention, I will obviously deal with those. On a wider basis, CSSIW will undertake a rigorous registration process in order to assess the suitability of any new providers.

**Mick Antoniw:** Ddirprwy Weinidog, a wnewch chi edrych ar sefyllfa cartrefi blaenorol Southern Cross, yn benodol dwy yn fy etholaeth sydd i'w trosglwyddo i Four Seasons, cwmni sydd â gwerth £700 miliwn o ddyled sy'n seiliedig tramor ac â hanes sy'n holol wrthwynebus i undebau llafur? A wnewch chi edrych ar addasrwydd y cwmni hwn i ddarparu ar gyfer dyfodol preswylwyr y cartrefi hyn ac, os oes angen, a wnewch sylwadau i'r AGGCC?

**Gwenda Thomas:** Os ydych am ddod ag unrhyw bryderon penodol i'm sylw, byddaf yn amlwg yn delio â'r rheini. Ar sail ehangu, bydd AGGCC yn cynnal proses gofrestro drylwyr er mwyn asesu addasrwydd unrhyw ddarparwyr newydd.

### Strôc

**6. Joyce Watson:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu cynlluniau Llywodraeth Cymru i leihau nifer yr achosion o strôc yng Nghymru. OAQ(4)0021(HSS)

**Lesley Griffiths:** Our stroke risk reduction action plan details the key actions being implemented to help people reduce their risk of developing a stroke. We have also run, in partnership with the Stroke Association, a two-week campaign raising awareness of two main risk factors—atrial fibrillation and high blood pressure.

### Stroke

**6. Joyce Watson:** Will the Minister outline the Welsh Government's plans to reduce the incidence of stroke in Wales. OAQ(4)0021(HSS)

**Lesley Griffiths:** Mae ein cynllun gweithredu lleihau risg strôc yn manylu'r camau gweithredu allweddol sy'n cael eu rhoi ar waith i helpu pobl i leihau eu risg o ddatblygu strôc. Yr ydym hefyd wedi rhedeg, mewn partneriaeth â'r Gymdeithas Strôc, ymgyrch ddwy wythnos i godi ymwybyddiaeth o ddau o'r prif ffactorau risg—ffibrilio atriaid a phwysedd gwaed uchel.

**Joyce Watson:** Minister, thank you for that answer. Members will debate the merits of the programme for government later, but by way of a preliminary, Minister, I commend you on continuing to improve stroke services by extending access to thrombolysis services, for example, as prioritised in that programme. In terms of reducing incidence of stroke in

**Joyce Watson:** Weinidog, diolch i chi am yr ateb hwnnw. Bydd Aelodau yn trafod rhinweddau'r rhaglen lywodraethu yn nes ymlaen, ond, fel rhagarweiniad, Weinidog, fe'ch cymeradwyaf ar barhau i wella gwasanaethau strôc drwy ymestyn mynediad at wasanaethau thrombolysis, er enghraifft, fel y blaenoriaethir yn y rhaglen honno. O ran

the first place, you have made a commitment to introduce checks for the over-50s. Would you look to ensure that pulse checks are taken as routine at the GP surgery as part of a consultation?

Ileihau nifer yr achosion o strôc yn y lle cyntaf, yr ydych wedi gwneud ymrwymiad i gyflwyno archwiliadau ar gyfer pobl dros 50 oed. A allech geisio sicrhau bod gwiriadau curiad y galon yn cael eu cymryd fel mater o drefn yn y feddygfa yn ystod ymgynghoriad?

**Lesley Griffiths:** Investing in improving the quality of acute stroke care immediately following a stroke has been our priority as it leads to better long-term outcomes. As part of the efforts to treat stroke, we are extending the nine-to-five service to ensure that people have access to thrombolysis 24 hours a day, seven days a week, which NHS Wales should deliver by the end of next March. During the summer, I visited Prince Philip Hospital in Llanelli, where I visited the stroke unit, and it was good to see that that investment was going in to the service there. In relation to your question about checks for the over-50s, we are looking at what should be included in those checks and we can certainly look at including pulse checks as part of that.

**Lesley Griffiths:** Mae buddsoddi mewn gwellia ansawdd gofal strôc aciwt yn syth ar ôl strôc wedi bod yn flaenoriaeth inni, gan ei fod yn arwain at ganlyniadau hirdymor gwell. Fel rhan o'r ymdrechion i drin strôc, yr ydym yn ymestyn y gwasanaeth naw tan bump i sicrhau bod pobl yn cael mynediad at thrombolysis 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos, ac fe ddylai GIG Cymru ddarparu hyn erbyn diwedd mis Mawrth nesaf. Yn ystod yr haf, ymwelais ag Ysbyty'r Tywysog Philip yn Llanelli, lle'r ymwelais ag uned strôc, ac roedd yn dda gweld bod y buddsoddiad hwnnw'n mynd i'r gwasanaeth yno. O ran eich cwestiwn am archwiliadau ar gyfer pobl dros 50 oed, yr ydym yn edrych ar beth y dylid ei gynnwys yn y gwiriadau hynny ac yn sicr, gallwn edrych ar gynnwys gwiriadau curiad y galon fel rhan o hynny.

**William Graham:** Minister, you will know the sobering statistics that 25 per cent of people who suffer a stroke die during the first month following that stroke, and a further third suffer a lifelong disability. I welcome what you are doing on this. We recently heard evidence in the Health and Social Care Committee regarding this. A suggestion was made that it would be possible for us to use a different name to describe the condition. Children, for example, have little ability to understand what a stroke is. If it was called a 'brain attack', their understanding would be pretty immediate.

**Angela Burns:** Diolch yn fawr iawn am hynny, Mark Isherwood. Yr ydym yn ariannu cefnogaeth cyfathrebu i grwpiau materion byddardod er mwyn sierhau bod yr Aelodau yn cydymffurfio â deddfwriaeth cydraddoldeb. Fodd bynnag, bydd cynigion yn cael eu cyflwyno i gyfarfod y Comisiwn ym mis Hydref a fydd, drwy oblygiad, yn caniatáu cylrido grwpiau trawsbleidiol i gwrdd ag unrhyw anghenion mynediad neu gyfathrebu rhesymol sydd gan gyfranogwyr. Unwaith eto, mae hyn oherwydd nad ydym am fentro peidio â chydymffurfio ac oherwydd mai dyma'r peth iawn i'w wneud. Felly, yr ydym yn edrych arno a phan fydd gennym ganlyniad, byddwn yn dychwelyd at y bwrdd taliadau er mwyn iddo ystyried a allem wneud unrhyw addasiadau pellach i'r gyfundrefn costau swyddfa.

### Papurau Pwyllgor

**2. Mike Hedges:** A wnaiff y Comisiynydd egluro pam ei bod weithiau'n cymryd hyd at ddiwrnod y cyfarfod pwylgor cyn bod Aelodau'n cael papurau'r pwylgor.

### Committee Papers

**2. Mike Hedges:** Will the Commissioner explain why committee papers can take up until the day of a committee meeting to reach Members. OAQ(4)0017(AC)

**Angela Burns:** Thank you very much for your question, Mike Hedges. Standing Orders specify that, so far as is appropriate in the circumstances and reasonably practicable, documents relating to business to be taken at committee are made available to members of that committee at least two working days before the relevant meeting. Commission staff aim to make papers available sooner than that if at all possible. All formal committee papers sent this term have been sent out at least four working days before a meeting and none have breached the deadline of two days specified in Standing Orders.

**Angela Burns:** Diolch yn fawr iawn am eich cwestiwn, Mike Hedges. Manyla'r Rheolau Sefydlog, cyn belled ag y bo'n briodol o dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol, y dylai dogfennau sy'n ymwneud â busnes a fydd yn cael ei drin gan y pwylgor fod ar gael i aelodau'r pwylgor hwnnw o leiaf ddau ddiwrnod gwaith cyn y cyfarfod perthnasol. Mae staff y Comisiwn yn anelu at ddarparu bod papurau ar gael yn gynharach na hynny os yw'n bosibl. Cafodd yr holl bapurau pwylgor ffurfiol a anfonwyd y tymor hwn eu hanfon o leiaf bedwar diwrnod gwaith cyn cyfarfod ac ni dorrwyd y terfyn amser o ddau ddiwrnod a bennir yn y Rheolau Sefydlog.

**Mike Hedges:** Among the many things that I have not understood since I have been here is why, as a councillor, I used to be given a book with all the agenda items in it before the meeting—under the Local Government (Access to Information) Act 1985, it had to be available up to three days before the meeting—but in an Assembly of this importance, the same thing cannot be provided.

**Mike Hedges:** Ymhlieth y nifer fawr o bethau nad wyf wedi eu deall ers imi fod yma yw pam, fel cynghorydd, yr oeddwn yn arfer cael llyfr gyda'r holl eitemau ar yr agenda ynddo cyn y cyfarfod—o dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) 1985, yr oedd yn gorfod bod ar gael hyd at dri diwrnod cyn y cyfarfod—ond mewn Cynulliad o'r pwysigrwydd hwn, nid oes modd darparu'r un peth.

**Angela Burns:** Thank you for that. I will be honest with you that I do not know how councils' internal workings operate as I have never been a councillor; however, I must say that most of our committees meet weekly, if not fortnightly. Regarding the ability of the secretariat to turn around the discussions that come out of a meeting, if you have a committee meeting on Thursday, issues will come out of it, you might have to seek further information from witnesses, wait for that to come back in, get it analysed and produce a briefing paper as a formal committee paper by the following week, and that is a tight turnaround. Trying to do what you asked for would impact severely on the operation of our committee papers and our committees. We would be able to meet less often. I will make a further point and that is that none of the formal papers have breached the two-day rule this term, but other papers come from witnesses. Sometimes, you ask a witness to appear, you ask them for a paper and they say that they will give you one, but they do not produce that paper until one or two days before the committee meeting. That does not

**Angela Burns:** Diolch ichi am hynny. Byddaf yn onest gyda chi: nid wyf yn deall prosesau mewnol cynghorau gan nad wyf erioed wedi bod yn gyngorydd. Fodd bynnag, mae'n rhaid imi ddweud bod y mwyafrif o'n pwylgorau yn cyfarfod yn wythnosol, os nad bob pythefnos. O ran gallu'r ysgrifenyddiaeth i droi allan y trafodaethau sy'n dod allan o gyfarfod, os oes gennych gyfarfod pwylgor ddydd Iau, bydd materion yn dod allan ohono, efallai y bydd yn rhaid i chi ofyn am wybodaeth bellach gan dystion, aros iddi ddod yn ôl i mewn, cael dadansoddiad ohoni a chynhyrchu papur briffio fel papur pwylgor ffurfiol erbyn yr wythnos ganlynol. Mae hynny'n amserlen dynn. Byddai ceisio cyflawni eich cais yn cael effaith ddifrifol ar weithrediad ein papurau pwylgor a'n pwylgorau. Byddem yn gallu cwrdd yn llai aml. Gwnaf bwynt pellach sef bod dim o'r papurau ffurfiol wedi torri'r rheol dau ddiwrnod y tymor hwn, ond daw papurau eraill oddi wrth dystion. Weithiau, byddwch yn gofyn i dyst i ymddangos, byddwch yn gofyn iddynt am bapur a byddant yn dweud y byddant yn rhoi

give the Members' Research Service much time to analyse that and produce a briefing paper for the committee. Those papers sometimes turn up very late, but they are not part of a committee meeting's formal set of papers.

un i chi, ond ni fyddant yn cynhyrchu'r papur hwnnw nes un neu ddu ddwrnod cyn i'r pwylgor gwrdd. Nid yw hynny'n rhoi llawer o amser i Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau i ddadansoddi hynny a llunio papur briffo ar gyfer y pwylgor. Weithiau bydd y papurau hynny yn cyrraedd yn hwyr iawn, ond nid ydynt yn rhan o set ffurfiol cyfarfod pwylgor o bapurau.

**Aled Roberts:** A wnaiff y Comisiynydd edrych i mewn i hyn? Yr wyf yn cefnogi Mike Hedges. Cafwyd papurau ar gyfer un pwylgor yr wythnos hon ar fore'r cyfarfod. Mae hefyd problem gyda chyflieithu mewn rhai achosion, lle nad oes gwelliannau i'w gweld ar gyfer sesiwn o'r Cyfarfod Llawn tan ddydd Llun.

**Aled Roberts:** Will the Commissioner look into this? I support Mike Hedges. This week, papers for one committee were only available on the morning of the meeting. There is also a problem with translation in some cases, as no amendments for a Plenary session can be seen until Monday.

**Angela Burns:** Thank you very much for that, Aled. The first thing that I want to say is that, again, I believe that the paper to which you are referring was a briefing document from a witness and therefore not part of the formal papers. I know that that turned up very late, but it was only received by the secretariat at the beginning of the week. You need to give staff a chance to read it, absorb it, do the research on it and return with a set of answers. To expect something that turns up on a Monday or Tuesday to be turned around just like that is unfair on the staff involved. They also have a caseload that they have to prioritise. I take your point, and we try to ensure that it does not happen. I would also suggest that, if Chairs of committees are finding that this is an issue, it would be a good thing for them to bring that forward as well, because it is all about providing Member support in order to ensure good, effective scrutiny of legislation and Government policy in the Assembly.

**Angela Burns:** Diolch yn fawr iawn am hynny, Aled. Y peth cyntaf yr wyf am ei ddweud yw, unwaith eto, yr wyf yn credu mai dogfen briffo gan dyst oedd y papur yr ydych yn cyfeirio ato, ac felly nid oedd yn rhan o'r papurau ffurfiol. Gwn yr oedd yn hwyr iawn, ond dim ond ar ddechrau'r wythnos y daeth i law gan yr ysgrifenyddiaeth. Mae angen i chi roi cyfle i staff i'w ddarllen, i'w amsugno, gwneud y gwaith ymchwil arno a dychwelyd gyda set o atebion. Mae disgwyl y gellir troi allan rhywbeth sy'n cyrraedd ar ddydd Llun neu ddydd Mawrth mewn chwinciad yn annheg i'r staff dan sylw. Mae ganddynt hefyd lwyth gwaith y mae'n rhaid iddynt flaenoriaethu. Derbyniaf eich pwynt, ac yr ydym yn ceisio sicrhau nad yw'n digwydd. Byddwn hefyd yn awgrymu, os yw cadeiryddion pwylgorau yn canfod bod hyn yn broblem, y byddai'n dda o beth iddynt grybwyl hynny yn ogystal, gan ei fod i gyd yn ymwneud â darparu cefnogaeth i Aelodau er mwyn sicrhau craffu da, effeithiol o ddeddfwriaeth a pholisi'r Llywodraeth yn y Cynulliad.

With reference to your comments on translation, the provision of the Welsh language version of lines was a recommendation of the individual review of bilingual services that was undertaken in the last Assembly. Translation is usually only possible once the research staff have gone through any papers that might have come through to them. I know that it is not a satisfactory answer, but we simply cannot do

Gan gyfeirio at eich sylwadau ar gyflieithu, yr oedd darparu'r fersiwn Cymraeg o linellau yn un o argymhellion yr adolygiad unigol o wasanaethau dwyieithog a gynhalwyd yn y Cynulliad diwethaf. Mae cyflieithu fel arfer ond yn bosibl unwaith y bydd y staff ymchwil wedi mynd drwy unrhyw bapurau a allai fod wedi eu cyrraedd. Gwn nad yw'n ateb bodhaol, ond ni allwn wneud y cyflieithiad ar amrantiad, ac er mwyn

the translation immediately, and in order to get the answer back out to you correctly a period of time has to elapse.

darparu'r ateb cywir i chi, mae'n rhaid i gyfnod o amser fynd heibio.

### Siop y Cynulliad Cenedlaethol

**3. William Powell:** *Pa gynnydd sy'n cael ei wneud i ddatblygu siop y Cynulliad Cenedlaethol, fel ei bod yn llwyfan i arddangos celf, crefftaw a chynnrych bwyd o Gymru. OAQ(4)0014(AC)*

**Assembly Commissioner (Sandy Mewies):** I thank the Member for Mid and West Wales, who I think is the Liberal Democrat spokesperson on rural affairs, and will therefore have a keen interest in this matter. We already offer a range of Welsh products in the shop, including Penderyn whisky and Clogau gold. We will review the range when we relocate the shop near the public cafe in the Oriel. One of the problems has been that sales have been low because of the location of the shop as it is. We will have to consider producing a sourcing and selection policy to be fair to the large number of artists, craftspeople and food suppliers in Wales, many of whom will want to sell products through the shop; we are quite sure of that. That is one of the things that we will need to look into, and the other thing is food. There is a lot of wastage with food products, and that has to be looked at carefully.

### National Assembly Shop

**3. William Powell:** *What progress is being made to develop the National Assembly shop, so that it becomes a showcase for Welsh arts, crafts and food products. OAQ(4)0014(AC)*

**Comisiynydd y Cynulliad (Sandy Mewies):** Diolch i'r Aelod dros Ganolbarth a Gorllewin Cymru, sydd, yr wyf yn credu, yn llefarydd y Democratiaid Rhyddfrydol ar faterion gwledig, ac felly bydd ganddo ddiddordeb brwd yn y pwnc hwn. Yr ydym eisoes yn cynnig amrywiaeth o gynnrych Cymreig yn y siop, yn cynnwys wisgi Penderyn ac aur Clogau. Byddwn yn adolygu'r arlwy pan fyddwn yn adleoli'r siop ger y caffi cyhoeddus yn yr Oriel. Un o'r problemau yw bod gwerthiant wedi bod yn isel oherwydd lleoliad presennol y siop. Bydd yn rhaid inni ystyried cynhyrchu polisi olrhain a dewis i fod yn deg i'r nifer fawr o artistiaid, crefftawr a chyflenwyr bwyd yng Nghymru. Bydd llawer ohonynt eisianu gwerthu cynnyrch drwy'r siop; yr ydym yn holol siŵr o hynny. Dyna un o'r pethau y bydd angen i ni ymchwilio iddynt, a bwyd yw'r llall. Mae llawer o wastraff gyda chynhyrchion bwyd, ac mae'n rhaid edrych yn ofalus ar hynny.

**William Powell:** I thank the Commissioner for that answer. You have anticipated my follow-up question: would you make a commitment to source merchandise and products from across the whole of Wales, and particularly from small companies and sole traders where possible?

**William Powell:** Diolch i'r Comisiynydd am yr ateb hwnnw. Yr ydych wedi rhagweld fy nghwestiwn dilynol: a wnewch ymrwymiad i gaffael nwyddau a chynhyrchion o Gymru benbaladr, ac yn enwedig gan gwmnïau bach a masnachwyr unigol lle bo hynny'n bosibl?

**Sandy Mewies:** Yes, I am quite sure that every Member, and every member of the Commission, would be quite happy for me to make that commitment. Where possible, we will be looking at putting a fair representation of products in the shop. However, we also have to look at cost and value for money. We want to enhance the experience of going to the shop for visitors, and make it a useful outlet for people in Wales who produce such marvellous products.

**Sandy Mewies:** Yr wyf yn siŵr y byddai pob Aelod, a phob aelod o'r Comisiwn, yn ddigon hapus i mi wneud yr ymrwymiad hwnnw. Lle bo'n bosibl, byddwn yn edrych ar sicrhau bod cynrychiolaeth deg o gynhyrchion yn y siop. Fodd bynnag, rhaid inni hefyd edrych ar y gost a gwerth am arian. Yr ydym yn awyddus i wella profiad ymwelwyr yn y siop, a'i wneud yn farchnad ddefnyddiol i bobl yng Nghymru sy'n cynhyrchu'r fath gynnrych campus.

**Darren Millar:** Thank you, Commissioner, for your previous answer. I am pleased to hear that the shop will be relocated. Its location has been an issue for people in the past in terms of accessing the shop. Are you able to give us a timescale for the relocation, and a completion date?

**Sandy Mewies:** I cannot at this stage, but I will be happy to notify you, and all Members, in writing.

#### Gwerth am Arian

**4. Antoinette Sandbach:** A wnaiff y Comisiynydd ddatganiad am flaenorol o ran cael ei hadleoli. Mae ei lleoliad wedi bod yn broblem i bobl yn y gorffennol o ran cael mynediad iddi. A allwch roi amserlen i ni ar gyfer yr adleoliad a dyddiad cwblhau?

**Darren Millar:** Diolch, Gomisiynydd, am eich ateb blaenorol. Yr wyf yn falch o glywed y bydd y siop yn cael ei hadleoli. Mae ei lleoliad wedi bod yn broblem i bobl yn y gorffennol o ran cael mynediad iddi. A allwch roi amserlen i ni ar gyfer yr adleoliad a dyddiad cwblhau?

**Sandy Mewies:** Ni allaf ar hyn o bryd, ond byddaf yn hapus i roi gwybod i chi, a'r holl Aelodau, yn ysgrifenedig.

#### Value for Money

**4. Antoinette Sandbach:** Will the Commissioner make a statement on the Assembly Commission's priorities for delivering value for money.  
OAQ(4)0015(AC)

**Angela Burns:** I thank the Member for her question. The Commission has agreed four new strategic goals for the fourth Assembly, and one of these is to use resources wisely. We intend to invest where necessary to ensure that the Assembly is fully equipped to operate effectively as a parliament with new law-making powers. At the same time, we want to reinforce the confidence of Assembly Members and the people of Wales in the way that we deliver services and manage costs. Our resources deliver a vital public service and we will be ensuring that we achieve improved efficiency and value for money, and make the best possible use of taxpayers' money.

**Angela Burns:** Diolch i'r Aelod am ei chwestiwn. Mae'r Comisiwn wedi cytuno ar bedwar nod strategol newydd ar gyfer y pedwerydd Cynulliad, ac un ohonynt yw defnyddio adnoddau'n ddoeth. Yr ydym yn bwriadu buddsoddi lle bo angen i sicrhau bod y Cynulliad yn cael ei gyfarparu'n llawn i weithredu'n effeithiol fel senedd â phwerau deddfu newydd. Ar yr un pryd, yr ydym yn awyddus i atgyfnerthu hyder Aelodau'r Cynulliad a phobl Cymru yn y ffordd yr ydym yn darparu gwasanaethau ac yn rheoli costau. Mae ein hadnoddau yn cyflwyno gwasanaeth cyhoeddus hanfodol a byddwn yn sicrhau ein bod yn cyflawni effeithlonrwydd a gwerth am arian gwell, a gwneud y defnydd gorau posibl o arian trethdalwyr.

**Antoinette Sandbach:** Commissioner, it is a matter of great concern to me that, in regard to the procurement of ICT services and equipment, the Commission is not delivering value for money in the way that the public should expect. I would highlight issues from the small scale—such as Assembly BlackBerrys that are tied to an expensive contract with a network that has no reception in large parts of Wales—to large-scale issues with the ICT contract that the Commission is unable to address because it is locked in for several years to come. What assurances can you provide that the Commission takes these matters seriously and is prepared to address them?

**Antoinette Sandbach:** Gomisiynydd, mae'n achos o bryder mawr i mi, o ran caffael gwasanaethau a chyfarpar technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, nad yw'r Comisiwn yn cyflawni gwerth am arian yn y ffordd y dylai'r cyhoedd ei ddisgwyl. Amlygaf faterion ar raddfa fechan—fel BlackBerrys y Cynulliad sydd wedi cael eu rhwymo i gontact drud gyda rhwydwaith sydd heb dderbyniad mewn rhannau helaeth o Gymru—i broblemau ar raddfa fawr gyda'r contract TGCh na all y Comisiwn fynd i'r afael â hwy oherwydd ei fod yn rhwym iddo am nifer o flynyddoedd eto. Pa sicrwydd y gallwch ei roi bod y Comisiwn yn cymryd y materion hyn o ddifrif ac yn barod i ymdrin â

hwy?

3.00 p.m.

**Angela Burns:** We take them seriously, and I say that sincerely as a user of our IT systems. I totally understand the frustration suffered by all Members at some point in trying to deal with our technology. That is why we took the decision to change the way that we run our service and to deliver UNO, so that, when the time comes, we can decide where we want to go with our IT provision—whether we stay with our current supplier or go elsewhere. It gives us a chance to have a whole new contract, with service level agreements put into place. We will be out of this by 2014, and we will then be able to completely review how we redeploy our IT services. It is worth saying at this point that we recognise that IT purchase, which is a specialised subject, is not a key skill of the Assembly. It is not what we do; we do parliamentary support. We will, therefore, be looking to recruit an individual who has those skills and proven expertise in managing an organisation of this scale with regard to its IT systems. That individual will be able to move us forward into the future with good contracts and service level agreements with the right companies in order to provide the support that every person in this Chamber wants.

**Angela Burns:** Rydym yn eu cymryd o ddifrif, a dywedaf hynny'n ddiffuant fel defnyddiwr ein systemau TG. Yr wyf yn deall y rhwystredigaeth a ddioddefir gan Aelodau ar ryw bwynt yn ceisio ymdrin â'n technoleg. Dyna pam y cymerasom y penderfyniad i newid y ffordd yr ydym yn rhedeg ein gwasanaeth ac i ddarparu UNO, fel y gallem benderfynu lle yr ydym am fynd â'n darpariaeth TG pan ddaw'r amser—p'un ai a ydym yn aros gydag ein cyflenwr presennol neu'n mynd i rywle arall. Mae'n rhoi inni gyfle i gael contract newydd, gyda chytundebau lefel gwasanaeth ar waith. Byddwn allan o hyn erbyn 2014, ac yna byddwn yn gallu adolygu'n gyfan gwbl sut yr ydym ynadleoli'n gwasanaethau TG. Mae'n werth dweud ar hyn o bryd ein bod yn cydnabod nad yw prynu TG, sy'n bwnc arbenigol, yn un o sgiliau allweddol y Cynulliad. Nid yw'n rhywbedd yr ydym yn ei wneud; darparu cymorth seneddol a wnawn ni. Byddwn, felly, yn ystyried reciriwtio unigolyn sydd â'r sgiliau hynny ac arbenigedd profedig o reoli sefydliad o'r maint hwn o ran ei systemau TG. Bydd yr unigolyn hwnnw'n gallu symud ymlaen at y dyfodol gyda chontractau da a chytundebau lefel gwasanaeth gyda'r cwmnïau iawn er mwyn darparu'r cymorth y mae pob person yn y Siambra hon yn ei ddymuno.

#### Gwaith y Cynulliad Cenedlaethol

**5. Mark Drakeford:** A yw Comisiwn y Cynulliad yn fodlon bod gwaith y Cynulliad Cenedlaethol yn ddigon agored i aelodau o grwpiau ethnig lleiafrifol yng Nghymru. OAQ(4)0013(AC)

**Sandy Mewies:** I thank the Member for Cardiff West for that question. We will never be satisfied that we are providing the widest possible access, and every member of the Commission wants to see this issue developing in years to come. However, we have made good progress, and Members will know that I circulated a memorandum not so long ago asking for ideas and suggestions so that we can do more. You will know that we have the Petitions Committee, the outreach

#### Work of the National Assembly

**5. Mark Drakeford:** Is the Assembly Commission satisfied that the work of the National Assembly is suitably accessible to members of minority ethnic groups in Wales. OAQ(4)0013(AC)

**Sandy Mewies:** Diolch i'r Aelod dros Orllewin Caerdydd am y cwestiwn hwnnw. Ni fyddwn byth yn fodlon ein bod yn darparu'r mynediad ehangaf posibl, ac mae pob aelod o'r Comisiwn am weld y mater hwn yn datblygu yn y blynnyddoedd i ddod. Fodd bynnag, rydym wedi gwneud cynydd da, a bydd Aelodau'n gwybod fy mod wedi dosbarthu, ddim gymaint â hynny yn ôl, femorandwm yn gofyn am syniadau ac awgrymiadau fel y gallwn wneud mwy.

work and the outreach bus reaching areas that the Cardiff building cannot reach. We are consulting on the new strategic equality plan, which will involve engaging with diverse communities and encouraging their feedback. We also have things like ‘Explore the Senedd’, which is available in eight community languages, from Arabic to Urdu. It is currently being redrafted, and will be available to visitors to the Senedd and for use by our outreach team. Having accessible buildings is a key factor, and we have and will develop policies and training to ensure that our buildings are accessible to minority ethnic groups.

Byddwch yn gwybod bod gennym y Pwyllgor Deisebau, y gwaith allgymorth a'r bws allgymorth yn cyrraedd yr ardaloedd na all yr adeilad yng Nghaerdydd eu cyrraedd. Yr ydym yn ymgynghori ar y cynllun cydraddoldeb strategol newydd, a fydd yn cynnwys ymgysylltu â chymunedau amrywiol ac annog eu hadborth. Mae gennym hefyd bethau megis ‘Crwydro’r Senedd’, sydd ar gael mewn wyth o ieithoedd cymunedol, o Arabeg i Wrdw. Mae'n cael ei ailddraffio ar hyn o bryd, a bydd ar gael i ymwelwyr â'r Senedd ac i'w ddefnyddio gan ein tîm allgymorth. Mae cael adeiladau hygrych yn ffactor allweddol, ac yr ydym wedi datblygu polisiau a hyfforddiant, a byddwn yn parhau i wneud hynny, i sicrhau bod ein hadeiladau yn hygrych i grwpiau lleiafrifoedd ethnig.

**Mark Drakeford:** Thank you for that helpful answer. I was pleased to learn of the work that you have been leading on seeking ways in which accessibility to what goes on here can be improved. The Riverside ward in my constituency is the most ethnically diverse community in Wales, and it is full of young people who take a real interest in what goes on in the Assembly. Will you undertake to report back to us when the work that you are doing has been completed, so that we can contribute again to any thinking that is going on, to ensure that we do everything that we can to reach out to those people who are keen to know what we are doing?

**Mark Drakeford:** Diolch ichi am yr ateb defnyddiol hwnnw. Yr oeddwn yn falch o glywed am y gwaith yr ydych wedi bod yn ei arwain i chwilio am ffyrdd y gellir gwella hygrychedd at yr hyn sy'n digwydd yma. Ward Glan-yr-afon yn fy etholaeth i yw'r gymuned ethnig fwyaf amrywiol yng Nghymru, ac mae'n llawn pobl ifanc sy'n cymryd gwir ddiddordeb yn yr hyn sy'n mynd ymlaen yn y Cynulliad. A wnewch chi ymrwymo i adrodd yn ôl i ni pan gwblheir y gwaith yr ydych yn ei wneud, fel y gallwn gyfrannu eto i unrhyw waith meddwl sy'n mynd rhagddo, er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud popeth y gallwn i estyn allan at y bobl hynny sydd yn awyddus i wybod beth yr ydym yn ei wneud?

**Sandy Mewies:** It is important that we reach out to young people, whatever their background and ability; that is important for the future of this legislature. I will gladly give you an undertaking that I will keep you, as well as other Assembly Members, informed of how things are developing.

**Sandy Mewies:** Mae'n bwysig ein bod yn cyrraedd pobl ifanc, beth bynnag fo'u cefndir a'u gallu; mae hynny'n bwysig i ddyfodol y ddeddfwrfa hon. Ryw'n hapus i roi addewid i chi y byddaf yn rhoi gwybod i chi ac Aelodau Cynulliad eraill sut y mae pethau'n datblygu.

**Mohammad Asghar:** Following the referendum in March, it is more important than ever that the people of Wales understand the workings of their National Assembly and its extended legislative powers. It is imperative that all sections of society understand the opportunities that exist for them to be involved in both our democratic and legislative processes. Is the Assembly

**Mohammad Asghar:** Yn dilyn y refferendwm ym mis Mawrth, mae'n bwysicach nag erioed bod pobl Cymru yn deall gwaith eu Cynulliad Cenedlaethol a'i bwerau deddfwriaethol estynedig. Mae'n hanfodol bod pob rhan o'r gymdeithas yn deall y cyfleoedd sydd ar gael iddynt i gymryd rhan yn ein prosesau democraidd a deddfwriaethol. A ydyw Comisiwn y

Commission content that enough is being done to promote this message and these opportunities to minority ethnic groups? Given the Commission's functions and responsibilities that are centred on promoting public awareness of this institution, what future plans are in place for that?

Cynulliad yn fodlon bod digon yn cael ei wneud i hyrwyddo'r neges hon a'r cyfleoedd hyn i grwpiau lleiafrifoedd ethnig? O ystyried swyddogaethau a chyfrifoldebau'r Comisiwn sy'n canolbwytio ar hyrwyddo ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r sefydliad hwn, pa gynnlluniau sydd yn eu lle ar gyfer hynny at y dyfodol?

**Sandy Mewies:** We are consulting on our responsibilities on equalities, and I hope that you will contribute to the consultation. I can give you some examples of what has happened up to now. The outreach team has, for example, run a session on understanding the National Assembly for Wales and engaging with Muslim Youth Wales, in order to empower its members to raise issues with the Assembly and its Members. We also consult with the Welsh Refugee Council. The outreach team has encouraged the Black Voluntary Sector Network Wales to bring its exhibition to the Pierhead building for Black History Month for the past two years. Similarly, the outreach team encouraged the Somali Integration Society to bring its exhibition to the Pierhead building. As I said to Mark Drakeford earlier, this is an ongoing process. We will miss some opportunities, but I hope that we learn from them and continue to develop this policy so that it meets the needs of everyone in Wales, so that everyone recognises that this is their Assembly.

**Sandy Mewies:** Yr ydym yn ymgynghori ar ein cyfrifoldebau ar gydraddoldeb, a gobeithiaf y byddwch yn cyfrannu at yr ymgynghoriad. Gallaf roi rhai enghreiffiau i chi o'r hyn sydd wedi digwydd hyd yn hyn. Er enghraift, mae'r tîm allgymorth wedi cynnal sesiwn ar ddeall Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac ymgysylltu â Ieuenctid Mwslimaidd Cymru, er mwyn rhoi hyder i'w haelodau i godi materion gyda'r Cynulliad a'i Aelodau. Rydym hefyd yn ymgynghori â Chyngor Ffoaduriaid Cymru. Mae'r tîm allgymorth wedi annog Rhwydwaith Sector Gwirfoddol Du Cymru i ddod â'i arddangosfa i adeilad y Pierhead ar gyfer Mis Hanes Pobl Dduon am y ddwy flynedd ddiwethaf. Yn yr un modd, bu'r tîm allgymorth yn annog y Gymdeithas Integreiddio Somaliaid i ddod â'i harddangosfa i adeilad y Pierhead. Fel y dywedais wrth Mark Drakeford yn gynharach, mae hon yn broses barhaus. Byddwn yn colli rhai cyfleoedd, ond gobeithiaf y byddwn yn dysgu oddi wrthynt ac yn parhau i ddatblygu'r polisi hwn fel ei fod yn diwallu anghenion pawb yng Nghymru, fel bod pawb yn cydnabod mai eu Cynulliad nhw yw hwn.

### Babanod a Phlant Ifanc

**6. Julie Morgan:** Pa ddarpariaeth sydd ar gael i fabanod a phlant ifanc yn y Cynulliad. OAQ(4)0019(AC)

**Assembly Commissioner (Peter Black):** In line with other public buildings and venues, baby changing facilities are provided in the Senedd, Pierhead building and Tŷ Hywel for visitors to the Assembly. I am pleased to report that our buildings are open and accessible to all and that we frequently welcome visitors with babies and young children to the Assembly. The Assembly also has an agreement with Darling Buds Nursery to provide up to 10 guaranteed childcare

### Babies and Young Children

**6. Julie Morgan:** What provision is made for babies and young children in the Assembly. OAQ(4)0019(AC)

**Comisiynydd y Cynulliad (Peter Black):** Yn unol â lleoliadau ac adeiladau cyhoeddus eraill, darperir cyfleusterau newid babi yn y Senedd, adeilad y Pierhead a Thŷ Hywel ar gyfer ymwelwyr â'r Cynulliad. Yr wyf yn falch cael adrodd bod ein hadeiladau yn agored ac yn hygyrch i bawb ac ein bod yn aml wedi croesawu ymwelwyr â babanod a phlant ifanc i'r Cynulliad. Hefyd, mae gan y Cynulliad gytundeb â'r feithrinafa Darling Buds i ddarparu hyd at 10 o leoedd gofal

places for those working in the Cardiff bay estate.

**Julie Morgan:** I thank the Assembly Commissioner for that response. What arrangements are made for mothers who want to breastfeed their children in the Assembly's buildings? Would it be possible to promote the Assembly's buildings as a breastfeeding-friendly place?

**Peter Black:** Mothers can breastfeed their babies in all parts of the Assembly's estate if they so wish. If a private area is requested, they are escorted to an unoccupied meeting room. We display signs in the security-scanning area and café in the Senedd to say that breastfeeding is welcome. We also have baby changing facilities that are clearly marked near the toilets in the Senedd and the Pierhead building. I believe that we have breastfeeding-friendly buildings. If we want to apply for formal status in that regard, if such a status exists, I am sure that we could look at doing so.

plant wedi'u gwarantu i'r rhai sy'n gweithio yn yr ystâd ym mae Caerdydd.

**Julie Morgan:** Diolchaf i Gomisiynydd y Cynulliad am yr ymateb hwnnw. Pa drefniadau a wnaed ar gyfer mamau sy'n dymuno bwydo eu plant o'r fron yn adeiladau'r Cynulliad? A fyddai'n bosibl hyrwyddo adeiladau'r Cynulliad fel lle sy'n cefnogi bwydo o'r fron?

**Peter Black:** Gall mamau fwydo eu babanod o'r fron ym mhob rhan o ystâd y Cynulliad os dymunir gwneud hynny. Os gofynnir am ardal breifat, fe'u hebryngir i ystafell gyfarfod wag. Rydym yn arddangos arwyddion yn yr ardal sganio diogelwch a'r caffi yn y Senedd i ddweud y croesewir bwydo o'r fron. Hefyd, mae gennym gyfleusterau newid babi wedi'u nodi'n glir ger y toiledau yn y Senedd ac yn adeilad y Pierhead. Credaf fod gennym adeiladau sy'n darparu ar gyfer bwydo o'r fron. Os ydym am wneud cais am gael statws ffurfiol yn hynny o beth, os oes statws o'r fath yn bodoli, yr wyf yn siŵr y gallem edrych ar wneud hynny.

### Trefniadau Archebu Nwyddau Swyddfa

**7. Ann Jones:** *Pa asesiad y mae'r Comisiwn wedi'i wneud o'r newidiadau diweddar i'r trefniadau ar gyfer archebu nwyddau swyddfa. OAQ(4)0012(AC)*

**Angela Burns:** I thank the Member for her question. For the start of the fourth Assembly, the Commission introduced new arrangements for Members to be able to order directly from the Assembly's stationery supplier. The aim is to provide an improved service. Members' staff can order online, stationery can be delivered straight to constituency offices and better value for money can be secured by using a Wales-wide contract, tendered by the Welsh Government. Assembly staff have monitored feedback from Members and support staff. There have been some teething troubles, and we are working to resolve these. However, overall, the new service appears to be working well. We will undertake a more formal review next month, when we will be six months into the contract. Members' opinions will be valuable in conducting that review, as will those of

### Stationery Ordering Procedures

**7. Ann Jones:** *What assessment has the Commission made of recent changes to stationery ordering procedures. OAQ(4)0012(AC)*

**Angela Burns:** Diolch i'r Aelod am ei chwestiwn. Ar gyfer dechrau'r pedwerydd Cynulliad, cyflwynodd y Comisiwn drefniadau newydd i alluogi Aelodau i archebu'n uniongyrchol o gyflenwr y Cynulliad. Y nod yw darparu gwasanaeth gwell. Gall staff Aelodau archebu ar-lein, a chael deunydd ysgrifennu wedi'i anfon yn syth i swyddfeydd etholaeth a gellir sicrhau gwell gwerth am arian drwy ddefnyddio contract Cymru gyfan, sydd wedi'i dendro gan Lywodraeth Cymru. Mae staff y Cynulliad wedi monitro adborth gan Aelodau a staff cymorth. Cafwyd rhai problemau cychwynnol, ac rydym yn gweithio i ddatrys y rhain. Fodd bynnag, yn gyffredinol, mae'r gwasanaeth newydd yn ymddangos i weithio'n dda. Byddwn yn cynnal adolygiad mwy ffurfiol y mis nesaf, pan fyddwn chwe mis i mewn i'r contract. Bydd barn Aelodau

their support staff.

yn werthfawr wrth gynnal yr adolygiad hwnnw, fel y bydd barn eu staff cymorth.

**Ann Jones:** There was no consultation with Assembly Members or Assembly staff on this issue, due to the fact that the arrangements were made during the dissolution period. Why did the Commission decide that the arrangements should be made at this time? Why have we settled for a poorer quality of paper? When that was queried, we were told that we could have a better quality of paper but at a dearer price; that is not value for money. Another issue is that the toners used in the printers last for about a week to 10 days. They may be cheaper than the toners previously supplied by another contractor, but it is not value for money if we have to spend far more time getting toners for printers than had we used those made by the printer manufacturers. This is not good value for money for the Assembly. I ask the Commission to look at redesigning this contract. If necessary, pay the penalty to come out of the contract, and talk to Members about their stationery requirements.

**Ann Jones:** Nid oedd unrhyw ymgynghoriag Aelodau'r Cynulliad neu staff y Cynulliad ar y mater hwn, gan y gwnaed y trefniadau yn ystod y diddymiad. Pam benderfynodd y Comisiwn y dylid gwneud y trefniadau ar yr adeg hon? Pam ydym wedi penderfynu cael papur o ansawdd gwaeth? Pan holwyd hynny, dywedwyd wrthym y gallem gael papur o ansawdd gwell ond am bris drutach; nid yw hynny'n werth am arian. Mater arall yw'r ffaith bod yr arlliwyddion a ddefnyddir yn y peiriannau argraffu yn para ryw wythnos i 10 niwrnod. Efallai eu bod yn rhatach na'r arlliwyddion a ddarperid yn y gorffennol gan gontactwr arall, ond nid yw'n werth am arian os ydym yn gorfod treulio llawer mwy o amser yn cael arlliwyddion ar gyfer peiriannau argraffu na phe fyddem wedi defnyddio'r rhai a wnaed gan weithgynhyrchwyr yr argraffydd. Nid yw hyn yn werth da am arian ar gyfer y Cynulliad. Gofynnaf i'r Comisiwn ystyried ailgynllunio'r contract hwn. Os oes angen, talwch y gosb i ddod allan o'r contract, a siaradwch ag Aelodau ynglych eu gofynion o ran deunydd ysgrifennu.

**Angela Burns:** I understand your passion, because I have had ink that has slid off paper, paper that will not go through the printer and cartridges that do not fit the printer in my constituency office; I agree that it is frustrating. Dealing with your questions in some semblance of order, the service was introduced in direct response to a recommendation of the independent review panel in its 2009 report 'Getting it Right for Wales'. We all undertook to implement those recommendations, so that is why we went ahead with them. On value for money, the arrangements for stationery rely on the Welsh Government's Value Wales framework. It is widely used by the public sector, and it allows us to rely upon the accumulative buying power of large organisations to receive discounts, which were not available to us previously. I will address the quality issue in a moment, because that is another matter, but, in terms of being able to buy, that is why we decided to go down that route and be part of that buying conglomerate.

**Angela Burns:** Yr wyf yn deall eich angerdd, oherwydd yr wyf innau wedi cael inc yn llithro oddi ar y papur, papur sydd ddim yn mynd drwy'r argraffydd a chetris nad ydynt yn ffotio'r argraffydd yn fy swyddfa etholaeth; cytunaf ei bod yn rhwystredig. Fe wnaf ymdrin â'ch cwestiynau mewn rhywfath o drefn. Cyflwynwyd y gwasanaeth mewn ymateb uniongyrchol i argymhelliaid y panel adolygu annibynnol yn ei adroddiad yn 2009 'Yn Gywir i Gymru'. Ymrwymasom i gyd i weithredu'r argymhellion hynny, felly dyna pam yr ydym yn mynd ymlaen â hwy. Ar werth am arian, mae'r trefniadau ar gyfer deunydd ysgrifennu yn dibynnu ar fframwaith Gwerth Cymru Llywodraeth Cymru. Mae'n cael ei ddefnyddio'n helaeth gan y sector cyhoeddus, ac y mae'n caniatáu inni ddibynnu ar bŵer prynu cronnol sefydliadau mawr i gael gostyngiadau, nad oeddent ar gael inni o'r blaen. Ymdriniaf â'r mater ansawdd ymhen eiliad, oherwydd mater arall yw hwnnw, ond o ran y gallu i brynu, dyna pam yr ydym wedi penderfynu mynd ar hyd y trywydd hwnnw a bod yn rhan

o'r cydgwmni prynu hwnnw.

With reference to the quality issues, there have been some teething troubles. We have tried to meet a number of principles with the supplier, including value for money and sustainability—that is why we have the paper that I know no-one is keen on. However, it is recycled and we are trying to live up to our environmental credentials. The teething problems have been, pretty much, addressed. With all my heart, I urge all Members to participate in the review next month, which is six months into this contract. We will ask you and your staff about it. We can only improve the service level agreement with the supplier with your feedback.

Gan gyfeirio at y materion o ran ansawdd, fe fu rhai problemau cychwynnol. Yr ydym wedi ceisio cwrdd â nifer o egwyddorion gyda'r cyflenwr, gan gynnwys gwerth am arian a chynaliadwyedd—dyna pam y mae gennym y papur y gwn nad oes neb yn hoff ohono. Fodd bynnag, y mae wedi ei ailgylchu, ac yr ydym yn ceisio cadw at ein cymwysterau amgylcheddol. Aethpwyd i'r afael, fwy neu lai, â'r problemau cychwynnol. Rwy'n annog pob Aelod, gyda'm holl fryd, i gymryd rhan yn yr adolygiad y mis nesaf, sef chwe mis i mewn i'r contract hwn. Byddwn yn gofyn i chi a'ch staff am y peth. Ni allwn wella'r cytundeb lefel gwasanaeth gyda'r cyflenwr heb eich adborth chi.

### Gwasanaethau

**8. David Rees:** *Pa wasanaethau fydd Comisiwn y Cynulliad yn eu darparu i Bwyllgorau. OAQ(4)0016(AC)*

**Angela Burns:** I thank the Member for his question. Committees are supported in their work by a range of National Assembly staff with different specialist expertise, and through the provision of accommodation and other facilities.

**David Rees:** As you are aware, in our capacity as committee members it is necessary to acquire evidence from a wide range of witnesses, some of whom may be considered vulnerable. I know that we all wish to encourage as many people as possible to participate, so that we can reach a well-informed view. What is the Commission doing to provide support to such witnesses, so that they feel comfortable and at ease when they provide evidence?

**Angela Burns:** Thank you for that important question. The Commission recently endorsed—I think that it was two meetings ago—a vulnerable witness protocol that was prepared by staff in the committee and legal services and the Assembly's equality team. The protocol provides guidance to Assembly committees and staff on how witnesses should be treated when interacting with the

### Services

**8. David Rees:** *What services will the Assembly Commission be providing to Committees. OAQ(4)0016(AC)*

**Angela Burns:** Diolch i'r Aelod am ei gwestiwn. Cynorthwyir pwylgorau yn eu gwaith gan ystod eang o staff Cynulliad Cenedlaethol sydd ag arbenigedd gwahanol, a thrwy ddarparu llety a chyfleusterau eraill.

**David Rees:** Fel y gwyddoch, yn rhinwedd ein swyddi fel aelodau pwylgor, mae'n angenrheidiol cael tystiolaeth gan amrywiaeth eang o dystion, rhai ohonynt, efallai, sy'n cael eu hystyried yn agored i niwed. Gwn ein bod i gyd yn dymuno annog cynifer o bobl â phosibl i gymryd rhan, fel y gallwn gyrraedd barn wybodus. Beth y mae'r Comisiwn yn ei wneud i roi cymorth i dystion o'r fath, fel eu bod yn teimlo'n gyfforddus ac yn gartrefol pan fyddant yn rhoi tystiolaeth?

**Angela Burns:** Diolch am y cwestiwn pwysig hwnnw. Cymeradwyodd y Comisiwn yn ddiweddar—credaf mai dau gyfarfod yn ôl oedd hynny—brotocol ar gyfer tystion sy'n agored i niwed a baratowyd gan staff yn y pwylgor a gwasanaethau cyfreithiol a thîm cydraddoldeb y Cynulliad. Mae'r protocol yn darparu canllawiau i bwyllgorau'r Cynulliad ac i staff ar sut y dylid trin tystion wrth

Assembly. The protocol builds upon our statutory duty for equality of treatment, the single equality scheme and the strategic equality statement. We recognise the need to implement the most appropriate way of gathering information from witnesses. We also recognise that witnesses will want to give evidence directly to the Assembly but under private circumstances. This is particularly relevant to committees such as the Children and Young People Committee, when dealing with young people who want to come here to take part in the democratic process, which is their right, but want to do that in the knowledge that they are safe.

In short, we have a protocol that is in place and it has been implemented. All the committees and their staff should be fully aware of it.

#### **Contractau Glanhawyr a Staff Arlwyd**

**9. Lynne Neagle:** A wnaiff y Comisiynydd roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gontactau Comisiwn y Cynulliad ar gyfer glanhawyr a staff arlwyd. OAQ(4)0021(AC)

**Sandy Mewies:** I thank the Member for Torfaen for that question. Further to the last update provided on 6 July, Charlton House and Company Catering Ltd has been successful in retaining the Assembly catering contract following a recent competitive tendering exercise. Assembly cleaning services continue to be provided by Total Support Services Ltd. Staff who deliver the contracted services are employed by these suppliers.

**Lynne Neagle:** Thank you for that answer. I know that my colleague, Ann Jones has raised concerns with you, previously, about threats to the terms and conditions of Assembly cleaning staff, employed through Total Support Services. I wonder, with contract negotiations due to get under way next week, whether the Commission would consider bringing Assembly cleaning services back in-house. We know that there are a number of examples in the public and private sector of similar moves having a positive impact. When Queen Mary University of London brought its cleaning staff back in-

ryngweithio gyda'r Cynulliad. Mae'r protocol yn adeiladu ar ein dyletswydd statudol ar gyfer cydraddoldeb o ran triniaeth, y cynllun cydraddoldeb sengl a'r datganiad cydraddoldeb strategol. Rydym yn cydnabod yr angen i weithredu yn y ffordd fwyaf priodol wrth gasglu gwybodaeth gan dystion. Rydym hefyd yn cydnabod y bydd dystion am roi dystiolaeth yn uniongyrchol i'r Cynulliad, ond o dan amgylchiadau preifat. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i bwyllgorau megis y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, wrth ymddyristheg y phobl ifanc sydd am ddod yma i gymryd rhan yn y broses ddemocrataidd, y mae gan ddynt hawl iddi, ond am wneud hynny gan wybod eu bod yn ddiogel.

Yn fyr, mae gennym protocol sydd ar waith ac wedi ei weithredu. Dylai'r holl bwyllgorau a'u staff fod yn gwbl ymwybodol ohono.

#### **Contracts for Cleaners and Catering Staff**

**9. Lynne Neagle:** Will the Commissioner give an update on the Assembly Commission contracts for cleaners and catering staff. OAQ(4)0021(AC)

**Sandy Mewies:** Diolch i'r Aelod dros Dorfaen am y cwestiwn hwnnw. Yn bellach i'r wybodaeth ddiweddaraf ar 6 Gorffennaf, mae Charlton House a Company Catering Cyf wedi llwyddo i gadw contract arlwyd i'r Cynulliad yn dilyn ymarferiad tendro cystadleuol. Mae gwasanaethau glanhau'r Cynulliad yn parhau i gael eu darparu gan Total Support Services Ltd. Mae staff sy'n darparu'r gwasanaethau dan contract yn cael eu cyflwyni gan y cyflenwyr hyn.

**Lynne Neagle:** Diolch ichi am yr ateb hwnnw. Gwn fod fy nghyd-Aelod, Ann Jones wedi mynegi pryderon i chi, yn y gorffennol, am fygythiadau i delerau ac amodau staff glanhau'r Cynulliad, sy'n cael eu cyflwyni drwy Total Support Services. Tybed, gyda negodiadau ar y contract ar fin dechrau yr wythnos nesaf, a fyddai'r Comisiwn yn ystyried dod â gwasanaethau glanhau'r Cynulliad yn ôl yn fewnol? Rydym yn gwybod y ceir nifer o enghreifftiau yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat o symudiadau tebyg yn cael effaith gadarnhaol. Pan ddaeth Queen Mary University of

house, for example, it was rewarded with lower rates of absenteeism, lower rates of staff turnover and big improvements in staff morale. Will you look at this, and would you agree that this is an agenda on which an institution such as the Assembly should be leading, not following?

London â'i staff glanhau yn ôl yn fewnol, er enghraift, fe'i gwobrwywyd gan gyfraddau is o absenoldeb, cyfraddau is o drosiant staff a gwelliannau mawr ym morâl staff. A wnewch chi edrych ar hyn, ac a gytnwch fod hwn yn agenda y dylai sefydliad megis y Cynulliad fod yn arwain arno ac nid yn ei ddilyn?

**Sandy Mewies:** I thank you for your comments. The contractors are required to share our commitment to equal opportunities, to comply with current legislation and to pay staff a living wage, which is based on the national minimum wage plus 15 per cent. We also insist on reasonable paid leave arrangements. Staff retention is good. However, I am sure that everyone here heard what you said. When the contract is reconsidered, your views will be taken into consideration by the Commission.

**Sandy Mewies:** Diolch am eich sylwadau. Mae'n rhaid i'r contractwyr rannu ein hymrwymiad i gyfle cyfartal, i gydymffurfio â deddfwriaeth gyfredol ac i dalu cyflog byw i staff, sy'n seiliedig ar yr isafswm cyflog cenedlaethol a 15 y cant. Rydym hefyd yn mynnu ar drefniadau rhesymol absenoldeb â thâl. Mae cadw staff yn dda. Fodd bynnag, yr wyf yn siŵr bod pawb yma wedi clywed yr hyn yr ydych yn ei ddweud. Pan fydd y contract yn cael ei ailystyried, caiff eich barn chi ei gymryd i ystyriaeth gan y Comisiwn.

3.15 p.m.

### Cyfathrebu gydag Etholwyr

**10. Simon Thomas:** Pa waith sydd ar y gweill i helpu Aelodau'r Cynulliad i wella'r dulliau o gyfathrebu gyda'u hetholwyr. OAQ(4)0020(AC)

**Comisiynydd y Cynulliad (Rhodri Glyn Thomas):** Mae'r Cynulliad wedi ymrwymo i ddefnyddio dulliau cyfathrebu newydd, a dulliau sy'n datblygu, fel y nodir yn strategaeth e-ddemocratiaeth y Cynulliad. Gall Aelodau'r Cynulliad a'u staff ddefnyddio safleoedd a chymhorthion rhwydweithio cymdeithasol ar offer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu a ddarperir gan Gomisiwn y Cynulliad, gan gynnwys cyfrifiaduron personol, gliniaduron a theclynnau BlackBerry. Mae staff y Cynulliad yn defnyddio nifer o ddulliau cyfathrebu digidol er mwyn sicrhau bod y cyhoedd yn ymgysylltu â gwaith y Cynulliad wrth iddo gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, wrth iddo ddeddfu ar gyfer Cymru a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif. Mae tîm e-ddemocratiaeth y Cynulliad yn datblygu'r hyn a fydd yn grynodeb rheolaidd o'r datblygiadau ym maes cyfathrebu digidol ar gyfer Aelodau a'u staff er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am y maes.

### Communicating with Constituents

**10. Simon Thomas:** What work is being planned to help Assembly Members improve the means of communicating with their constituents. OAQ(4)0020(AC)

**Assembly Commissioner (Rhodri Glyn Thomas):** The Assembly is committed to using new and emerging communications channels, as outlined in the Assembly's e-democracy strategy. Assembly Members and their staff are now able to access social networking sites and tools on Assembly Commission-provided information and communications technology equipment, including desktop PCs, laptops and BlackBerry devices. Assembly staff use a number of digital communication channels to engage the public in the work of the Assembly as it undertakes its role of representing the interests of Wales and its people, making laws for Wales and holding the Welsh Government to account. The Assembly's e-democracy team is currently developing what will be a regular digest of developments in digital communications for Members and support staff to keep them updated on developments in this field.

**Simon Thomas:** Diolch i'r Comisiynydd am ddarllen ei ateb mor drwyadl. Yr wyf yn falch o glywed bod gwelliannau ar y gweill. Fodd bynnag, fel y dywedwyd yn gynharach, mae systemau cyfathrebu'r Cynulliad, er eu bod yn gweithio, yn braidd yn glogyrnaidd. Yn arbennig, nid yw'r system ar gyfer defnyddio safleoedd rhwydweithio cymdeithasol, fel Trydar a Facebook, yn ffitio'n daclus gyda'r ffordd yr ydym yn cyfathrebu drwy wefannau neu flogio neu e-byst. Mae angen edrych ar hynny er mwyn sicrhau bod hi'n hawdd i Aelod symud o un platform i'r llall, a defnyddio BlackBerry, er enghraift, i gyfathrebu'n uniongyrchol, yn enwedig o gofio nad yw'r cyfryngau yng Nghymru yn aml yn sôn am yr hyn yr ydym yn ei gwneud yma. Mae cyfathrebu'n uniongyrchol gydag etholwyr, felly, yw'r ffordd fwyaf effeithiol o wneud hynny.

Yn olaf, yn y rhanbarth yr wyf yn ei chynrychioli, mae gennyf gwell signal o Iwerddon nag o Gymru. Felly, credaf efallai fod angen i ni edrych ar hynny hefyd.

Government has committed itself to it, and I hope that key workers will be used in the same way as cancer nurse specialists are used for breast cancer. People who have had a specialist breast cancer nurse working with them have told me what a huge support they are. They told of how these nurses stayed with them through the whole treatment, and people can go to them about any issues. That has been well established in Wales, and I hope that it is a model that will be extended to all cancer patients. It is important to acknowledge that cancer is not an isolated event; it is something that goes on for many years and you have to live with it for many years. Having one of these key workers means that you can go back to them at any point. That is another big plus in what the Government is doing.

This issue about the access to cancer drugs is an emotive and difficult issue. There are no easy answers. Medicine and drugs are advancing so quickly; there will always be something new available. Therefore, we need to approach it in that sort of way. You will never be able to get access to the newest drugs, and that has already been acknowledged in England with the fund that has been set up. As Assembly Members, we do our best for our constituents, and if a consultant recommends a certain drug, you do your best to get it. I have been in a position where people have come to me for drugs that they do not find easy to get, so I have tried to help them through the process that exists in Wales.

3.45 p.m.

Elin Jones has already said that there is a clearly laid out process in place in Wales, where you have individual plans—

**Darren Millar:** Thank you for taking the intervention. Do you recognise that the current process takes too long in terms of making a decision, which can be extremely

Llywodraeth wedi ymrwymo i hynny, ac yr wyl yn gobeithio y bydd gweithwyr allweddol yn cael eu defnyddio yn yr un ffordd ag y mae nysys canser arbenigol yn cael eu defnyddio ar gyfer canser y fron. Mae pobl sydd wedi cael nyrs arbenigol canser y fron yn gweithio gyda nhw wedi dweud wrthyf gymaint o gefnogaeth enfawr ydynt. Soniasant am sut yr oedd y nysys hyn yn aros gyda hwy drwy'r holl driniaeth, a gall pobl fynd atynt gydag unrhyw faterion. Mae hynny wedi cael ei sefydlu'n dda yng Nghymru, ac yr wyl yn gobeithio ei fod yn fodel a fydd yn cael ei ymestyn i bob claf canser. Mae'n bwysig cydnabod nad yw canser yn ddigwyddiad ynysig; mae'n rhywbeth sy'n digwydd am nifer o flynyddoedd ac mae'n rhaid i chi fyw gydag ef am flynyddoedd lawer. Mae cael un o'r gweithwyr allweddol hyn yn golygu y gallwch fynd yn ôl atynt ar unrhyw adeg. Mae hynny'n fantais fawr arall yn yr hyn y mae'r Llywodraeth yn ei wneud.

Mae'r mater hwn am y mynediad at gyffuriau canser yn fater emosiynol ac anodd. Nid oes atebion hawdd. Mae meddygaeth a chyffuriau yn datblygu mor gyflym; bydd bob amser rhywbeth newydd ar gael. Felly, mae angen i ni fynd ato yn y math hwnnw o ffordd. Ni fyddwch byth yn gallu cael mynediad at y cyffuriau mwyaf newydd, ac mae hynny eisoes wedi cael ei gydnabod yn Lloegr gyda'r gronfa sydd wedi cael ei sefydlu. Fel Aelodau Cynulliad, yr ydym yn gwneud ein gorau dros ein hetholwyr, ac os yw ymgynghorydd yn argymhell cyffur penodol, byddwch yn gwneud eich gorau i'w gael. Rwyf wedi bod mewn sefyllfa lle mae pobl wedi dod ataf am gyffuriau nad ydynt yn hawdd i'w cael, felly rwyf wedi ceisio eu helpu drwy'r broses sydd gennym yng Nghymru.

Mae Elin Jones eisoes wedi dweud bod yna broses sydd wedi ei gosod allan yn eglur mewn lle yng Nghymru, lle mae gennych gynlluniau unigol—

**Darren Millar:** Diolch am dderbyn yr ymyriad. A ydych yn cydnabod bod y broses bresennol yn cymryd gormod o amser o ran gwneud penderfyniad, a all beri cryn bryder

worrying for the family and the individual concerned in that it prevents treatment from taking place, and that it is delivering five times fewer cancer drugs to people in Wales than are being delivered in England to an equivalent number of patients? Is that not unacceptable, and does it not tell you that the system needs to change?

**Julie Morgan:** It is important that every care is taken to ensure that newly developed drugs are suitable for the individual, because these drugs will not have been through the NICE process or the all-Wales strategy process. You have to look at them closely because the side effects can sometimes be worse than the symptoms, so you have to approach them carefully. Obviously, everyone regrets delay, but I am aware that there will now be a panel that will take an overview of all these decisions; I believe its first meeting was to be in October, so it may have already met. That is an attempt to try to standardise the treatment that will be given in Wales, which I welcome. It is good that cancer is no longer a hidden illness: it is here; we are all talking about it and acknowledging that it touches us all.

**Mohammad Asghar:** While it is welcome news that cancer survival rates have increased in recent years, the increase in cancer incidence rates highlights the big challenges that we face in Wales. Presently, 120,000 people in Wales are living with or after cancer. Macmillan Cancer Support estimates that by 2030 that figure will have nearly doubled. In tackling the rise of cancer prevalence in Wales, it is important that the Welsh Government does more to promote the importance of good public health.

Obesity is a major preventable cause of cancer, yet six out of 10 men in Wales are presently overweight or obese and, sadly, Wales has one of the highest childhood obesity rates in the world. Meanwhile, the 2010 Welsh health survey shows that around a quarter of adults in Wales smoke, while 20 per cent of non-smokers are regularly

i'r teulu a'r unigolyn dan sylw gan ei fod yn atal triniaeth rhag digwydd, a'i fod yn darparu pum gwaith yn llai o gyffuriau canser i bobl yng Nghymru nag sy'n cael eu darparu yn Lloegr i nifer cyfatebol o gleifion? Onid yw hynny'n annerbyniol, ac onid yw'n dweud wrthych fod angen i'r system newid?

**Julie Morgan:** Mae'n bwysig bod pob gofal yn cael ei gymryd i sicrhau bod cyffuriau sydd newydd gael eu datblygu yn addas ar gyfer yr unigolyn, gan na fydd y cyffuriau hyn wedi bod drwy'r broses NICE neu broses y strategaeth Cymru gyfan. Mae'n rhaid i chi edrych arnynt yn ofalus oherwydd gall y sgîl-effeithiau weithiau fod yn waeth na'r symptomau, felly mae'n rhaid i chi fod yn ofalus. Mae pawb, wrth gwrs, yn gresynu oedi, ond rwy'n ymwybodol y bydd gennym bellach banel a fydd yn cymryd trosolwg o'r holl benderfyniadau hyn; yr oeddwn ar ddeall fod ei gyfarfod cyntaf i'w gynnal ym mis Hydref, felly gall fod eisoes wedi cyfarfod. Mae hynny'n ymgais i geisio safoni'r driniaeth a gaiff ei roi yng Nghymru, a chroesawaf hynny. Mae'n dda nad yw canser mwyach yn salwch cudd: mae yma; rydym i gyd yn siarad amdano ac yn cydnabod ei fod yn ein cyffwrdd ni i gyd.

**Mohammad Asghar:** Er ei bod yn newyddion da bod cyfraddau goroesi canser wedi cynyddu yn y blynnyddoedd diwethaf, mae'r cynnydd yn nifer yr achosion yn tynnu sylw at yr heriau mawr sy'n ein hwynebu yng Nghymru. Ar hyn o bryd, mae 120,000 o bobl yng Nghymru yn byw gyda neu ar ôl canser. Mae Cymorth Canser Macmillan yn amcangyfrif y bydd y ffigur hwnnw bron wedi dyblu erbyn 2030. Wrth fynd i'r afael a'r cynnydd yn nifer yr achosion o ganser yng Nghymru, mae'n bwysig bod Llywodraeth Cymru yn gwneud mwy i hyrwyddo pwysigrwydd iechyd y cyhoedd da.

Mae gordewdra yn un o'r prif achosion o ganser y gellir ei atal, ac eto mae chwech o bob 10 dyn yng Nghymru dros eu pwysau neu'n ordew ar hyn o bryd ac, yn anffodus, mae gan Gymru un o'r cyfraddau gordewdra plentyndod uchaf yn y byd. Yn y cyfamser, dengys arolwg iechyd Cymru 2010 fod tua chwarter o oedolion yng Nghymru yn

exposed to other people's tobacco smoke indoors. Drinking alcohol also increases the risk of cancer. The 2010 health survey showed that a quarter of adults reported binge drinking in the previous week, which is worrying. However, while these preventative long-term measures are essential, so is access to cancer drugs and treatments.

It is absolutely deplorable that 24 cancer drug treatments are available in England that are not routinely available in Wales. Julie said that there are not as many available in Wales, but there are enough; I do not think that that is right, Julie. Andrew Wilson, the chief executive of the Rarer Cancers Foundation has described the Welsh Government as being 'extraordinarily complacent' on this worrying issue. That is why, on this side of the Chamber, we believe that Wales needs a cancer drugs fund to ensure that our cancer patients have access to the best possible treatments, and that funding should not be stopped. I was at that meeting a couple of years ago when one of the finance directors of a local health board mentioned that 20 per cent of funds are inappropriately spent in the national health service in Wales. I think that that is deplorable. Sadly, this administration seems to prefer handing out free prescriptions to millionaires in Wales. On this side of the Chamber, we know that top-class cancer drugs should be a priority, not free supermarket ointments for society's wealthiest.

It is also deeply concerning that the Welsh Government keeps missing waiting time targets for cancer patients. The aim is for 95 per cent of patients with urgent suspected cancer to start treatment within 62 days of referral. Sadly, the Welsh Government has not hit that target since June 2008. While I am pleased that the most recent statistics show targets being hit at the Aneurin Bevan Local Health Board, performance is much patchier across other parts of Wales, indicating a postcode lottery in terms of service provision.

ysmygu, tra bod 20 y cant o'r bobl nad ydynt yn ysmgyu yn agored i fwg tybaco pobl eraill yn rheolaidd. Mae yfed alcohol hefyd yn cynyddu'r risg o ganser. Dangosodd arolwg iechyd 2010 fod chwarter o oedolion wedi adrodd eu bod wedi goryfed mewn pyliau yn yr wythnos flaenorol, sydd yn peri pryer. Fodd bynnag, tra bod y mesurau ataliol hirdymor hyn yn hanfodol, felly hefyd y mae mynediad at gyffuriau a thriniaethau canser.

Mae'n gwbl warthus bod 24 triniaeth cyffuriau canser ar gael yn Lloegr nad ydynt ar gael fel mater o drefn yng Nghymru. Dywedodd Julie nad oes cymaint ar gael yng Nghymru, ond bod digon; nid wyf yn credu bod hynny'n iawn, Julie. Mae Andrew Wilson, prif weithredwr y Sefydliad Canserau Prinnach wedi dweud bod Llywodraeth Cymru yn 'eithriadol o hunanfodlon' ar y mater hwn sy'n peri pryer. Dyna pam, ar yr ochr hon i'r Siambr, y credwn fod ar Gymru angen cronfa cyffuriau canser i sicrhau bod ein cleifion canser yn cael mynediad at y triniaethau gorau possibl, ac na ddylid atal cyllid. Roeddwn yn y cyfarfod hwnnw gwpl o flynyddoedd yn ôl pan soniodd un o gyfarwyddwyr cyllid bwrdd iechyd lleol fod 20 y cant o'r arian yn cael ei wario yn amhriadol yn y gwasanaeth iechyd gwladol yng Nghymru. Credaf fod hynny'n warthus. Yn anffodus, mae'n ymddangos bod yn well gan y weinyddiaeth hon ddosbarthu presgripsiynau am ddim i filiwnyddion yng Nghymru. Ar yr ochr hon i'r Siambr, rydym yn gwybod mai cyffuriau canser o'r radd flaenaf a ddylai fod yn flaenoriaeth, nid eli archfarchnad am ddim ar gyfer aelodau cyfoethocaf cymdeithas.

Y mae hefyd yn peri pryer dirfawr fod Llywodraeth Cymru yn cadw colli targedau amser aros ar gyfer cleifion canser. Y nod yw bod 95 y cant o gleifion dan amheuaeth brys bod canser ganddynt yn dechrau triniaeth o fewn 62 diwrnod ar ôl cael eu cyfeirio. Yn anffodus, nid yw Llywodraeth Cymru wedi cyrraedd y targed hwnnw ers mis Mehefin 2008. Er fy mod yn falch y dengys yr ystadegau diweddaraf bod Bwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan yn cyrraedd targedau, ceir perfformiad llawer mwy anghyson ar draws rhannau eraill o Gymru, gan ddangos loteri cod post o ran darparu gwasanaethau.

In Wales, we have a comparatively older population than any other UK nation, which further highlights the importance of improving front-line cancer services. Yet, sadly, between 2009 and 2010, the number of oncology staff fell by 7 per cent—oncology staff are the staff who specialise in treating tumours. Add to that the absence of key cancer drugs in Wales and you begin to see a worrying trend regarding the services being offered in Wales. Although there is a crucial need for investment, we have a Government in Wales that, despite yesterday's draft budget announcement, is still planning a massive real terms cut to our health budget. I have listened to our Minister for health say a few times today that the budget is not being cut, but I can assure you that there is not enough money for cancer treatment in this part of the world. I urge Members to support this motion today.

Yng Nghymru, mae gennym boblogaeth gymharol hŷn nag unrhyw wlad arall yn y Deyrnas Unedig, sy'n amlyu ymhellach bwysigrwydd gwella gwasanaethau canser rheng flaen. Eto i gyd, yn anffodus, rhwng 2009 a 2010, gostyngodd nifer staff oncoleg 7 y cant—staff oncoleg yw'r staff sy'n arbenigo mewn trin tiwmorau. At hynny, ychwanegwch absenoldeb cyffuriau canser allweddol yng Nghymru ac fe ddechreuwch weld tuedd sy'n peri pryder ynghylch y gwasanaethau sy'n cael eu cynnig yng Nghymru. Er bod angen dybryd am fuddsoddi, mae gennym Lywodraeth yng Nghymru sydd, er gwaethaf cyhoeddriad y gyllideb ddrafft ddoe, yn para i gynllunio torri ein cyllideb iechyd yn enfawr mewn termau real. Rwyf wedi gwrando ar ein Gweinidog iechyd yn dweud sawl gwaith heddiw nad yw'r gyllideb yn cael ei thorri, ond gallaf eich sicrhau nad oes digon o arian ar gyfer triniaeth canser yma. Anogaf Aelodau i gefnogi'r cynnig hwn heddiw.

**Kirsty Williams:** The Welsh Liberal Democrats will support the motion today. I am sure that it is not necessary for me to outline the devastation that a diagnosis of cancer brings to an individual and their loved ones. The experience of receiving that news is becoming increasingly common, affecting more and more families in Wales, and it will continue to do so. Of course, there is good news: thanks to the amazing skill and knowledge of scientists and medics in Wales and across the UK, survivorship rates are getting increasingly better all the time. Yet, Julie, despite the investment in cancer services that we have undoubtedly seen the previous Government make, our record on cancer speaks for itself. You do not need an opposition spokesperson to stand up and say that our survivorship and diagnosis rates are not as good, and our improvement rate is not as fast, as those in the rest of the UK. We need to do more. We need to redouble our efforts if we are to get anywhere close to meeting the targets that the Government has set for itself.

Can you imagine what it is like to be told on day one that you have cancer and then to wait 62 days before your treatment starts? That is

**Kirsty Williams:** Bydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn cefnogi'r cynnig heddiw. Rwy'n siŵr nad oes angen i mi amlinellu'r dinistr y mae diagnosis o ganser yn ei ddwyn i unigolyn a'u hanwyliaid. Mae'r profiad o dderbyn y newyddion yn dod yn fwyfwy cyffredin, gan effeithio ar fwy a mwy o deuluoedd yng Nghymru, a bydd yn parhau i wneud hynny. Wrth gwrs, mae newyddion da: diolch i sgiliau a gwybodaeth anhygoel gwydonwyr a meddygon yng Nghymru a ledled y Deyrnas Unedig, mae cyfraddau goroesi yn gwella'n gynyddol drwy'r amser. Eto i gyd, Julie, er gwaethaf y buddsoddiad mewn gwasanaethau canser yr ydym, heb os, wedi ei weld gan y Llywodraeth flaenorol, mae ein record ar ganser yn siarad drosto'i hun. Nid oes arnoch angen i lefarydd yr wrthblaid sefyll i fyny a dweud nad yw ein cyfraddau goroesi a diagnosis gystal, ac nad yw ein cyfradd gwella mor gyflym â chyfraddau gweddill y DU. Mae angen i ni wneud mwy. Mae angen i ni ymdrechu'n galetach os ydym i glosio o gwbl at gyrraedd y targedau y mae'r Llywodraeth wedi eu gosod ar gyfer ei hun.

A allwch chi ddychmygu sut brofiad yw cael gwybod bod gennych ganser, ac yna aros 62 diwrnod cyn i'ch triniaeth ddechrau? Mae

if you are lucky and get to meet the target. Last summer, my family was reduced to literally begging doctors to see my father as the days went on and on. That is the experience of many people across Wales. There is much more that we need to do to meet the Government's targets, to provide the holistic care that Elin Jones talked about and to ensure that up-to-date technologies and radiotherapy are delivered in Wales.

hynny os ydych yn lwcus ac yn llwyddo i gwrdd â'r targed. Yr haf diwethaf, gyrrwyd fy nheulu yn llythrennol i grefu ar feddygon i weld fy nhad wrth i'r diwrnodau fynd ymlaen ac ymlaen. Dyna brofiad llawer o bobl ledled Cymru. Mae llawer mwy sydd angen i ni ei wneud er mwyn cyrraedd targedau'r Llywodraeth, i ddarparu'r gofal cyfannol a soniodd Elin Jones yn ei gylch ac i sicrhau bod y technolegau a radiotherapi diweddaraf ar gael yng Nghymru.

The focus of today's debate is access to drugs, and that is a difficult debate, because scientific endeavour means that new treatments are constantly coming onstream and those new treatments are expensive. We cannot get away from the fact that they are incredibly expensive and that there is a finite budget from which we can deliver our health services. However, the reality is that we have a poor record in Wales of prescribing access to new treatments. While I am delighted that Elin Jones's constituents do not seem to have a problem with this, mine certainly come to my surgery to talk about being turned down for certain drugs. Perhaps it is more acute because I live on the border. Many of my constituents access cancer treatment at Hereford and they sit in a waiting room next to someone with exactly the same diagnosis, the same prognosis, and the same doctor, but the patients who live in England can get the drug and the patients who live in Powys cannot. I pay tribute to Powys Teaching Local Health Board, which is doing what it can within the constraints of the current system to address the needs of local patients; it tries very hard.

Ffocws y ddadl heddiw yw mynediad at gyffuriau, ac y mae hi'n ddadl anodd, oherwydd bod ymdrech wyddonol yn golygu bod triniaethau newydd yn cael eu darganfod yn gyson ac mae'r triniaethau newydd hynny yn ddrud. Ni allwn ddianc rhag y ffaith eu bod yn hynod o ddrud ac mai cyfyngedig yw'r gyllideb y gallwn droi ati er mewn darparu ein gwasanaethau iechyd. Fodd bynnag, y gwir amdani yw bod gennym record wael yng Nghymru o ragnodi mynediad at driniaethau newydd. Er fy mod yn falch iawn nad yw'n ymddangos bod gan etholwyr Elin Jones broblem yn hyn o beth, mae fy etholwyr i, yn sicr, yn dod i'm cymhorthfa ac yn sôn am gael eu troi i lawr ar gyfer rhai cyffuriau. Efallai ei bod yn byw ar y ffin. Mae llawer o'm hetholwyr yn cael triniaeth canser yn Henffordd ac maent yn eistedd mewn ystafell aros wrth ymwl rhywun gyda'n union yr un diagnosis, yr un prognosis, a'r un meddyg, ond mae'r cleifion sy'n byw yn Lloegr yn gallu cael y cyffuriau ond nid yw'r cleifion sy'n byw ym Mhowys. Talaf deyrnged i Fwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys, sy'n gwneud yr hyn a all o fewn cyfyngiadau'r system bresennol i fynd i'r afael ag anghenion cleifion lleol; mae'n ymdrechu'n galed iawn.

To suggest that there is no inequity is not borne out by the facts on the ground, or by independent research. The Government has tried to introduce a new mechanism that looks at exceptional prescribing for patients in Wales. What was promised to be an all-Wales scheme is now promised to be one that relies on the individual interpretation of the different health boards across Wales, so there is no all-Wales approach to this. It relies on the issue of exceptionality, and there is anecdotal evidence already that after patients

Mae awgrymu nad oes unrhyw annhegwrch yn cael ei danseilio gan y ffeithiau ar lawr gwlad, neu gan ymchwil annibynnol. Mae'r Llywodraeth wedi ceisio cyflwyno mecanwaith newydd sy'n edrych ar ragnodi eithriadol ar gyfer cleifion yng Nghymru. Mae'r hyn a addawyd i fod yn gynllun Cymru gyfan yn awr yn un a addewir i ddibynnu ar ddehongliad unigol y gwahanol fyrrdau iechyd ar draws Cymru, felly nid oes dull gweithredu Cymru gyfan ar hyn. Mae'n dibynnu ar fater eithriadoldeb, ac y mae

1, 2 and 3 have been granted the drug in exceptional circumstances, patients 4, 5 and 6 are no longer regarded as exceptional because the LHB has been treating some people. That is the anecdotal evidence that is coming back about the new system. We need to do something. To stick our heads in the sand and say that it is not a problem is to ignore reality.

tystiolaeth anecdotaid eisoes mai'r hyn sy'n digwydd ar ôl i gleifion 1, 2 a 3 dderbyn y cyffur o dan amgylchiadau eithriadol, yw na chaiff cleifion 4, 5 a 6 bellach eu hystyried yn eithriadol am fod y bwrdd iechyd lleol wedi bod yn trin rhai pobl. Dyna'r dystiolaeth anecdotaid sydd yn dod yn ei hôl am y system newydd. Mae angen i ni wneud rhywbeth. Anwybyddu realiti yw gosod ein pennau yn y tywod a dweud nad yw'n broblem.

I understand that, for political reasons, the Government does not want to be seen to be aping something that has happened in England, and the reality is that the cancer drugs fund in England has some shortcomings, but that gives us an opportunity, having learnt from that experience, to create a cancer drugs fund in Wales, for our patients and our population, that will really work. The basis of that has to be to exploit greater risk-sharing between the NHS in Wales and the drugs companies.

Rwy'n deall nad yw'r Llywodraeth yn awyddus, am resymau gwleidyddol, i gael ei gweld yn dynwared rhywbeth sydd wedi digwydd yn Lloegr, a'r gwir yw bod gan y gronfa cyffuriau canser yn Lloegr rai diffygion, ond mae hynny'n rhoi cyfle inni, ar ôl dysgu o'r profiad hwnnw, i greu cronfa cyffuriau canser yng Nghymru a fydd yn gweithio mewn gwirionedd ar gyfer ein cleifion a'n poblogaeth. Mae'n rhaid mai sail hynny fydd manteisio ar fwy o rannu risg rhwng y gwasanaeth iechyd gwladol yng Nghymru a'r cwmnïau cyffuriau.

**The Presiding Officer:** Could you wind up, please?

**Y Llywydd:** A allwch chi ddirwyn i ben, os gwelwch yn dda?

**Kirsty Williams:** I do not know to what extent that work is being done in Wales, but a system that means that patients on certain drugs are only funded by the NHS if they work—if they do not, the cost falls back on the company—is where we can make some progress on this agenda. If we do not, we will see an exodus of the best cancer doctors back across the border to work in England. Why would you want to come to work in a cancer service in Wales that is not the best, and does not have access to the newest treatments? We are in danger of going into a downward spiral if we do not find some way of addressing this complex problem.

**Kirsty Williams:** Nid wyf yn gwybod i barrayn mae'r gwaith hwnnw yn cael ei wneud yng Nghymru, ond drwy system sy'n golygu bod cleifion ar rai cyffuriau yn cael eu hariannu gan y gwasanaeth iechyd gwladol yn unig os ydynt yn gweithio—os nad ydynt yn gwneud hynny, mae'r gost yn disgyn yn ôl ar y cwmni—gallwn wneud rhywfaint o gynnydd ar yr agenda hwn. Os na wnawn hynny, byddwn yn gweld ecsodus o'r meddygon canser gorau yn ôl dros y ffin i weithio yn Lloegr. Pam fydd eisiau dod i weithio mewn gwasanaeth canser yng Nghymru nad yw gyda'r gorau, ac sydd heb fynediad at y triniaethau mwyaf newydd? Rydym mewn perygl o ddisgyn llethr ar i lawr os na ddown o hyd i ryw ffordd o fynd i'r afael â'r broblem gymhleth hon.

**The Presiding Officer:** I remind Members that five minutes are allocated for speeches.

**Y Llywydd:** Atgoffaf Aelodau mai pum munud sy'n cael eu neilltuo ar gyfer areithiau.

**Andrew R.T. Davies:** I welcome the opportunity to speak in this debate today. I congratulate my colleague Darren Millar on

**Andrew R.T. Davies:** Croesawaf y cyfle i siarad yn y ddadl hon heddiw. Rwy'n llongyfarch fy nghyd-Aelod Darren Millar

opening the debate in such a forceful manner and outlining many of the problems that people face. There are three quite succinct points in this motion today, and I would understand why the Government might be planning to reject the motion, but I would hope that, having reflected on the comments made across this Chamber, it might well choose to support it.

The first part of the motion notes that more people are being diagnosed with cancer and, in some respects, you could almost say that that is a good thing, because some people are being diagnosed earlier and will therefore be able to have treatment in a timely manner and hopefully recover. As the Member for Cardiff North outlined, cancer was historically one of those illnesses that people never talked about; it was left in the corner of the room, if you like. I can remember my father saying that he had visited someone, and they dared not say that it was cancer, as such. In today's world, we are far more open because we know that, through medical intervention at the earliest possible opportunity, there is a greater ability to cure the person who has been diagnosed with cancer.

Given that successful treatment often follows early diagnoses, we need a far stronger public health message projected into our communities. Again, I would hope that the Minister would reflect on the tools that she has available to project that message. Members in the Chamber today have touched on the experiences that they have had at the local pharmacy, and the facilities and the drop-in clinics there; they could also be used to promote the public health message. There are some health boards, regrettably, that have a rather backward-looking view of the way that pharmacies on our high streets can be used to do that, and I would hope that the Minister would outline how she will engage with community pharmacies and health boards to adopt a process by which people can drop in and have the health checks that we hope will prevent the escalation of cancer that we are seeing in our modern society.

The second part of the motion identifies the real concern that we have on this side of the

am agor y ddadl mewn ffordd mor rymus ac am amlinellu llawer o'r problemau y mae pobl yn eu hwynebu. Mae tri phwynt eithaf cryno yn y cynnig hwn heddiw, a byddwn yn deall pam y gallai'r Llywodraeth fod yn arfaethu ei wrthod, ond byddwn yn gobeithio, ar ôl myfyrio ar y sylwadau a wnaed ar draws y Siambra hon, y gallai, yn wir, ddewis ei gefnogi.

Mae rhan gyntaf y cynnig yn nodi bod mwy o bobl yn cael diagnosis o ganser ac, mewn rhai ffyrdd, galleg bron ddweud bod hynny'n beth da, gan fod rhai pobl yn cael diagnosis yn gynharach ac felly byddant yn gallu cael triniaeth amserol a gwella, gobeithio. Fel yr amlinellwyd gan yr Aelod dros Ogledd Caerdydd, yn hanesyddol, roedd canser yn un o'r afiechydion hynny nad oedd pobl byth yn siarad amdanynt; fe'i gadawyd yng nghornel yr ystafell, os mynnwch. Gallaf gofio fy nhad yn dweud ei fod wedi ymweld â rhywun, ac nid oeddent yn meiddio â dweud mai canser ydoedd, fel y cyfryw. Yn hyn o fydd, rydym yn llawer mwy agored am ein bod yn gwybod bod mwy o allu, drwy ymyrraeth feddygol ar y cyfle cyntaf posibl, i wella person sydd wedi cael diagnosis o ganser.

O ystyried bod triniaeth lwyddiannus yn aml yn dilyn diagnosis cynnar, mae arnom angen cyfleo neges iechyd y cyhoedd llawer cryfach yn ein cymunedau. Unwaith eto, byddwn yn gobeithio y byddai'r Gweinidog yn myfyrio ar yr offer sydd ganddi er mwyn cyfleo'r neges honno. Mae Aelodau yn y Siambra heddiw wedi cyffwrdd ar eu profiadau yn y fferyllfa leol, a'r cyfleusterau a'r clinigau galw heibio yno; gellir hefyd eu defnyddio i hyrwyddo neges iechyd y cyhoedd. Mae rhai byrddau iechyd, yn anffodus, sydd â barn braidd ar ei hôl hi am y ffordd y gellir defnyddio fferyllfeydd ar y stryd fawr i wneud hynny, a byddwn yn gobeithio y byddai'r Gweinidog yn amlinellu sut y bydd hi'n ymgysylltu â fferyllfeydd cymunedol a byrddau iechyd i fabwysiadu proses lle mae pobl yn gallu galw heibio a chael yr archwiliadau iechyd yr ydym yn gobeithio y byddant yn atal y cynnydd mewn canser a welwn yn ein cymdeithas fodern.

Mae ail ran y cynnig yn nodi ein pryder gwirioneddol ar yr ochr hon i'r Siambra am y

Chamber about increased waiting times. Other Members have alluded to the concern and alarm for the individual who has had the diagnosis of cancer, but also the family that is helping that individual get through the problems that they face.

4.00 p.m.

I remember, at the age of 15, when my mother had her diagnosis, not knowing what cancer was, not understanding its consequences and the real impact of trying to have timely help and assistance. I am talking about a period of nearly 30 years ago now; we have made massive improvements and taken massive steps forward since then in what we can do, which we, as a country, should celebrate.

However, if you look at the intervention times and the wait times, you will see that many health boards are, regrettably, missing those Government targets by some considerable distance and over a considerable period of time. Therefore, it is not just a blip that they are missing on a quarterly or six-monthly basis, as my colleague Darren Millar highlighted when he said that that the targets have not been met for two and a half to three years. That builds on what we all know about the need for medical intervention as quickly as possible after the diagnosis. I hope that the Minister, in her reply, will outline what support she is offering the health boards to try to meet these targets and what sort of action she is taking to engage with the health boards.

The key part of this debate is on the issue of the cancer drugs fund. Many Members have highlighted their reservations, but it cannot be right that people can sit in a hospital room in Hereford, for example, as the Member for Brecon and Radnorshire identified, and not access a drug because they live on the other side of Offa's Dyke. As part of my work in my region, I have dealt with numerous constituents over the summer months—I am unsure whether that is due to an increase in the problem or due to greater awareness—who have come to me because they have been unable to access the exceptional funding arrangements that should be up and running

cynnydd mewn amseroedd aros. Mae Aelodau eraill wedi cyfeirio at y pryder a'r ofn ar gyfer yr unigolyn sydd wedi cael y diagnosis o ganser, ond hefyd y teulu sy'n helpu'r unigolyn hwnnw i oroesi'r problemau a wynebir.

Cofiaf fod yn 15 mlwydd oed, pan gafodd fy mam ei diagnosis, heb wybod beth oedd canser, heb ddeall ei ganlyniadau ac effaith go iawn ceisio cael help a chymorth amserol. Yr wyf yn sôn am gyfnod o bron i 30 mlynedd yn ôl bellach; rydym wedi gwneud gwelliannau enfawr ac wedi cymryd camau mawr ymlaen ers hynny o ran beth y gallwn ei wneud, ac fel gwlad, dylem ddathlu hynny.

Fodd bynnag, os edrychwr ar yr amseroedd ymyrraeth a'r amseroedd aros, byddwch yn gweld bod llawer o fyrrdau iechyd, yn anffodus, yn colli'r targedau Llywodraeth hynny o gryn bellter a thros gyfnod sylweddol o amser. Felly, nid rhywbeth dros dro ydyw y maent yn ei golli yn chwarterol neu'n chwe-misol, fel yr amlygodd fy nghyd-Aelod, Darren Millar, pan ddywedodd nad yw'r targedau wedi'u cyrraedd ers dwy a hanner i dair blynedd. Mae hynny'n adeiladu ar yr hyn yr ydym oll yn ei wybod am yr angen am ymyrraeth feddygol cyn gynted â phosibl ar ôl y diagnosis. Gobeithiaf y bydd y Gweinidog, yn ei hateb, yn amlinellu'r gefnogaeth y mae'n ei chynnig i fyrrdau iechyd i geisio cyrraedd y targedau hyn a'r math o gamau y mae'n eu cymryd i ymgysylltu â byrddau iechyd.

Mae rhan allweddol y ddadl hon yn ymwneud â mater y gronfa cyffuriau canser. Mae sawl Aelod wedi amlygu eu hamheuon, ond ni all fod yn iawn fod pobl yn gallu eistedd mewn ystafell ysbty yn Henffordd, er enghraift, fel y nodwyd gan yr Aelod dros Frycheiniog a Sir Faesyfed, heb gael mynediad at gyffuriau oherwydd eu bod yn byw y tu draw i Glawdd Offa. Fel rhan o'm gwaith yn fy rhanbarth i, yr wyf wedi ymdrin â nifer o etholwyr dros fisioedd yr haf—nid wyf yn siŵr a ydyw hynny o ganlyniad i gynnnydd yn y broblem neu oherwydd mwy o ymwybyddiaeth—sydd wedi dod i mi gan nad ydynt wedi gallu cael gafael ar y

in all our LHBs. I would welcome it if the Minister, in her remarks, would outline what national guidance she has given to LHBs, because her predecessor said that this guidance would be in place in October of last year. I am unaware that that national guidance has fallen on the doormats of our LHBs so that there is consistency. The crux of this debate is making medicine available to people at their most vulnerable times. It can be done, and we must, as legislators, insist that it is done, which is why this motion is before Plenary today. I very much hope that, on reflection, the Government supports this motion today.

trefniadau ariannu eithriadol y dylid fod wedi'u sefydlu ym mhob un o'n holl fyrrdaau iechyd lleol. Byddwn yn ei groesawu pe byddai'r Gweinidog, yn ei sylwadau, yn amlinellu pa ganllawiau cenedlaethol a roddwyd i fyrrdaau iechyd lleol, oherwydd dywedodd ei rhagflaenydd y byddai'r canllawiau hyn ar waith ym mis Hydref y llynedd. Nid wyf yn ymwybodol bod y canllawiau cenedlaethol wedi disgyn ar fatiau ein byrddau iechyd lleol er mwyn sicrhau cysondeb. Craidd y ddadl hon yw darparu bod meddygaeth ar gael i bobl ar yr adegau pan y maent fwyaf agored i niwed. Gellir ei wneud, a rhaid inni, fel deddfwyr, fynnu y gwneir hynny, a dyna pam y mae'r cynnig hwn gerbron y Cyfarfod Llawn heddiw. Gobeithiaf yn fawr iawn, ar ôl ystyried, y bydd y Llywodraeth yn cefnogi'r cynnig hwn heddiw.

**Lynne Neagle:** Whatever the political argument, it is right that we are debating access to cancer drugs today. It forces us to tackle difficult questions head-on and we urgently need to have this conversation. Whatever the wider arguments about funding levels, we need a system that is fair, transparent and consistent, and which does not cause undue stress and pain to patients and their families.

I have been closely involved with a number of constituents going through the individual patient funding request process, which, as I am sure that other Members will recognise, is inherently an incredibly distressing thing for them to have to deal with. I am sorry to say that I have dealt with a number of cases over the past year where funding requests have been handled badly, causing added and unnecessary worry to patients at the worst possible time. It has often been basic things, such as not explaining why a patient was refused, but, more seriously, there has, at times, been a fundamental failure of communication at different levels, with patients left in the dark and consultants unclear about the kind of evidence that they need to provide in support of requests.

Yes, there have been some improvements recently, and I was pleased to meet with my LHB to discuss some of the changes that it has put in place. However, we are still not

**Lynne Neagle:** Beth bynnag yw'r ddadl wleidyddol, mae'n iawn ein bod yn trafod mynediad at gyffuriau cancer heddiw. Mae'n ein gorfodi i fynd i'r afael â chwestiynau anodd o ddifrif, ac mae angen i ni gael y sgwrs hon ar fyrder. Beth bynnag fo'r dadleuon ehangach am lefel y cyllid, mae arnom angen system sy'n deg, yn dryloyw ac yn gyson, nad yw'n achosi straen diangen a phoen i gleifion a'u teuluoedd.

Rwyf wedi cydweithio'n agos â nifer o etholwyr sy'n mynd drwy'r broses ymgeisio am arian ar gyfer cleifion unigol, sydd, fel y gwnaiff Aelodau eraill ei gydnabod, mae'n siŵr, yn beth hynod o ofidus iddynt orfod ymdrin ag ef. Mae'n ddrwg gennyf ddweud fy mod wedi ymdrin â nifer o achosion dros y flwyddyn ddiwethaf lle mae ceisiadau cyllido wedi'u trin yn wael, sy'n achosi mwy o bryder diangen i gleifion ar yr adeg waethaf posibl. Yn aml, y mae wedi bod yn rhywbeth sylfaenol, megis egluro pam y gwrthodwyd claf, ond, yn fwy difrifol, ar adegau, bu methiant sylfaenol cyfathrebu ar lefelau gwahanol, gyda chleifion yn cael eu gadael ar ôl yn y tywyllwch ac ymgynghorwyr yn aneglur ynghylch y math o dystiolaeth y mae angen iddynt ei darparu i gefnogi ceisiadau.

Do, bu rhai gwelliannau yn ddiweddar, ac yr oeddwn yn falch i gyfarfod â'm bwrdd iechyd lleol i drafod rhai o'r newidiadau y mae wedi'u rhoi ar waith. Fodd bynnag, nid

getting it right for people, such as the constituent I met on Friday who I have been trying to assist in getting access to Cetuximab, but who has sadly had his initial funding request refused. On one hand, I am incredibly sad, because there is a drug out there that could help him that he cannot access. However, on the other hand, I am frustrated that, despite the clear guidance that exists on this process, he received a letter from the LHB refusing the funding but failing to give a deadline for appeal. I have wider concerns about the application of the test of exceptionality by health boards. I know that his clinician did her utmost to make the best possible case for him, but the fact is that he is not recognised as exceptional, despite being within the 50 per cent of bowel cancer patients whose tumours could potentially respond to Cetuximab.

ydym yn ei gael yn iawn i bobl o hyd, megis yr etholwr y cyfarfum ag ef ddydd Gwener, yr wyf wedi bod yn ceisio ei gynorthwyo i gael mynediad at Cetuximab, ond, yn anffodus, gwrthodwyd ei gais cychwynnol am arian. Ar un llaw, yr wyf yn hynod o drist gan fod yna gyffur a allai ei helpu ond nad yw'n gallu cael mynediad iddo. Fodd bynnag, ar y llaw arall, teimlaf yn rhwystredig, er gwaethaf y canllawiau clir sy'n bodoli ar y broses hon, ei fod wedi derbyn llythyr gan y bwrdd iechyd lleol yn gwrthod rhoi'r arian, nad oedd yn rhoi terfyn amser ar gyfer apelio. Mae gennyf bryderon ehangach ynglyn â'r byrddau iechyd yn rhoi'r prawf eithriadoldeb ar waith. Gwn fod ei glinigydd wedi gwneud ei gorau glas i wneud yr achos gorau posibl iddo, ond y ffaith yw na chydubyddir ef fel achos eithriadol, er ei fod ymhlied y 50 y cant o gleifion sydd â chanser y coluddyn, ac â thiwmorau a allai, o bosib, ymateb i Cetuximab.

This contrasts with another case that I dealt with, where exceptionality criteria were considered to have been met because of an initial misdiagnosis by the health board. As pleased as I was that the health board reversed its decision and allowed the drug treatment for my constituent, this raises questions about whether exceptionality criteria are always being consistently applied, and whether clinical factors are always paramount when making these decisions. Although I welcome the fact that we now have an all-Wales policy for dealing with these applications, I have concerns about the lack of openness in the system in Wales. Whatever the arguments over the need for a drugs fund, we should not be falling behind on transparency. Each strategic health authority in England publishes the number of applications for exceptional treatment for each drug, along with information on the number of refusals and the cost of treatment to the NHS. As a small country with a lower population than many of these health authority areas, we should also be collating and publishing the funding request statistics at both a health board and national level. When I have tabled written questions on drug applications in the past, the answer has come back that this information is not held centrally; I have found that very frustrating. How can we possibly monitor the success of

Mae hyn yn cyferbynnu ag achos arall y bûm yn ymdrin ag ef, lle ystyriwyd bod y mein prawf o ran eithriadoldeb wedi'u bodloni oherwydd camddiagnosis cychwynnol gan y bwrdd iechyd. Mor falch ag yr oeddwn i fod y bwrdd iechyd wedi gwrthdroi ei benderfyniad a chaniatâu'r driniaeth cyffuriau ar gyfer fy etholwr, mae hyn yn codi cwestiynau ynghylch a ydyw'r mein prawf o ran eithriadoldeb bob amser yn cael eu rhoi ar waith yn gyson, ac a ydyw ffactorau clinigol bob amser o'r pwys mwyaf wrth wneud y penderfyniadau hyn. Er y croesawaf y ffaith bod gennym bellach bolisi Cymru gyfan ar gyfer ymdrin â'r ceisiadau hyn, mae gennyf bryderon am y diffyg bod yn agored yn y system yng Nghymru. Beth bynnag fo'r dadleuon dros yr angen am gronfa cyffuriau, ni ddylem fod ar ei hôl hi o ran tryloywder. Mae pob awdurdod iechyd strategol yn Lloegr yn cyhoeddi'r nifer o geisiadau ar gyfer triniaeth eithriadol ar gyfer pob cyffur, ynghyd â gwybodaeth am nifer y gwrthodiadau a chost y driniaeth i'r gwasanaeth iechyd gwladol. Fel gwlad fach sydd â phoblogaeth is na llawer o'r ardaloedd awdurdod iechyd hyn, dylem hefyd fod yn casglu a chyhoeddi ystadegau ceisiadau cyllido ar lefel bwrdd iechyd ac ar lefel genedlaethol. Pan wyf i wedi cyflwyno cwestiynau ysgrifenedig ar geisiadau cyffuriau yn y gorffennol, mae'r ateb wedi

a policy without having all of the facts and figures at our fingertips? Similar moves in Scotland have received support from across the political divide, including from colleagues in my party. I am keen to hear the Minister's views on taking this issue forward in Wales.

dod yn ôl na chedwir y wybodaeth hon yn ganolog; yr wyf wedi ffeindio hyn yn rhwystredig iawn. Sut y gallwn o bosibl fonitro llwyddiant y polisi heb gael yr holl ffeithiau a'r ffigurau ar ein bysedd? Mae symudiadau tebyg yn yr Alban wedi derbyn cymorth ar draws y rhaniad gwleidyddol, gan gynnwys cydweithwyr yn fy mhlaid. Yr wyf yn awyddus i glywed barn y Gweinidog am fynd â'r mater hwn yn ei flaen yng Nghymru.

I recognise that there is a wider question here. It has been my natural instinct, as with all of us, to try to help every constituent who has approached me for assistance; that is human nature. I will always do my best for people who come to me for support. However, difficult as I sometimes find it, I also understand that there are wider limits on what the NHS can pay for. Every day, tough decisions are made on whether treatments are affordable. Innovative, but expensive, new treatments are available for a range of illnesses, not just cancer. What this debate shows more than anything is that, contrary to the rhetoric of the Conservative Party today, there are no easy answers. The development of these drugs represents a huge challenge for health services across the UK and beyond. However, we should not forget that it is also an opportunity. These drugs can offer hope to people who would otherwise have none; all politics aside, we would do well to remember that.

Rwy'n cydnabod bod cwestiwn ehangach yma. Fy ngreddf naturiol i, fel gyda phob un ohonom, yw ceisio helpu pob etholwr sydd wedi cysylltu â mi am gymorth; natur ddynol yw hynny. Byddaf bob amser yn gwneud fy ngorau i bobl sy'n dod ataf am gymorth. Fodd bynnag, er ei bod yn anodd weithiau, rwyf hefyd yn deall bod terfynau ehangach ar beth y gall y gwasanaeth iechyd gwladol dalu amdano. Bob dydd gwneir penderfyniadau anodd ynglŷn ag a yw triniaethau yn fforddiadwy. Mae triniaethau newydd arloesol ond drud ar gael ar gyfer amrywiaeth o afiechyd, nid dim ond canser. Yr hyn y mae'r ddadl hon yn ei ddangos, yn fwy na dim, yw, yn groes i rethreg y Blaid Geidwadol heddiw, nid oes atebion hawdd. Mae datblygiad y cyffuriau hyn yn her enfawr ar gyfer gwasanaethau iechyd ar draws y Deyrnas Unedig a thu hwnt. Fodd bynnag, ni ddylem anghofio ei fod hefyd yn gyfle. Gall y cyffuriau hyn gynnig gobaith i bobl a fyddai fel arall yn cael dim; i roi gwleidyddiaeth o'r neilltu, gwnelem yn dda i gofio hynny.

**The Minister for Health and Social Services (Lesley Griffiths):** I thank Members for their contributions to this important debate. Improving cancer prevention and the care and treatment of cancer patients remains a top priority for the Welsh Government. In opening the debate, Darren Millar mentioned the recent report on cancer incidence, mortality, prevalence and survival in Wales, which shows that more people are being diagnosed with cancer. However, the motion does not convey that the latest cancer statistics confirm that, while there is an increase in cancer incidence, there is a decrease in cancer morbidity. The increase in cancer cases is due in part to an ageing population and to an increase in the overall population. We must not forget,

**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Lesley Griffiths):** Diolchaf i'r Aelodau am eu cyfraniadau at y ddadl bwysig. Mae gwella atal canser a gofal a thriniaeth cleifion canser yn parhau'n flaenoriaeth uchel i Lywodraeth Cymru. Wrth agor y ddadl, soniodd Darren Millar am yr adroddiad diweddar ar achosion o ganser, nifer y marwolaethau, pa mor gyffredin yw canser, a goroesi yng Nghymru, sy'n dangos bod mwy o bobl yn cael diagnosis o ganser. Fodd bynnag, nid yw'r cynnig yn cyfleo bod yr ystadegau canser diweddaraf yn cadarnhau, er y ceir cynnydd mewn achosion o ganser, bod gostyngiad mewn afiachusrwydd canser. Mae'r cynnydd mewn achosion o ganser yn rhannol o ganlyniad i boblogaeth sy'n heneiddio a chynnydd yn y

either, that we have an excellent screening programme in Wales for breast, cervical and bowel cancer, ensuring that many cancers are being caught earlier. This, together with improved treatment, means that more people are surviving cancer and living longer. This is a success for which NHS Wales should be congratulated.

boblogaeth yn gyffredinol. Rhaid inni beidio ag anghofio, ychwaith, fod gennym raglen sgrinio rhagorol am ganser y fron, ceg y groth a chanser y coluddyn yng Nghymru, sy'n sicrhau bod nifer o ganserau yn cael eu dal yn gynharach. Mae hyn, ynghyd â gwell triniaeth, yn golygu bod mwy o bobl yn goroesi canser ac yn byw yn hirach. Dyma lwyddiant y dylid llonyfarch GIG Cymru amdano.

Turning to cancer waiting times, which play a significant part in the overall outcomes for patients, much work has been done to improve waits for cancer treatment. The majority of patients start treatment within the 31-day and 62-day target times. There are various factors that impact on overall waiting times, including a large majority of treatments being complex. Very often, numbers are small, so just one or two patients can affect the reported percentage greatly and make a difference to compliance with the target. However, I accept that the target is for all cancer patients to be seen and treated within the designated target times. The Welsh Government is working closely with the NHS to ensure that performance improves and that issues are addressed. Last week, I met LHB chairs individually to impress upon them that I require them to meet this target.

Gan droi at amseroedd aros canser, sy'n chwarae rhan sylweddol yn y canlyniadau cyffredinol ar gyfer cleifion, mae llawer o waith wedi'i wneud i wella amseroedd aros ar gyfer triniaeth canser. Mae mwyafrif y cleifion yn dechrau triniaeth o fewn yr amseroedd targed 31 diwrnod a 62 diwrnod. Mae yna ffactorau amrywiol sy'n effeithio ar amseroedd aros yn gyffredinol, gan gynnwys y ffaith bod mwyafrif mawr o'r triniaethau yn gymhleth. Yn aml iawn, mae'r niferoedd yn fach, felly dim ond un neu ddau o gleifion a all effeithio ar y canran yn fawr a gwneud gwahaniaeth i'r cydymffurfio â'r targed. Fodd bynnag, derbyniaf fod y targed ar gyfer gweld a thrin pob claf canser o fewn yr amseroedd targed dynodedig. Mae Llywodraeth Cymru yn cydweithio'n agos â'r gwasanaeth iechyd gwladol i sicrhau bod perfformiad yn gwell a bod materion yn cael sylw. Yr wythnos diwethaf, cyfarfum â chadeiryddion byrddau iechyd lleol yn unigol i bwysu arnynt fod arnaf angen iddynt gyrraedd y targed hwn.

**Darren Millar:** I am grateful that you met with LHB chairs to stress the importance of meeting the targets. However, what sanctions are you going to impose on those local health boards that do not meet the targets, particularly given that the target has been missed for the past three years by every LHB in Wales?

**Darren Millar:** Yr wyf yn ddiolchgar eich bod wedi cyfarfod â chadeiryddion byrddau iechyd leol i bwysleisio pwysigrwydd cyrraedd y targedau. Fodd bynnag, pa sancsiynau ydych chi'n mynd i'w gosod ar fyrrdau iechyd lleol nad ydynt yn bodloni'r targedau, yn enwedig pan ystyriwch fod y targed wedi'i golli am y tair blynedd diwethaf gan bob bwrdd iechyd lleol yng Nghymru?

**Lesley Griffiths:** I am currently considering that matter.

**Lesley Griffiths:** Rwyf yn ystyried y mater hwnnw ar hyn o bryd.

Time to first out-patient appointment and time to diagnostics are recurrent themes, where more work is being taken forward to ensure that performance returns to the specified target levels. Officials are keeping

Mae'r amser hyd at yr apwyntiad cyntaf fel claf allanol a'r amser hyd at ddiagnosteg yn themâu cyson, lle caiff mwy o waith ei gymryd ymlaen i sicrhau bod perfformiad yn dychwelyd i'r lefelau targed penodedig. Mae

me updated on progress.

Work is well under way to develop a national cancer delivery plan for the period 2011-12 to 2015-16, to guide and direct NHS activity. The plan will build on the requirements of our current policy, ‘Designed to Tackle Cancer in Wales’, and continue the themes of more prevention, early detection, improved access and better services. The focus is very much on delivery and is being informed by a cancer policy published by Macmillan Cancer Care in March 2011. A final draft will be issued for a formal three-month consultation before Christmas, so I am happy to support Plaid Cymru’s amendment.

swyddogion yn fy niweddar ar gynnydd.

Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu cynllun cyflawni canser cenedlaethol ar gyfer y cyfnod 2011-12 a 2015-16, i arwain gweithgarwch gan y gwasanaeth iechyd gwladol. Bydd y cynllun yn adeiladu ar ofynion ein polisi cyfredol, ‘Cynllun i Fynd i’r Afael â Chanser yng Nghymru’, a pharhau’r themâu o fwy o atal, canfod yn gynnari, gwell mynediad a gwell gwasanaethau. Mae’r ffocws yn fawr iawn ar gyflawni ac yn cael eu llywio gan bolisi canser a gyhoeddwyd gan Gofal Cancer Macmillan ym mis Mawrth 2011. Cyhoeddir drafft terfynol ar gyfer ymgynghoriad ffurfiol dri mis cyn y Nadolig, felly yr wyf yn hapus i gefnogi gwelliant Plaid Cymru.

Turning to the issue of a cancer drugs fund for Wales, which continues to raise its head, I will now clarify my position on this once and for all, as I am concerned that patients are being unnecessarily alarmed by what is being said. When an individual’s condition worsens, it is, of course, easy to understand why many people might feel any scientific advance or possible avenue of treatment should be considered in their case. Sadly, however, many new drugs do not have as many beneficial effects as is often claimed in respect of prolonging life. In addition, very importantly, many patients will suffer unpleasant side effects due to the highly toxic nature of the drugs. These points must be considered as part of the honest discussions doctors have with individual patients about their condition and prognosis.

Gan droi at y mater o gronfa cyffuriau canser ar gyfer Cymru, sy’n dal i godi ei ben, byddaf yn awr yn egluro fy safbwyt ar hyn unwaith ac am byth, gan fy mod yn bryderus bod cleifion yn cael eu dychryn yn ddiangen gan yr hyn sy’n cael ei ddweud. Pan mae cyflwr unigolyn yn gwaethyg, mae’n hawdd deall, wrth gwrs, pam y gall llawer o bobl deimlo y dyliai unrhyw ddatblygiad gwyddonol neu lwybr possibl o ran triniaeth gael ei ystyried yn eu hachos hwy. Yn anffodus, fodd bynnag, nid oes cymaint o effeithiau buddiol i lawer o’r cyffuriau newydd ag yr honnir, yn aml, mewn perthynas â hwyhau bywyd. Yn ogystal, yn bwysig iawn, bydd llawer o gleifion yn dioddef sgil-effeithiau annymunol oherwydd natur hynod wenwynig y cyffuriau. Rhaid ystyried y pwyntiau hyn fel rhan o’r trafodaethau gonest y mae meddygon yn eu cael â chleifion unigol am eu cyflwr a’u prognosis.

**Kirsty Williams:** I absolutely agree with you. I have a constituent who I suspect will not survive even until Christmas who has made the decision not to go on with treatment because of that balance; it is about the quality of life issues for his remaining time. However, that is surely a decision for patients and doctors to make on the basis of information. They should not have that choice taken away from them because bureaucrats somewhere say, ‘You can’t have the drug’. That decision is for a clinician and a patient, not for NHS bureaucracy to decide.

**Kirsty Williams:** Cytunaf yn llwyr â chi. Mae gennyl etholwr yr wyf yn amau y bydd yn goroesi hyd yn oed tan y Nadolig, sydd wedi gwneud y penderfyniad i beidio â barhau â’i driniaeth oherwydd y cydbwysedd hwnnw; mae’n ymwneud â materion ansawdd bywyd ar gyfer yr amser sydd ganddo yn weddill. Fodd bynnag, onid yw hynny’n benderfyniad ar gyfer cleifion a meddygon i’w gwneud ar sail gwybodaeth? Ni ddylent gael y dewis hwnnw wedi’i gymryd oddi arnynt gan fod biwrocratiaid rhywle yn dweud, ‘Ni allwch gael y cyffuriau’. Penderfyniad ar gyfer clinigwr a’r

claf yw hwnnw, nid un ar gyfer biwrocratiaeth y gwasanaeth iechyd gwladol.

**Lesley Griffiths:** I absolutely agree. In Wales, all patients should receive a comprehensive package of the best, effective NHS treatment and care at all times to meet their clinical needs. That is a decision for the clinicians. More than 43 per cent of the Welsh Government's total budget is allocated to health, and the cost-effectiveness of medicines continues to be a real issue, particularly in view of the huge cut in our budget from your Government in London.

**Lesley Griffiths:** Cytunaf yn llwyr. Yng Nghymru, dylai pob claf gael pecyn cynhwysfawr o'r driniaeth a'r gofal gorau ac effeithiol gan y gwasanaeth iechyd gwladol bob amser i ddiwallu eu hanghenion clinigol. Penderfyniad ar gyfer y clinigwyr yw hwnnw. Mae mwy na 43 y cant o gyfanswm cyllideb Llywodraeth Cymru yn cael ei ddyrrannu i iechyd, ac y mae cost-effeithiolrwydd meddyginaethau yn parhau i fod yn broblem wirioneddol, yn enwedig o ystyried y toriadau enfawr yn ein cyllideb gan eich Llywodraeth yn Llundain.

**Darren Millar:** Will you take an intervention?

**Darren Millar:** A gymerwch chi ymyriad?

**Lesley Griffiths:** No, I am not taking any more interventions. [*Interruption.*]

**Lesley Griffiths:** Na, nid wyf yn derbyn rhagor o ymyriadau. [*Torri ar draws.*]

**The Presiding Officer:** Order. She is not taking any more interventions.

**Y Llywydd:** Trefn. Nid yw hi'n cymryd rhagor o ymyriadau.

**Lesley Griffiths:** What you do not hear from the Conservatives, in their rush to promote a cancer drugs fund, is that we already spend approximately £5 more per head of population than England on cancer treatment, as well as increasing funding for high-quality palliative and end-of-life care, as the quality of patients' lives is so important. Elin Jones alluded to this. You never hear from the Conservatives either that, in fact, clinicians in England are now openly criticising the viability of the fund. So, it has nothing to do with not aping something that is being done in England. Sadly, once again, we see Darren Millar and Mohammad Asghar demonstrating that they just do not understand social justice or equality, by requesting that we ditch free prescriptions. Free prescriptions will not be ditched on my watch.

**Lesley Griffiths:** Yr hyn nad ydych chi'n ei glywed gan y Ceidwadwyr, yn eu rhuthr i hyrwyddo cronfa cyffuriau canser, yw ein bod eisoes yn gwario tua £5 yn fwy y pen o'r boblogaeth nag y mae Lloegr yn ei wario ar driniaeth canser, yn ogystal â chynyddu'r cyllid ar gyfer gofal lliniarol a gofal diwedd oes o ansawdd uchel, gan fod ansawdd bywyd cleifion mor bwysig. Cyfeiriodd Elin Jones at hyn. Nid ydych byth yn clywed gan y Ceidwadwyr ychwaith, mewn gwirionedd, am y ffaith bod clinigwyr yn Lloegr bellach yn beirniadu'n agored hyfywedd y gronfa. Felly, nid oes ganddo unrhyw beth i'w wneud â phheidio â dynwared rhywbeth sy'n cael ei wneud yn Lloegr. Yn anffodus, unwaith eto, rydym yn gweld Darren Millar a Mohammad Asghar yn dangos nad ydynt yn deall cyflawnder cymdeithasol na chydraddoldeb, gan ofyn inni gefnu ar bresgripsiynau am ddim. Ni chaiff presgripsiynau am ddim eu cefnu o dan fy ngofal i.

While this debate was going on, I received an e-mail from one of Vaughan Gething's constituents. She said that I could quote her, although I am not going to name her. She said that, if it was not for free prescriptions, her husband probably would not be alive. It is

Tra'r oedd y ddadl hon yn digwydd, cefais e-bost gan un o etholwyr Vaughan Gething. Dywedodd y gallwn ei dyfynnu hi, er nad wyf yn bwriadu ei henwi. Dywedodd, oni bai am bresgripsiynau am ddim, mae'n debygol na fyddai ei gŵr yn fyw. Negeseuon e-bost

e-mails like that that confirm for me that it is absolutely the right policy.

Any decisions made when treating cancer must be based on the clinical evidence available in terms of the effectiveness of drugs and treatments that the NHS provides. I believe that we have the right arrangements in place when it comes to accessing these drugs and treatments. As has been mentioned by several Members, all new medicines assessed to be clinically effective and cost-effective by NICE or the all-Wales medicines strategy group are already provided on the NHS. We have also provided additional funding for the all-Wales medicines strategy group to appraise more new medicines for use before NICE considers them. Therefore, many good drugs will routinely be available in Wales ahead of England. However, patients may still apply to receive a particular treatment that is not recommended for use on the NHS, if they and their clinician feel that they might benefit from it.

One of our manifesto commitments was to ensure that every person diagnosed with cancer had their own care plan—something that Mark Isherwood mentioned. This will include clear milestones for rapid diagnosis, treatment and rehabilitation. There is now a new robust all-Wales policy in place for making decisions in individual cases. This will ensure that decision making is consistent in all parts of Wales. I do not want to see variation. I hope that this debate has clarified the Government's policy position on tackling cancer and reaffirmed our commitment to ensuring that cancer patients receive the best and most appropriate treatment and care, comparable with the best in Europe, by 2015.

4.15 p.m.

**William Graham:** In the limited time available to me, I will try to comment on some of the excellent contributions this afternoon without too much repetition, hesitation or deviation. I will do so in reverse

o'r fath sy'n cadarnhau i mi mai hwnnw yw'r polisi hollol iawn.

Rhaid i unrhyw benderfyniadau a wnaed wrth drin canser fod yn seiliedig ar y dystiolaeth glinigol sydd ar gael o ran effeithiolrwydd cyffuriau a thriniaethau y mae'r gwasanaeth iechyd gwladol yn eu darparu. Credaf fod gennym y trefniadau cywir ar waith pan ddaw at gael gafaol ar y cyffuriau a'r triniaethau hyn. Fel y nodwyd gan sawl Aelod, mae'r holl feddyginaethau newydd a asesir o fod yn effeithiol a chost-effeithiol gan NICE neu'r grŵp strategaeth meddyginaethau Cymru gyfan eisoes yn cael eu darparu gan y gwasanaeth iechyd gwladol. Rydym hefyd wedi darparu cyllid ychwanegol ar gyfer y grŵp strategaeth meddyginaethau Cymru gyfan i arfarnu mwy o feddyginaethau newydd i'w defnyddio cyn iddynt gael eu hystyried gan NICE. Felly, bydd llawer o gyffuriau da ar gael fel mater o drefn yng Nghymru o flaen Lloegr. Fodd bynnag, gall cleifion barhau i wneud cais i dderbyn triniaeth benodol nas argymhellir i'w defnyddio o dan y gwasanaeth iechyd gwladol, os ydynt hwy a'u clinigydd yn teimlo y gallent elwa ohono.

Un o'n hymrwymiadau yn ein maniffesto oedd sicrhau bod gan bob person sy'n cael diagnosis o ganser ei gynllun gofal ei hunan—rhywbeth y soniodd Mark Isherwood amdano. Bydd hyn yn cynnwys cerrig milltir clir ar gyfer diagnosis, triniaeth ac adsefydlu di-oed. Bellach, mae polisi cadarn newydd ar gyfer Cymru gyfan ar waith er mwyn gwneud penderfyniadau mewn achosion unigol. Bydd hyn yn sicrhau y gwneir penderfyniadau yn gyson yng Nghymru benbaladr. Nid wyf am weld amrywiad. Yr wyf yn gobeithio bod y ddadl hon wedi egluro safbwyt polisi'r Llywodraeth ar fynd i'r afael â chanser ac wedi ailddatgan ein hymrwymiad i sicrhau bod cleifion canser yn cael y driniaeth a'r gofal gorau a mwyaf priodol, sy'n cymharu â'r gorau yn Ewrop, erbyn 2015.

**William Graham:** Yn yr amser prin sydd gennyf, byddaf yn ceisio gwneud sylwadau ar rai o'r cyfraniadau rhagorol a wnaed y prynhawn yma heb ormod o ailadrodd, oedi neu wyro. Byddaf yn gwneud hynny drwy

order by commenting first on the Minister's remarks. She is absolutely correct; there has been a decrease in morbidity in Wales, which is obviously to be welcomed. The screening processes that have been put in place by the Welsh Government over the last few years are successful, but they have only been implemented as a result of the comments of your opposition. Time and again we asked for these programmes and now you are providing them. It is the same with a cancer drugs fund. You illustrated quite correctly that the factors surrounding diagnosis—and treatment for that matter—are complex and you have readily accepted that targets should be achieved. We look forward to an oral statement from you in due course, when you decide what sort of sanctions will be imposed upon those health authorities that do not comply with your existing direction.

fynd am yn ôl, a thrafod sylwadau'r Gweinidog yn gyntaf. Mae hi'n holol gywir; bu gostyngiad mewn afiachusrwydd yng Nghymru, ac, wrth gwrs, dylem groesawu hynny. Mae'r prosesau sgrinio sydd wedi cael eu sefydlu gan Lywodraeth Cymru yn ystod y blynnyddoedd diwethaf yn llwyddiannus, ond cawsant eu rhoi ar waith yn unig o ganlyniad i sylwadau eich gwrthwynebwyr. Dro ar ôl tro, buom yn gofyn am y rhagleni hyn ac yn awr yr ydych yn eu darparu. Yr un yw'r gân gyda'r gronfa cyffuriau canser. Eglurwyd yn eithaf cywir gennych fod y ffactorau o gwmpas diagnosis—a thriniaeth o ran hynny—yn gymhleth ac yr ydych wedi derbyn yn barod y dylai targedau gael eu cyflawni. Yr ydym yn edrych ymlaen at ddatganiad llafar gennych chi, maes o law, pan fyddwch yn penderfynu pa fath o sancsiynau a gaiff eu gosod ar yr awdurdodau iechyd hynny nad ydynt yn cydymffurfio â'ch cyfarwyddyd presennol.

In terms of new drugs, they might not always live up to the claims, but they must be available for those people who are likely to benefit from them and have their lives prolonged. You did not answer Lynne Neagle's question, and I note that an estimated 31 patients in Wales receive exceptional funding for cancer drugs in a year. Clearly, England has a much larger population, but the figure there is 2,762. The rate in Wales is 10.43 approved requests per 1 million of population, compared with a rate of 53.31 in England. This also demonstrates the remarks made by Sir Paul Davies that £1 billion of the Welsh NHS budget is not utilised effectively, as a result of extremely costly mistakes. We know that expenditure on cancer care in England will soon overtake that in Wales. That is as a result of Labour's cuts to the health budget. Despite the improved settlement for the NHS announced yesterday, the health budget in Wales is still being cut by 5.8 per cent over the next three years. That is in stark contrast to NHS expenditure in England, which has been increased in real terms. NHS funding per person in England will overtake that in Wales for the first time next year. Funding per head in England is set to grow from £1,926 per head to £2,035. Funding per head in Wales over the same period will fall from £2,075 to

O ran cyffuriau newydd, efallai na fyddant bob amser yn cyflawnhau'r haeriadau, ond mae'n rhaid iddynt fod ar gael i'r bobl hynny sy'n debygol o gael budd ohonynt a byw bywydau hirach. Ni wnaethoch ateb cwestiwn Lynne Neagle, a nodaf yr amcangyfrifir bod 31 o gleifion yng Nghymru yn derbyn cyllid eithriadol ar gyfer cyffuriau canser mewn blwyddyn. Mae'n amlwg fod gan Loegr boblogaeth fwy o lawer, ond 2,762 yw'r ffigur yno. Y gyfradd yng Nghymru yw 10.43 cais a gymeradwywyd fesul 1 miliwn o boblogaeth, o'i chymharu â chyfradd o 53.31 yn Lloegr. Mae hyn hefyd yn profi sylwadau Syr Paul Davies bod £1 biliwn o gyllideb y gwasanaeth iechyd gwladol yng Nghymru ddim yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol, o ganlyniad i gamgymeriadau hynod o gostus. Gwyddom y bydd y gwariant ar ofal canser yn Lloegr yn goddiwedd y gwariant yng Nghymru cyn bo hir. Mae hynny o ganlyniad i doriadau Llafur i'r gyllideb iechyd. Er gwaethaf y setliad gwell ar gyfer y gwasanaeth iechyd gwladol a gyhoeddwyd ddoe, mae'r gyllideb iechyd yng Nghymru yn dal i gael ei thorri 5.8 y cant dros y tair blynedd nesaf. Mae hynny mewn gwrthgyferbyniad llwyr â'r gwariant ar y gwasanaeth iechyd gwladol yn Lloegr, sydd wedi cynyddu mewn termau real. Bydd cyllid

£2,002 per year.

y GIG fesul person yn Lloegr yn goddiwedd y gwariant yng Nghymru am y tro cyntaf y flwyddyn nesaf. Bydd cyllid y pen yn Lloegr yn tyfu o £1,926 y pen i £2,035. Bydd cyllid y pen yng Nghymru dros yr un cyfnod yn gostwng o £2,075 i £2,002 y flwyddyn.

A hallmark of this debate has been the sincerity with which all Members addressed the need to try to conquer cancer once and for all. The strain on families has been mentioned by many Members, and it is worrying to discover that the current 120,000 cancer patients will be doubled in 20 years. We acknowledge that treatment is both complex and expensive, and a prescription charge is one way to finance this fund. On the point that the Minister quite rightly made about people receiving free prescriptions, under our proposals 93 per cent of people would still have a free prescription. Elin Jones gave a reasonably reasoned argument in some ways and we are glad that she has now come round to the national cancer plan, which is one step forward, at least. Mark reminded us of the splendid work done by Macmillan Cancer Support and their four points, particularly that a comprehensive and person-centred cancer strategy must be a vital ingredient in conquering this dread disease. The bowel screening scheme is progressing—I pay tribute to the Minister for that—and the Welsh Government does spend more per head than in England, as I have described.

Nodweddwyd y ddadl hon gan ddidwylledd pob Aelod wrth fynd i'r afael â'r angen i geisio gorchfygu canser unwaith ac am byth. Mae'r straen ar deuluoedd wedi cael ei grybwyl gan nifer o Aelodau, ac mae'n peri pryder i ddarganfod y bydd y nifer presennol o gleifion canser, sef 120,000, yn cael ei ddyblu mewn 20 mlynedd. Rydym yn cydnabod bod y driniaeth yn gymhleth ac yn ddrud, ac y mae tâl presgripsiwn yn un ffordd i ariannu'r gronfa hon. O ran y pwynt a wnaeth y Gweinidog yn gwbl briodol am bobl sy'n derbyn presgripsiynau am ddim, o dan ein cynigion byddai 93 y cant o bobl yn dal i gael presgripsiynau am ddim. Gwnaeth Elin Jones ddadl weddol resymegol mewn rhai ffyrdd, ac yr ydym yn falch ei bod hi bellach wedi dod i dderbyn y cynllun canser cenedlaethol; mae'n gam ymlaen, o leiaf. Atgoffwyd ni gan Mark am waith rhagorol Cymorth Canser Macmillan, a'u pedwar pwynt, yn enwedig bod yn rhaid i strategaeth canser sy'n gynhwysfawr ac yn canolbwytio ar y person fod yn elfen hanfodol er mwyn gorchfygu'r clefyd arswydus hwn. Mae'r cynllun sgrinio coluddion yn mynd rhagddo—talaf deyrnged i'r Gweinidog am hynny—ac y mae Llywodraeth Cymru yn gwario mwy y pen nag a wneir yn Lloegr, fel y disgrifiad.

Julie Morgan quite rightly gave a good, and, I think, reasonably passionate, description of the role of the voluntary sector. The Government could not really survive in treating any disease without the wonderful work done by the voluntary bodies in Wales and throughout the United Kingdom. That reminds me of a visit that I made with the Presiding Officer and the former Minister for health to St Anne's Hospice in Newport, where we were told that the traditional role of the hospice was changing. People no longer just came there to die; they would come there from time to time to be treated. We must acknowledge that cancer treatment is changing, despite cancer's devastating effect

Yn gwbl briodol, cawsom ddisgrifiad gan Julie Morgan o rôl y sector gwirfoddol a oedd yn dda ac, yr wyf yn credu, yn eithaf angerddol. Ni allai'r Llywodraeth yn wirioneddol oroesi o ran trin unrhyw afiechyd heb waith gwych cyrff gwirfoddol yng Nghymru ac ar draws y Deyrnas Unedig. Mae hynny'n fy atgoffa o ymwelliad gennyf i, y Llywydd a'r Gweinidog blaenorol dros iechyd i Hosbis St Anne yng Nhasnewydd, lle y dywedwyd wrthym fod rôl draddodiadol yr hosbis yn newid. Bellach, nid oedd pobl yn dod yno i farw yn unig; byddent yn dod yno o bryd i'w gilydd i gael eu trin. Rhaid inni gydnabod bod triniaeth canser yn newid, er gwaethaf effaith ddinistriol yr afiechyd ar

on so many people. Andrew Davies reminded us that diagnosis is vital and must happen at the earliest opportunity to ensure successful treatment.

Lynne Neagle gave a very forceful contribution and made a good plea for transparency and communication, which are, sadly, so often absent from the treatment of all health issues.

Kirsty Williams gave an account of the devastating way in which cancer affects a family and the way that that can be improved by what we are proposing in this motion today.

We know that the budget can be found. A lack of an all-Wales approach is worrying, and the points on exceptionality were extremely well made. I trust that the Minister will reflect on what has been said this afternoon. We know that she is sincere and that she does her very best to act in the interests of all of the people of Wales. We are putting forward a proposal in this motion that will help her.

**The Presiding Officer:** The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? I see that there is objection. Therefore, I defer all voting on this item until voting time.

gymaint o bobl. Atgoffwyd ni gan Andrew Davies fod diagnosis yn hanfodol ac y mae'n rhaid iddo ddigwydd ar y cyfle cyntaf er mwyn sicrhau triniaeth lwyddiannus.

Gwnaeth Lynne Neagle gyfraniad grymus iawn gan bledio yn daer am dryloywder a chyfathrebu sydd, yn anffodus, mor aml yn absennol o ymdriniaeth holl faterion iechyd.

Rhoddodd Kirsty Williams gyfrif o'r ffordd ddinistriol y mae canser yn effeithio ar deulu a'r ffordd y gellir gwella hynny drwy'r hyn yr ydym yn ei gynnig yn y cynnig hwn heddiw.

Rydym yn gwybod y gellir dod o hyd i'r cyllid hwn. Mae diffyg dull Cymru gyfan yn peri pryer, a chafodd y pwyntiau ar eithriadoldeb eu gwneud yn hynod o dda. Hyderaf y bydd y Gweinidog yn myfyrio ar yr hyn a ddywedwyd y prynhawn yma. Rydym yn gwybod ei bod yn ddidwyll a'i bod yn gwneud ei gorau glas i weithredu er lles holl bobl Cymru. Rydym yn cyflwyno cynnig yn y cynnig hwn a fydd yn ei helpu.

**Y Llywydd:** Y cynnig yw y dylid cytuno ar y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf fod gwrthwynebiad. Felly, gohiriaf yr holl bleidleisio ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.  
Voting deferred until voting time.*

*Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) ir Gadair am 4.21 p.m.  
The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 4.21 p.m.*

## Dadl y Ceidwadwyr Cymreig Welsh Conservatives Debate

### Cynllunio Planning

**The Presiding Officer:** I have selected amendment 1 in the name of Jane Hutt and amendment 2 in the name of Peter Black.

*Cynnig NDM4817 William Graham*

**Y Llywydd:** Yr wyf wedi dethol gwelliant 1 yn enw Jane Hutt a gwelliant 2 yn enw Peter Black.

*Motion NDM4817 William Graham*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*To propose that the National Assembly for*

*Wales:*

1. *Yn cydnabod bod y system gynllunio yn hanfodol ar gyfer economi gref, amgylchedd deniadol a chynaliadwy a democraciaeth lwyddiannus; a*

2. *Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:*

a) *Cyflwyno Bil Cynllunio Cymru yn gynharach na'r hyn a nodir yn y Datganiad Ddeddfwriaethol;*

b) *Cynyddu hyblygrwydd system gynllunio Cymru;*

c) *Symleiddio canllawiau cynllunio presennol Cymru;*

d) *Cynyddu cyfraniad cymunedau lleol at y system cynllunio.*

1. *Recognises that the planning system is vital for a strong economy, an attractive and sustainable environment and a successful democracy; and*

2. *Calls upon the Welsh Government to:*

a) *Bring forward the Welsh Planning Bill sooner than indicated in the Legislative Statement,*

b) *Increase the flexibility of the Welsh planning system,*

c) *Streamline and simplify current Welsh planning guidance,*

d) *Increase the say of local communities in the planning system.*

**Russell George:** I move the motion.

**Russell George:** Cynigiaf y cynnig.

This is the second debate that I have had the opportunity to put forward and lead on since taking responsibility for the environment and sustainability agenda for my party. From the Minister's statement last week, it appears to be the second time that we have managed to nudge the Government into action. The last time, it was in relation to the First Minister's statement on windfarms, and this time it is the reform of the planning system. The Government would say it is a coincidence, but perhaps it is nudge theory in action.

Dyma'r ail ddadl yr wyf wedi cael y cyfle i'w chyflwyno a'i harwain ers cymryd cyfrifoldeb am agenda'r amgylchedd a chynaliadwyedd ar ran fy mhlaid. Ar sail datganiad y Gweinidog yr wythnos ddiwethaf, ymddengys mai dyma'r ail dro inni lwyddo i roi hwb i'r Llywodraeth fel ei bod yn gweithredu. Y tro diwethaf, yr oedd mewn perthynas â datganiad y Prif Weinidog ar ffermydd gwynt, a'r tro hwn y broses o ddiwygio'r system gynllunio ydyw. Byddai'r Llywodraeth yn dweud ei fod yn gyddigwyddiad, ond efallai mai'r ddamcaniaeth hwb sydd wrthi.

It is disappointing that the Government cannot support our motion today. We will be supporting the Liberal Democrats' amendment, amendment 2 tabled in the name of Peter Black.

Rwy'n siomedig na all y Llywodraeth gefnogi ein cynnig heddiw. Byddwn yn cefnogi gwelliant y Democratiaid Rhyddfrydol, gwelliant 2, a gyflwynwyd yn enw Peter Black.

The statement made by the Minister on Friday is to be welcomed. It shows that the Government is finally prepared to get to grips with reforming the Welsh planning system in order to ensure that it delivers on a range of policies around the three principal pillars of economic renewal, environmental sustainability and social wellbeing. I say finally, because it is one of the major levers of change across policy areas and, since

Mae'r datganiad a wnaed gan y Gweinidog ddydd Gwener i'w groesawu. Mae'n dangos bod y Llywodraeth o'r diwedd yn barod i fynd i'r afael â diwygio'r system gynllunio yng Nghymru er mwyn sicrhau ei bod yn cyflawni ystod o bolisiâu o amgylch y tri phrif biler o adnewyddu'r economi, cynaliadwyedd amgylcheddol a lles cymdeithasol. Dywedaf o'r diwedd, am ei fod yn un o'r prif ddulliau o gyflawni newid ar

devolution, the Government has had the opportunity to effect the real and comprehensive reform of a system that is not only outdated, but unfit for purpose. However, change had previously not been forthcoming.

Over the years, a number of organisations, such as the Confederation of British Industry Wales, have made suggestions as to how to reform the system, but these have been largely ignored. In its consultation response on the Government's economic renewal programme, CBI Wales said that planning is possibly the one area in which there has been virtually no improvement in service despite increasing costs. Industry still faces lengthy delays in the processing of applications and the quality of service and advice offered differs considerably throughout Wales. In short, the problem faced by businesses with regard to the planning system remains as great as ever.

Therefore, while I welcome the Government's latest commitment, its attitude has, in the past, been unresponsive, and Wales has paid the price economically. Our motion states that we need to bring forward a Welsh planning Bill sooner than 2014, the date indicated in the First Minister's legislative statement before the summer recess. Despite the Minister's statement, we hold firm to this principle. While we recognise that an independent advisory group will undoubtedly add value to achieving a long-term solution to Wales's planning needs, I do not believe that this country can afford to wait an additional two years for the legislative process to start. According to the timescale indicated in the Minister's statement, the advisory group will have published its report by late spring next year. Therefore, the Government should seriously consider bringing legislation before the National Assembly at the back-end of next year. It is vital that, given the UK Government's commitment to implementing its national planning policy framework by the middle of next year, we do not fall behind other parts of the UK.

draws meysydd polisi ac, ers datganoli, y mae'r Llywodraeth wedi meddu ar y cyfle i beri diwygiad go iawn a chynhwysfawr yn hanes system sydd nid yn unig yn hen ffasiwn, ond yn anaddas at y diben. Fodd bynnag, ni fu newid ar droed o'r blaen.

Dros y blynnyddoedd, mae nifer o sefydliadau, megis Cydffederasiwn Diwydiant Prydain Cymru, wedi gwneud awgrymiadau ar sut i ddiwygio'r system, ond mae'r rhain wedi cael eu hanwybyddu i raddau helaeth. Yn ei ymateb i'r ymgynghoriad ar raglen adnewyddu economaidd y Llywodraeth, dywedodd CBI Cymru mai cynllunio, o bosibl, yw'r unig faes lle bu nemor dim gwelliant yn y gwasanaeth er gwaethaf costau cynyddol. Mae diwydiant yn dal i wynebu oedi hir wrth i geisiadau gael eu prosesu, ac y mae ansawdd y gwasanaeth a'r cyngor a gynigir yn amrywio yn sylweddol ledled Cymru. Yn gryno, mae'r broblem y mae'r system gynllunio yn ei pheri i fusnesau yn parhau i fod gymaint ag y bu erioed.

Felly, er fy mod yn croesawu ymrwymiad diweddaraf y Llywodraeth, mae ei hagwedd yn y gorffennol wedi bod yn anymatebol, ac y mae Cymru wedi talu'r pris yn economaidd. Mae ein cynnig yn datgan bod angen inni gyflwyno Bil cynllunio yng Nghymru yn gynt na 2014, y dyddiad a nodwyd yn natganiad deddfwriaethol y Prif Weinidog cyn toriad yr haf. Er gwaethaf datganiad y Gweinidog, rydym yn glynu'n dynn at yr egwyddor hon. Er ein bod yn cydnabod y bydd grŵp cynggor annibynnol yn ddi-os yn ychwanegu gwerth at gyflawni datrysiaid hirdymor i anghenion cynllunio Cymru, nid wyf yn credu y gall y wlad hon fforddio aros am ddwy flynedd ychwanegol er mwyn i'r broses ddeddfwriaethol ddechrau. Yn ôl yr amserlen a nodwyd yn natganiad y Gweinidog, bydd y grŵp cynggor wedi cyhoeddi ei adroddiad erbyn diwedd y gwanwyn y flwyddyn nesaf. Felly, dylai'r Llywodraeth ystyried o ddifrif ddod â deddfwriaeth gerbron y Cynulliad Cenedlaethol tua diwedd y flwyddyn nesaf. Mae'n hanfodol, o ystyried ymrwymiad Llywodraeth y DU i weithredu ei fframwaith polisi cynllunio cenedlaethol erbyn canol y flwyddyn nesaf, nad ydym yn syrthio y tu ôl i rannau eraill o'r Deyrnas Unedig.

The detail of the legislation will be crucial in terms of what we need to achieve. I am pleased that the Minister has stated that such legislation would put more flexibility into the planning system while maintaining public confidence. However, the legislation must go beyond the consolidation and ratification of current legislation and guidance. It has to be enabling, radical and fit for purpose in the twenty-first century. If we look at what the UK Government is proposing in the national planning policy framework to overhaul planning guidance, it wants to take just over 1,000 pages of existing guidance and create a single document 52 pages long. That is radical. Producing such a concise document, setting out a clear strategic vision with a set of distinct priorities for the future of the planning system, with broad parameters, would allow a significant amount of flexibility and ensure that local planning authorities can adequately prioritise and deliver specific requirements to fit local need.

The current length and complexity of the guidance means that the process is not very accessible to the public. We should be looking at emulating the UK Government's approach in Wales. My rough calculation is that Planning Policy Wales, coupled with its annexes and all of the technical advice notes, comes to just over 1,000 pages. That does not include minerals planning guidance, at another 822 pages, not to mention all of the additional information, such as ministerial interim planning policy statements, circular letters and direct letters to the chief planning officers. It is no wonder that local planning officials are struggling to cope when such demands are placed on them constantly. More and more guidance requires greater levels of expertise, which cannot always be achieved within a planning authority, and certainly does not guarantee better outcomes. Of course, there are practical short-term solutions to share and develop expertise. The partnerships between Gwynedd and Ynys Môn are a good example of that.

Bydd manylion y ddeddfwriaeth yn hollbwysig o ran yr hyn y mae angen ei gyflawni. Yr wyf yn falch bod y Gweinidog wedi datgan y byddai deddfwriaeth o'r fath yn rhoi mwy o hyblygrwydd yn y system gynllunio wrth gynnal hyder y cyhoedd. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r ddeddfwriaeth fynd y tu hwnt i gydgrynhau a chadarnhau deddfwriaeth a chanllawiau cyfredol. Mae'n rhaid iddi alluogi a bod yn radical ac yn addas at y diben yn yr unfed ganrif ar hugain. Os edrychwn ar yr hyn y mae Llywodraeth y DU yn ei gynnig yn y fframwaith polisi cynllunio cenedlaethol i ailwampio'r canllawiau cynllunio, mae am gymryd ychydig dros 1,000 o dudalennau o ganllawiau presennol a chreu un ddogfen sy'n 52 tudalen o hyd. Mae hynny'n radical. Byddai cynhyrchu dogfen gryno o'r fath, gan nodi gweledigaeth strategol glir gyda set o flaenoriaethau penodol ar gyfer dyfodol y system gynllunio, gyda pharamedrau eang, yn caniatáu cryn dipyn o hyblygrwydd ac yn sicrhau y gallai awdurdodau cynllunio lleol flaenoriaethu yn ddigonol a chyflwyno gofynion penodol a fyddai'n cyd-fynd ag angen lleol.

Mae hyd a chymhlethdod cyfredol y canllawiau yn golygu nad yw'r broses yn hygrych iawn i'r cyhoedd. Dylem edrych ar efelychu dull Llywodraeth y DU yng Nghymru. Fy nghyfrifiad garw yw bod Polisi Cynllunio Cymru, ynghyd â'i atodiadau a phob un o'r nodiadau cyngor technegol, yn dod at ychydig dros 1,000 o dudalennau. Nid yw hynny'n cynnwys canllawiau cynllunio mwynau, sy'n 822 tudalen arall, heb sôn am yr holl wybodaeth ychwanegol, megis datganiadau polisi cynllunio interim y Gweinidog, cylchlythyrau a llythyrau uniongyrchol at y prif swyddogion cynllunio. Nid yw'n syndod bod swyddogion cynllunio lleol yn cael trafferth yn ymdopi pan fo gofynion o'r fath yn cael eu gosod arnynt yn gyson. Mae mwy a mwy o ganllawiau yn gofyn am lefelau uwch o arbenigedd, nad oes wastad modd ei ddarparu o fewn awdurdod cynllunio, ac yn sicr nid yw'n gwarantu canlyniadau gwell. Wrth gwrs, mae yna ddatrysiau tymor byr ymarferol er mwyn rhannu a datblygu arbenigedd. Mae'r partneriaethau rhwng Gwynedd ac Ynys Môn yn enghraifft dda o hynny.

However, the long-term goal has to be strengthening and simplifying the guidance. Setting priorities within any new piece of legislation would be crucial. The need to effectively balance competing economic, social and environmental priorities is not easy; the Government would have to make it clear which priorities prevail in cases of conflict. Strengthening the Welsh economy is critical. I know that the Minister has been examining this point and has produced a study on how the planning system could help to deliver economic growth. The question we have to ask ourselves is: will piecemeal reform and more technical guidance enable us to do that?

Fodd bynnag, mae'n rhaid anelu at gryfhau a symleiddio'r canllawiau yn yr hirdymor. Byddai pennu blaenoriaethau o fewn unrhyw ddarn newydd o ddeddfwriaeth yn hanfodol. Nid yw'r angen i gydbwyso blaenoriaethau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol sydd yn cystadlu â'i gilydd yn effeithiol yn hawdd; byddai'n rhaid i'r Llywodraeth ei gwneud yn glir pa flaenoriaethau oedd yn ennill y dydd pan oeddynt yn gwrthdar. Mae cryfhau economi Cymru yn hanfodol. Gwn fod y Gweinidog wedi bod yn archwilio'r pwyt hwn ac y mae wedi cynhyrchu astudiaeth ar sut y gallai'r system gynllunio helpu i sicrhau twf economaidd. Y cwestiwn y mae'n rhaid inni ofyn i ni ein hunain yw: a fydd diwygio tameidiog a chanllawiau mwy technegol yn ein galluogi i wneud hynny?

The Government has to examine the big picture and ascertain how it can deliver real impetus to its economic renewal programme. Principally, it needs to make a decision on how it wants local planning authorities to operate and deliver results. The elephant in the room at the moment is that we have 22 local authorities, each of which has to produce a local development plan. The Government, through Planning Policy Wales, is telling each planning authority what it needs to do with its LDP to designate land for employment by means of business units. Yet, through the Wales spatial plan, it is also telling authorities to work together in a regional context, but provides no mechanism or framework for how they should do that.

Mae'n rhaid i'r Llywodraeth edrych ar y darlun mawr a chanfod sut y gall gyflawni hwb gwirioneddol i'w rhaglen adnewyddu'r economi. Yn bennaf, mae angen iddi wneud penderfyniad ar sut y mae'n dymuno i awdurdodau cynllunio lleol weithredu a sicrhau canlyniadau. Y broblem amlwg ar hyn o bryd yw bod gennym 22 o awdurdodau lleol, ac y mae pob un ohonynt yn gorfol cynhyrchu cynllun datblygu lleol. Mae'r Llywodraeth, drwy Polisi Cynllunio Cymru, yn dweud wrth bob awdurdod cynllunio yr hyn y mae angen iddo ei wneud gyda'i gynllun i ddynodi tir ar gyfer cyflogaeth drwy gyfrwng unedau busnes. Eto i gyd, drwy gynllun gofodol Cymru, mae hefyd yn dweud wrth awdurdodau am weithio gyda'i gilydd mewn cyd-destun rhanbarthol, ond nid yw'n darparu unrhyw fecanwaith na fframwaith ar gyfer sut y dylent wneud hynny.

It is a real shame that the Wales spatial plan has been more or less left on the shelf for the past three years, because it provides one of the best vehicles for delivering economic growth. There are real problems with the LDP model, and the fact that only a handful of planning authorities have had their plans accepted proves that. There is also a fundamental problem with public engagement. The model is process driven and has been constructed in such a way that the consultation phase is front-loaded to encourage public engagement. However, the key problem is that the public is never

Mae'n drueni mawr fod cynllun gofodol Cymru fwy neu lai wedi cael ei adael ar y silff am y tair blynedd diwethaf, gan ei fod yn un o'r cyfryngau gorau ar gyfer sicrhau twf economaidd. Mae problemau go iawn gyda model y cynlluniau datblygu lleol, ac y mae'r ffait mai dim ond llond dwrn o gynlluniau gan awdurdodau cynllunio sydd wedi cael eu derbyn yn profi hynny. Mae problem sylfaenol gydag ymgysylltu â'r cyhoedd hefyd. Caiff y model ei yrru gan brosesau ac y mae wedi cael ei adeiladu yn y fath fodd fel bod y cyfnod ymgynghori yn annog ymgysylltu â'r cyhoedd. Fodd bynnag, y

engaged until the third or fourth stage of the process, when they can see lines drawn on a map. More often than not, when the process does get to this stage the public feels a deep mistrust of the system, and, tragically, the idea that development can benefit a community becomes a casualty, along with the idea of the process encouraging democracy, openness and accountability. Is the LDP model the best process to increase participation and social engagement?

broblem allweddol yw nad yw'r cyhoedd byth yn cymryd rhan tan y trydydd neu'r pedwerydd cam yn y broses, pan allant weld llinellau wedi cael eu tynnu ar fap. Yn amlach na pheidio, pan fydd y broses yn cyrraedd y cam hwn mae'r cyhoedd yn teimlo diffyg ymddiriedaeth ddofn yn y system, ac, yn drasig, clwyfir y syniad y gall datblygiad fod o fudd i gymuned, ynghyd â'r syniad fod y broses yn annog democratiaeth a bod yn agored ac yn atebol. Ai model y cynllun datblygu lleol yw'r broses orau i gynyddu cyfranogiad ac ymgysylltiad cymdeithasol?

4.30 p.m.

One of the pillars that I have not touched on is environmental sustainability and the way in which we protect the environment. This is not a deliberate omission, as I know that the Minister has accepted that fact and that there is a presumption in favour of sustainable development, which is absolutely right. My only concern is that the Minister has said that this will be introduced into the planning system at the earliest opportunity. However, I would expect that this would have been mainstreamed into the planning system before the Bill was brought forward, and that it therefore would be automatically embedded into that piece of legislation.

Un o'r pilieri nad wyf wedi eu crybwyl yw cynaliadwyedd amgylcheddol a'r modd yr ydym yn diogelu'r amgylchedd. Nid yw hyn yn ddiffyg bwriadol, gan fy mod yn gwybod bod y Gweinidog wedi derbyn y ffaith honno, ac mae rhagdybiaeth o blaid datblygu cynaliadwy, ac mae hynny'n gwbl gywir. Fy unig bryder yw bod y Gweinidog wedi dweud y bydd hyn yn cael ei gyflwyno i'r system gynllunio ar y cyfle cyntaf. Fodd bynnag, byddwn yn disgwyl y byddai hyn wedi cael ei brif ffrydio yn y system gynllunio cyn i'r Mesur gael ei gyflwyno, a byddai felly yn cael ei fewnosod yn awtomatig yn y darn hwnnw o ddeddfwriaeth.

To conclude, given the scale of the problems that we face in Wales, current piecemeal reform of the system for the next three years is not an adequate response. Only a radical reboot will deliver the planning system that we need to succeed in the years to come. If this Government wants to be true to its word and focus on delivery, a radical reformed planning system that is transparent, streamlined and accessible has to be the underpinning factor.

I gloi, o ystyried maint y problemau yr ydym yn eu hwynebu yng Nghymru, nid yw diwygio tameidiog presennol y system ar gyfer y tair blynedd nesaf yn ymateb digonol. Dim ond ailgychwyn radical a fydd yn cyflwyno'r system gynllunio sydd ei hangen arnom er mwyn inni lwyddo yn y blynnyddoedd i ddod. Os yw'r Llywodraeth hon yn awyddus i gadw at ei gair a chanolbwytio ar gyflawni, mae'n rhaid cael system gynllunio ddiwygiedig, radical sy'n dryloyw, syml a hygrych fel yr elfen sylfaenol.

*Gwelliant 1 Jane Hutt*

*Amendment 1 Jane Hutt*

*Dileu pwynt 2 a rhoi yn ei le:*

*Delete point 2, and replace with:*

*Yn nodi Datganiad Ysgrifenedig Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy i'r Cabinet, a anfonwyd drwy e-bost at*

*Notes the Cabinet Written Statement by the Minister for Environment and Sustainable Development, emailed to Assembly Members*

*Aelodau'r Cynulliad ar 30 Medi, yn sefydlu panel cyngori annibynnol i roi cyngor ar sut y dylid cynnal gwasanaethau cynllunio yn y dyfodol, a fydd yn llywio'r Papur Gwyn Cynllunio a'r Mesur dilynol.*

*on 30 September, establishing an independent advisory panel to advise on how planning services should be delivered in the future, which will inform the Planning White Paper and subsequent Bill.*

**The Minister for Environment and Sustainable Development (John Griffiths):**  
I move amendment 1 in the name of Jane Hutt.

*Gwelliant 2 Peter Black*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Yn credu y dylai adolygiad Llywodraeth Cymru o'r system gynllunio hefyd ystyried Cynllun Gofodol Cymru a'r system cynlluniau datblygu lleol.*

**William Powell:** I move amendment 2 in the name of Peter Black.

It is a great privilege to take part in this important debate. Our amendment calls on the Government to review the role of the Wales spatial plan and the way it interacts with local development plans. The Sustainability Committee in the last Assembly also called for this in its inquiry into the planning system in Wales.

One of the major problems for planning in Wales is its sheer complexity, namely the complexity of individual planning applications, and the complexity of the overarching planning framework. Local authorities tend to work in isolation, developing their local development plans within their own boundaries and for their own immediate needs, even though the Wales spatial plan is centred on six larger regions.

The problem is that the regions outlined in the Wales spatial plan do not match up with any of the other regions more recently quoted by the Government. I think particularly of the new regional partnerships outlined by the Minister for Local Government and Communities and by the Minister for Education and Skills. There needs to be a coterminous approach in this respect. This

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy (John Griffiths):**  
Cynigiaf welliant 1 yn enw Jane Hutt.

*Amendment 2 Peter Black*

*Add as new point at end of motion:*

*Believes that the Welsh Government's review of the planning system should also consider the Wales Spatial Plan and the system of local development plans.*

**William Powell:** Cynigiaf welliant 2 yn enw Peter Black.

Mae'n faint fawr i gymryd rhan yn y ddadl bwysig hon. Mae ein gwelliant yn galw ar y Llywodraeth i adolygu rôl cynllun gofodol Cymru a'r ffordd y mae'n rhungweithio â chynlluniau datblygu lleol. Yr oedd y Pwyllgor Cynaliadwyedd yn y Cynulliad diwethaf hefyd yn galw am hyn yn ei ymchwiliad i'r system gynllunio yng Nghymru.

Un o broblemau mawr cynllunio yng Nghymru yw ei gymhlethdod llwyr, sef cymhlethdod ceisiadau cynllunio unigol, a chymhlethdod y fframwaith cynllunio trosfwaol. Mae awdurdodau lleol yn tuedd i weithio ar wahân, gan ddatblygu eu cynlluniau datblygu lleol o fewn eu ffiniau eu hunain ac ar gyfer eu hanghenion uniongyrchol eu hunain, er bod cynllun gofodol Cymru yn canolbwytio ar chwe rhanbarth mwy o faint.

Y broblem yw nad yw'r rhanbarthau a amlinellir yng nghynllun gofodol Cymru yn cyd-fynd ag unrhyw un o'r rhanbarthau eraill a ddyfynnwyd yn fwy diweddar gan y Llywodraeth. Yr wyf yn meddwl yn arbennig am y partneriaethau rhanbarthol newydd a amlinellwyd gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau a chan y Gweinidog Addysg a Sgiliau. Mae angen ymagwedd

creates an unnecessary level of complication, and it could easily be rectified by synchronising the boundaries of local government collaboration.

With the new regions that I have outlined, perhaps it is time that we look at the way in which the whole spatial plan is to be delivered. Each local authority must design its local development plans with the future of its own area in mind. However, the future of that area is closely intertwined with and interdependent on other local authorities. We think, for example, of the experience of our capital city. Cardiff's local development plan has to take into account the future population growth of the city, and the development of the city must provide for adequate housing and ensure service provision for the projected increase in population in years to come. However, it could be argued that the bordering areas are just as well placed to provide housing for many of the people who come to work and live in Cardiff for the future. This has the added advantage of aiding the regeneration of these areas while not overburdening the city with too much rapid and undesired development.

I have also brought particular issues regarding the national parks in Wales to the Minister's attention. In proposing the motion, Russell referred to the 22 local authorities, but we also have the three special purpose local authorities, which add an additional layer of complexity to the whole process. The Planning and Compulsory Purchase Act 2004 says that local planning authorities must have regard to the Wales spatial plan when developing their own LDPs, but the problem is that it often does not feature in the formal planning process. It is a statutory document to which local authorities are supposed to have regard when they develop their plans, but it does not contain a concrete set of guidelines that could help us with the planning process, as is the case with the technical advice notes, for example.

The Government's legislative programme says that the planning Bill is due to be brought forward before the Assembly in 2014, with a White Paper and consultation

gydffiniol yn hyn o beth. Mae hyn yn creu lefel ddiangen o gymhlethdod a gall fod yn hawdd ei chywiro drwy gysoni ffiniau cydweithredu llywodraeth leol.

Gyda'r rhanbarthau newydd yr wyf wedi'u hamlinellu, efallai ei bod yn amser inni edrych ar y ffordd y mae'r cynllun gofodol cyfan yn cael ei gyflwyno. Mae'n rhaid i bob awdurdod lleol lunio ei gynlluniau datblygu lleol gyda dyfodol ei ardal ei hun mewn golwg. Fodd bynnag, mae dyfodol yr ardal honno yn plethu'n agos gyda, ac yn gyddibynnol ar, awdurdodau lleol eraill. Rydym yn meddwl, er enghraifft, o brofiad ein prifddinas. Mae'n rhaid i gynllun datblygu lleol Caerdydd ystyried y twf ym mhoblogaeth y ddinas yn y dyfodol, ac mae'n rhaid i ddatblygiad y ddinas ddarparu ar gyfer tai digonol a sicrhau darpariaeth gwasanaeth ar gyfer y cynnydd a ragwelir yn y boblogaeth yn y blynnyddoedd i ddod. Fodd bynnag, gellid dadlau bod yr ardaloedd cyffiniol mewn sefyllfa gystal i ddarparu tai ar gyfer llawer o'r bobl sy'n dod i weithio a byw yng Nghaerdydd at y dyfodol. Mae gan hyn y fantais ychwanegol o helpu adfywio'r ardaloedd hyn heb orlwytho'r ddinas gyda gormod o ddatblygiad cyflym ac annymunol.

Yr wyf hefyd wedi dwyn materion penodol sy'n ymwneud â'r parciau cenedlaethol yng Nghymru at sylw'r Gweinidog. Wrth gynnig y cynnig, cyfeiriodd Russell at y 22 awdurdod lleol, ond mae gennym hefyd y tri awdurdod lleol at ddibenion arbennig, sy'n ychwanegu haen ychwanegol o gymhlethdod i'r broses gyfan. Mae Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn dweud bod yn rhaid i awdurdodau cynllunio lleol roi sylw i cynllun gofodol Cymru wrth ddatblygu eu cynlluniau datblygu lleol eu hunain, ond y broblem yw, yn aml, nad yw'n ymddangos yn y broses gynllunio ffurfiol. Mae'n ddogfen statudol y mae awdurdodau lleol i fod i roi sylw iddi wrth iddynt ddatblygu eu cynlluniau, ond nid yw'n cynnwys set goncrid o ganllawiau a all ein helpu gyda'r broses gynllunio, fel sy'n digwydd gyda'r nodiadau cyngor technegol, er enghraifft.

Most obvious is the desire for greater local influence and involvement by residents in planning decisions that affect them. The other factor is clarity in decision-making rules and the timescales for businesses that are looking to make investment decisions. Often, those two competing aspects run at cross purposes.

cystadlu yn y broses gynllunio. Y rhan mwyaf amlwg yw'r awydd am fwy o ddylanwad lleol a chyfranogiad gan drigolion mewn penderfyniadau cynllunio sy'n effeithio arnynt. Y ffactor arall yw eglurder yn y rheolau ar wneud penderfyniadau a'r amserlenni ar gyfer busnesau sy'n awyddus i wneud penderfyniadau buddsoddi. Yn aml, y mae'r ddwy agwedd honno, sy'n cystadlu â'i gilydd, yn gweithredu'n groes i'w gilydd.

I have heard a fair bit in the Chamber about UK Government reforms to the planning process. Interestingly, a number of people do not think that those reforms make a great deal of sense. One Tory MP described them as being chaotic. I was hoping that we would have a more sensible debate here on what we want from our planning process. However, if you are going to say that it is radical and desirable to move from 1,000 pages of guidance to 52 pages, I do not think that you are really engaging in the reality of decision making. If you go from that previous figure to 52 pages of guidance, far from enhancing and promoting stability and clarity, you will promote greater confusion in decision making. There will be greater involvement by lawyers to try to find out what the process means, and it will be even more difficult for local people to have a realistic view and to have an impact on planning and development. It is much more likely that oversimplified guidance will result in the people with the best lawyers having their decisions implemented, even more so than at present. When we look at the planning process in Wales, I hope that we can be a bit more cognisant of the reality of what happens here. The planning process covers three national parks and the 22 local authorities—

Yr wyf wedi clywed cryn dipyn yn y Siambra am ddiwygiadau Llywodraeth y DU i'r broses gynllunio. Mae'n ddiddorol nodi nad yw nifer o bobl yn meddwl bod y diwygiadau hynny yn gwneud llawer o synnwyr. Gwnaeth un Aelod Seneddol Torïaidd eu galw'n ddi-drefn. Yr oeddwn yn gobeithio y byddem yn cael dadl fwy synhwyrol yma ar yr hyn yr ydym am ei gael gan ein proses gynllunio. Fodd bynnag, os ydych yn mynd i ddweud ei bod yn radical ac yn ddymunol i symud o 1,000 o dudalennau o ganllawiau i 52 tudalen, nid wyf yn credu eich bod yn wir yn cymryd rhan yn y realiti o wneud penderfyniadau. Petaech yn mynd o'r nifer blaenorol i 52 tudalen o ganllawiau, ymhell o wella a hyrwyddo sefydlogrwydd ac eglurder, byddech yn hyrwyddo mwy o ddryswnwr wrth wneud penderfyniadau. Byddai mwy o gyfranogiad gan gyfreithwyr i geisio canfod ystyr y broses, a byddai hyd yn oed yn fwy anodd i bobl leol gael golwg realistig a chael effaith ar gynllunio a datblygu. Mae'n llawer mwy tebygol y byddai canllawiau sydd wedi eu gorsymleiddio yn golygu y byddai'r rheiny sydd â'r cyfreithwyr gorau yn gweld eu penderfyniadau yn cael eu gweithredu, hyd yn oed yn fwy nag sy'n wir ar hyn o bryd. Pan edrychwn ar y broses gynllunio yng Nghymru, yr wyf yn gobeithio y gallwn fod ychydig yn fwy ymwybodol o realiti'r hyn sy'n digwydd yma. Mae'r broses gynllunio yn cwmpasu tri pharc cenedlaethol a'r 22 awdurdod lleol—

**Russell George:** I agree with your points and those made by Julie James. I am not suggesting that we should reduce the guidance to 52 pages; rather it is about the principle that 1,000 pages are too many and disproportionate. We are, however, largely in agreement with each other.

**Vaughan Gething:** The problem is that, in

**Russell George:** Cytunaf â'ch pwyntiau a'r rhai a wnaed gan Julie James. Nid wyf yn awgrymu y dylem leihau'r canllawiau i 52 tudalen; yn hytrach, mae'n ymwneud â'r egwyddor bod 1,000 o dudalennau yn rhy niferus ac yn anghymesur. Rydym, fodd bynnag, yn bennaf yn cytuno â'n gilydd.

**Vaughan Gething:** Y broblem yw eich bod,

your opening comments, you said that moving to 52 pages was a radical aim, and you praised the UK Government for having that aim; I do not think that that is appropriate. You have to look at what you want from the planning process. You have to recognise that planning is a complex process. You cannot make it simple because you wish it to be so.

When we look at the local development plan process in Wales, which has already been touched on, far too many councils have not delivered their plans on time. This is not simply a question of saying that it is the Welsh Government's fault that the planning process has not changed. Far too many of the local authorities with which we interact have not dealt with their responsibilities. Here in the capital city, the local development plan is likely to be in place 18 or 19 years after the last plan was passed; that is not good enough, and it is the responsibility of Cardiff Council. When you look around this part of the capital city, you see the reality of a laissez-faire planning system, where, because the guidance is not clear and up to date, developers can pretty much do what they want.

As Julie James mentioned, planners act in the bubble of an individual development, without seeing its full context. In the surrounding wards of Grangetown and Butetown, there has comfortably been the most development within the city of Cardiff in the past 10 years. In Grangetown, there have been more than 2,000 new units—an increase of more than 30 per cent. In Butetown, there has been an increase of more than 3,400 housing units, or an increase of 139 per cent on previous housing stock. We have seen a huge explosion in the number of flats—unsustainable communities that do not make sense. They are not joined up to the existing communities and, often, on their own, do not join up with any of the recent services that you would expect. Consider where those flats are now and their access to shops, public transport and road transport—it really does not make sense. That is a planning system that has gone wrong because the planning process is not up to date and because the local authority planners, frankly, have not

yn eich sylwadau agoriadol, wedi dweud bod symud i 52 tudalen yn nod radical, a bu ichi ganmol Llywodraeth y DU am gael y nod hwnnw; nid wyf yn credu bod hynny'n briodol. Mae'n rhaid i chi edrych ar yr hyn yr ydych am ei gael o'r broses gynllunio. Mae'n rhaid i chi gydnabod bod cynllunio yn broses gymhleth. Ni allwch ei wneud yn syml oherwydd eich bod yn dymuno iddo fod felly.

Pan edrychwn ar broses y cynllun datblygu lleol yng Nghymru, sydd eisoes wedi cael ei grybwyl, mae llawer gormod o gynghorau nad ydynt wedi cyflwyno eu cynlluniau ar amser. Nid yw hwn yn gwestiwn syml o ddweud ei fod yn fai ar Lywodraeth Cymru nad oedd y broses gynllunio wedi newid. Mae llawer gormod o'r awdurdodau lleol yr ydym yn rhwngweithio â hwy nad ydynt wedi delio â'u cyfrifoldebau. Yma yn y brifddinas, mae'r cynllun datblygu lleol yn debygol o fod ar waith 18 neu 19 mlynedd ar ôl i'r cynllun olaf gael ei basio; nid yw hynny'n ddigon da, ac mae'n gyfrifoldeb ar Gyngor Caerdydd. Pan edrychwr o gwmpas y rhan hon o'r brifddinas, gwelwr realiti system gynllunio laissez-faire, lle, gan nad yw'r canllawiau yn glir ac yn gyfredol, mae bron â bod rhwydd hynt i ddatblygwyr gwneud fel y mynnant.

Fel y crybwylwyd gan Julie James, mae cynllunwyr yn gweithredu o fewn byd bach datblygiad unigol, heb weld ei gyd-destun llawn. Yn wardiau cyfagos Grangetown a Thre-biwt, cafwyd y datblygiad mwyaf o fewn dinas Caerdydd yn y 10 mlynedd diwethaf. Yn Grangetown, adeiladwyd mwy na 2,000 o unedau newydd—cynnydd o fwy na 30 y cant. Yn Nhre-biwt, bu cynnydd o fwy na 3,400 o unedau tai, neu gynnydd o 139 y cant ar y stoc dai blaenorol. Yr ydym wedi gweld ffrwydrad anferth yn nifer y fflatiau—cymunedau anghynaladwy nad ydynt yn gwneud synnwyr. Nid ydynt yn cysylltu â'r cymunedau presennol ac, yn aml, ar eu pen eu hunain, nid ydynt yn cysylltu â'r gwasanaethau diweddar y byddech yn eu disgwyl. Os ystyriwr lle mae'r fflatiau hynny yn awr a'u mynediad at siopau, cludiant cyhoeddus a chludiant ffordd—nid yw'n gwneud synnwyr o gwbl. Dengys bod y system gynllunio wedi mynd o'i le oherwydd nad yw'r broses gynllunio yn gyfredol ac oherwydd nad yw cynllunwyr yr awdurdodau

done their job properly by ensuring that they are giving developers appropriate guidance on the sort of sustainable communities that they expect to be developed. Frankly, you cannot really blame the developers. They are interested in making money. If you let them build tower after tower of flats, they will go on and do that.

lleol, a dweud y gwir, wedi gwneud eu gwaith yn iawn drwy sicrhau eu bod yn rhoi cyfarwyddiadau priodol i ddatblygwyr ar y math o gymunedau cynaliadwy y maent yn disgwyl iddynt gael eu datblygu. A dweud y gwir, ni allwch roi'r bai i gyd ar y datblygwyr. Eu blaenoriaeth yw gwneud arian. Os ydych yn caniatáu iddynt adeiladu tŵr ar ben tŵr o fflatiau, dyna fyddant yn ei wneud.

I hope that, when we look at what we want from planning policy in Wales and the planning Bill, we hold firm to having an evidence base for future planning policy, consolidate planning policy sensibly and accept that planning is not easy, that it is a complex process and that it is pointless trying to pretend that you can make it easy by reducing the guidance down to a certain number of words.

**Mick Antoniw:** Part 1 of the motion contains little that anyone on this side would disagree with—we all recognise that a simple and transparent system is vital to a strong economy. The Government's legislative programme is also clear that there will be a White Paper in 2012, leading to a Bill in 2014. This is one of the items in contention at the moment. I have no difficulty with the prime objectives of the motion, which highlights the need for a Bill to increase flexibility, streamlining and so on. However, to suggest, as part 2(a) of the motion does, that the Government's agenda for this legislation is dilatory and could be brought forward sooner is, in my view, absolutely reckless.

When the Government announced its legislative programme, there was a certain amount of media commentary that it was unexciting, lacked big ideas and so on. This is a common mistake on the part of the media. Legislation is rarely exciting. The process of legislation is often turgid, mundane and extremely hard, tortuous work, and that is why the media rarely read legislation. When Sir Emry Jones Parry commented that the priorities in the Welsh Government's legislative plans were not, perhaps, a natural fit for the problems that Wales is confronted by, he was falling into

Gobeithiaf, pan edrychwn ar yr hyn yr ydym am ei gael gan bolisi cynllunio yng Nghymru a'r Mesur cynllunio, ein bod yn mynnu tystiolaeth fel sail i bolisi cynllunio at y dyfodol, ein bod yn cyfuno polisi cynllunio yn synhwyrol ac yn derbyn nad yw cynllunio yn hawdd, ei fod yn broses gymhleth ac nad oes unrhyw bwynt ceisio esgus y gallwch ei wneud yn hawdd drwy leihau'r canllawiau i nifer penodol o eiriau.

**Mick Antoniw:** Mae rhan 1 y cynnig yn cynnwys fawr ddim y byddai unrhyw un ar yr ochr hon yn anghytuno â hi—yr ydym i gyd yn cydnabod bod system syml a thryloyw yn hanfodol i economi gref. Mae rhaglen ddeddfwriaethol y Llywodraeth hefyd yn glir y bydd Papur Gwyn yn 2012, gan arwain at Fîl yn 2014. Dyma un o'r eitemau sy'n destun trafodaeth ar hyn o bryd. Nid oes gennyl unrhyw anhawster gyda phrif amcanion y cynnig, sy'n tynnu sylw at yr angen am Fîl i gynyddu hyblygrwydd, symleiddio ac yn y blaen. Fodd bynnag, mae awgrymu, fel y mae rhan 2(a) y cynnig yn ei wneud, bod agenda'r Llywodraeth ar gyfer y ddeddfwriaeth hon yn araf a gellid ei ddwyn ymlaen yn gynt, yn fy marn i, yn hollol ddi-hid.

Pan gyhoeddodd y Llywodraeth ei rhaglen ddeddfwriaethol, roedd rhywfaint o sylwebaeth yn y cyfryngau ei fod yn ddiflas, yn brin o syniadau mawr ac yn y blaen. Mae hyn yn gamgymeriad cyffredin ar ran y cyfryngau. Anaml iawn y mae deddfwriaeth yn gyffrous. Mae'r broses o ddeddfu yn aml yn rhwystredig, dinod ac yn waith hynod o galed a throfaus, a dyna'r rheswm pam nad yw'r cyfryngau yn aml yn darllen ddeddfwriaeth. Pan ddywedodd Syr Emry Jones Parry nad oedd y blaenoriaethau o fewn cynlluniau ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru, efallai, yn ymwneud â'r problemau y

exactly the same trap that our media often slip into—misunderstanding the link between political vision and aspirations and legislative programmes, believing that legislation alone is the solution to all our problems when, frequently, legislation is lubricating the wheels of economic and political process and setting the frameworks within which politicians, businesses and communities engage.

mae Cymru'n eu hwynebu, yr oedd yn disgyn i mewn i union yr un magl ag y mae ein cyfryngau yn aml yn llithro i mewn iddo—gan gamddeall y cysylltiad rhwng gweledigaeth a dyheadau gwleidyddol a rhagleni deddfwriaethol, gan gredu mai deddfwriaeth yn unig yw'r ateb i'n holl broblemau pan, yn aml, mae deddfwriaeth yn iro olwynion y broses economaidd a gwleidyddol ac yn gosod y fframweithiau er mwyn i wleidyddion, busnesau a chymunedau gymryd rhan.

Make no mistake about it, the task set by the Government to reform the planning system is gargantuan. It will have an impact on every area of Welsh life and set the balance between businesses, communities, organisations and politicians for decades to come. Consultation must be thorough and fair and detailed scrutiny must be of the highest quality. All of this cannot be done in a rush, and it is absolutely essential that we get it right. Take for example the consideration of the Planning Act 2008. It had 200 detailed pages, was written in a language understood only by lawyers, who have made a living for years out of interpreting legislation in dozens of different ways, and contained more than 200 clauses and 13 Schedules. What is more important is what we want legislation to achieve and ensuring that the legislation we eventually introduce is clear and effective. To that extent, attempting to rush the process is a grave mistake. It would lead to contentious, ineffective and badly drafted legislation—

Peidied neb â chamgymryd am y peth, mae'r dasg a osodwyd gan y Llywodraeth i ddiwygio'r system gynllunio yn anferthol. Bydd yn cael effaith ar bob agwedd ar fywyd Cymru ac yn gosod y cydbwysedd rhwng busnesau, cymunedau, sefydliadau a gwleidyddion am ddegawdau i ddod. Mae'n rhaid i ymgynghori fod yn drylwyr a theg ac mae'n rhaid i graffu manwl fod o'r ansawdd uchaf. Ni all hyn i gyd gael ei wneud ar frys, ac mae'n gwbl hanfodol ein bod yn ei gael yn iawn. Cymerwch er enghraifft y trafodion ynghylch Deddf Cynllunio 2008. Roedd 200 o dudalennau manwl iddi, cafodd ei hysgrifennu mewn iaith a oedd yn ddealladwy dim ond i gyfreithwyr, sydd wedi gwneud bywoliaeth am flynyddoedd allan o ddehongli deddfwriaeth mewn dwsinau o wahanol ffyrdd, ac yr oedd yn cynnwys mwy na 200 o gymalau a 13 Atodlen. Yr hyn sydd yn bwysig yw'r hyn yr ydym am i ddeddfwriaeth ei gyflawni a sierhau bod y ddeddfwriaeth yr ydym yn ei chyflwyno yn y pen draw yn glir ac yn effeithiol. I'r graddau hynny, mae ceisio brycio'r broses yn gamgymeriad difrifol. Byddai'n arwain at ddeddfwriaeth gynhennus, aneffeithiol a ddrafftwyd yn wael—

**Andrew R.T. Davies:** I thank the Member for Pontypridd for taking an intervention. I was listening to the Minister for Finance this morning on Radio Wales. She referred constantly to the planning system in driving forward the economy. She was talking in the context of the next budget year. Do you not think that, if the Minister for Finance is using the planning system as one of the tools for the next budget year, it is incumbent upon us as the opposition to find out what they are going to do with the planning system?

**Andrew R.T. Davies:** Diolch i'r Aelod dros Pontypridd am dderbyn ymyriad. Yr oeddwn yn gwrando ar y Gweinidog Cyllid y bore yma ar Radio Wales. Cyfeiriodd yn gyson at y system gynllunio yn gyrru'r economi yn ei flaen. Roedd yn siarad yng nghyd-destun y flwyddyn gyllidebol nesaf. Onid ydych yn meddwl, os yw'r Gweinidog Cyllid yn defnyddio'r system gynllunio fel un offeryn ar gyfer y flwyddyn gyllidebol nesaf, mae'n ddyletswydd arnom fel yr wrthblaid i ddarganfod yr hyn y byddant yn ei wneud â'r system gynllunio?

**Mick Antoniw:** I think that we work with the planning system that we actually have at the time. However, when you are looking at a major overhaul, you do not seek to rush that, get it wrong and hamper all future budgets with ineffective legislation. That is the particular difficulty. It is absolutely essential that we get it right. To some extent, I think that the motion falsely presents the idea that, somehow, if only we were a bit more urgent, we could rush this all forward and that we could have it all implemented much more quickly. I do not agree with that, and I think that it would be irresponsible. As a new legislature, we have to ensure that our legislation is fit for purpose and that we get it right.

**The Minister for Environment and Sustainable Development (John Griffiths):** I will begin by thanking Members for their contributions to what is, undoubtedly, an important debate, which I welcome. Many issues have been raised. We obviously need a fit-for-purpose planning system that can contribute towards our future prosperity. It needs to be able to meet the competing interests that many Members have mentioned: economic development, housing, transport and infrastructure, climate mitigation and energy needs and capacity. It has to work for the construction sector and developers, and support jobs and growth. So, with all of that in mind, it is easy to understand why Members have raised a range of matters that touch on all of those. It is also good to know that a lot of work is taking place at the moment with Welsh Government officials. Indeed, a lot of work is planned—not only leading up to the legislation, but before that, in terms of revision. There is a lot that needs to be dealt with.

We can rightly be proud of our main planning policy document, ‘Planning Policy Wales’, which is well thought of. Members have made comment as to how lengthy it is and made comparison with what is happening in England in terms of the reduction down to 52 pages or so. I agree with those Members who say that it is important to ensure that we have sufficient clarity and certainty around national planning policy in Wales.

**Mick Antoniw:** Yr wyf yn credu ein bod yn gweithio gyda'r system gynllunio sydd gennym ar y pryd. Fodd bynnag, pan edrychwrch ar newidiadau mawr, nid ydych yn ceisio rhuthro hynny a'i gael yn anghywir, gan amharu ar gyllidebau'r dyfodol â deddfwriaeth aneffeithiol. Dyna'r anhawster penodol. Mae'n gwbl hanfodol ein bod yn ei gael yn iawn. I ryw raddau, teimlaf fod y cynnig yn cyflwyno'r camsyniad y gallem, rywsut, petawn yn gweithredu gyda mwy o frws, ruthro hyn i gyd ymlaen ac y gallem gael y cyfan ar waith yn gynt o lawer. Nid wyf yn cytuno â hynny, a chredaf y byddai'n anghyfrifol. Fel deddfwrfa newydd, mae'n rhaid i ni sicrhau bod ein deddfwriaeth yn addas i'r diben a'n bod yn ei gael yn iawn.

**Y Gweinidog Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy (John Griffiths):** Dechreuaf drwy ddiolch i'r Aelodau am eu cyfraniadau at yr hyn sydd, yn ddi-os, yn ddadl bwysig, a chroesawaf hynny. Mae llawer o faterion wedi cael eu codi. Mae'n amlwg bod arnom angen system gynllunio sy'n addas i'r diben a all gyfrannu at ein ffyniant yn y dyfodol. Mae angen iddi allu cwrdd â'r buddiannau sy'n cystadlu â'i gilydd, sydd wedi cael eu crybwyll gan nifer o Aelodau: datblygu economaidd, tai, cludiant ac isadeiledd, lliniaru hinsawdd ac anghenion ynni a chapasiti. Mae'n rhaid iddo weithio i'r sector adeiladu a datblygwyr, a chynnal swyddi a thwf. Felly, gan gofio hynny i gyd, mae'n hawdd deall pam y mae Aelodau wedi codi nifer o faterion sy'n cyffwrdd ar bob un o'r rheiny. Mae hefyd yn dda gwybod bod llawer o waith yn cael ei wneud ar hyn o bryd gyda swyddogion Llywodraeth Cymru. Yn wir, mae llawer o waith ar y gweill—nid yn unig yn arwain i fyny at y ddeddfwriaeth, ond cyn hynny, o ran diwygio. Mae llawer o bethau y mae angen ymdrin â hwy.

Gallwn fod yn falch o'n prif ddogfen bolisi gynllunio, ‘Polisi Cynllunio Cymru’, y mae nifer yn ei barchu. Mae Aelodau wedi sôn am ba mor hir ydyw ac wedi gwneud cymhariaeth â'r hyn sy'n digwydd yn Lloegr o ran y gostyngiad i lawr i ryw 52 tudalen. Yr wyf yn cytuno â'r Aelodau hynny sy'n dweud ei bod yn bwysig sicrhau bod gennym eglurder digonol a sicrwydd o ran polisi cynllunio cenedlaethol yng Nghymru. Wrth

Obviously, there is a balance to be struck, and some of the work as we go forward will look at simplification, understandability and user-friendliness. However, all that has to be balanced with the necessary certainty and clarity. More than 20 organisations actively helped in the creation of ‘Planning Policy Wales’—organisations with diverse interests such as Wales Environment Link and the Confederation of British Industry. We have kept the policy up to date and relevant, and we will keep that approach in place as we move forward.

gwrs, mae cydbwysedd i’w daro, a bydd rhyw faint o’r gwaith wrth inni symud ymlaen yn edrych ar symleiddio, pa mor ddealladwy ydyw a phrofiad defnyddwyr. Fodd bynnag, mae’n rhaid cydbwys o’r cyfan gyda sicrwydd a’r eglurder angenreidiol. Mae dros 20 o sefydliadau wedi cymryd rhan yn y gwaith o greu ‘Polisi Cynllunio Cymru’—sefydliadau gyda diddordebau amrywiol fel Cyswllt Amgylchedd Cymru a Chydffederasiwn Diwydiant Prydain. Rydym wedi cadw’r polisi yn gyfredol ac yn berthnasol, a byddwn yn parhau i wneud hynny wrth inni symud ymlaen.

Members mention sustainable development and to what extent it shapes what happens. It is, of course, at the heart of our planning policy—both the local development plans and our national planning policy. It is at the heart of local planning here in Wales. We believe that a plan-led approach is essential if we are to have rational and consistent local planning decisions. This is why we have put in place a streamlined, single-tier local development plan system. These plans are underpinned by two key principles: community involvement, which many Members rightly mentioned, and evidence, which was also highlighted. Decisions cannot be based on short-term expediency, local election cycles or pressure from vested interests—established property interests or others. So, we have to guard against all of that in moving forward. Members also mentioned support for officers in the local planning authorities. We do provide support—with training, guidance, resource and technical expertise. That includes the Simpson review and the approach around collaboration and joint working, led by my colleague the Minister for Local Government and Communities.

Mae Aelodau wedi sôn am ddatblygu cynaliadwy ac i ba raddau y mae’n dylanwadu ar beth sy’n digwydd. Mae, wrth gwrs, wrth wraidd ein polisi cynllunio—o ran y cynlluniau datblygu lleol a’n polisi cynllunio cenedlaethol. Mae wrth wraidd cynllunio lleol yma yng Nghymru. Credwn fod arwain gyda chynllun yn hanfodol os ydym am gael penderfyniadau cynllunio lleol rhesymol a chyson. Dyna pam yr ydym wedi sefydlu system gynllun datblygu lleol sylach, sydd ag un haen. Mae’r cynlluniau hyn yn cael eu hategu gan ddwy egwyddor allweddol: cyfraniad y gymuned, a grybwyllywyd, yn iawn, gan nifer o Aelodau, a thystiolaeth, a amlygyd hefyd. Ni all penderfyniadau fod yn seiliedig ar hwylustod tymor byr, cylchoedd etholiad lleol neu bwysau gan fuddiannau breintiedig—buddiannau eiddo neu eraill. Felly, mae’n rhaid i ni warchod yn erbyn hynny i gyd wrth symud ymlaen. Soniodd Aelodau hefyd am gymorth ar gyfer swyddogion yr awdurdodau cynllunio lleol. Rydym yn darparu cefnogaeth—gyda hyfforddiant, arweiniad, adnoddau ac arbenigedd technegol. Mae hynny’n cynnwys adolygiad Simpson a’r dull o gwmpas cydweithredu a chydweithio, a arweinir gan fy nghyd-Aelod, y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau.

**Andrew R.T. Davies:** I have raised this issue with you previously, and other Members have raised it again today. In fairness, previous Governments in the Assembly have made quite substantial amounts of money available to local planning authorities for pre-application advice and help, but, sadly, in many local authorities, that has just disappeared into a bottomless pit and that

**Andrew R.T. Davies:** Yr wyf wedi codi’r mater hwn gyda chi o’r blaen, ac mae Aelodau eraill wedi ei godi eto heddiw. A bod yn deg, mae Llywodraethau blaenorol yn y Cynulliad wedi sicrhau bod symiau eithaf sylweddol o arian ar gael i awdurdodau cynllunio lleol ar gyfer cyngor cyn ymgeisio, ond, yn anffodus, mewn llawer o awdurdodau lleol, mae hynny wedi diflannu i bydew

pre-application advice is not available. Will you commit, as one of the new Ministers, to improve the availability of pre-application advice?

5.15 p.m.

**John Griffiths:** Having consulted over the summer, we will publish our guidance on pre-application advice towards the end of this year. I hope that that will be very useful.

I firmly believe that the planning system must become more agile, timely and consistent. Over recent years, we have seen a trend for the planning system to become affected by other policy agendas. The planning system is about regulating the development and use of land in the public interest. We must ensure that it retains that focus.

Members mentioned the spatial plan; we will be taking forward developments in relation to the spatial plan in conjunction with the natural environment framework and work on our infrastructure planning for waste, energy and water.

More can always be done to improve the planning system. Following the referendum, we now have primary legislative powers, which will be very important.

Timing is important, and we seek to get on with matters. However, as many Members have mentioned, it is very important to get it right. It is important that it is based on sound evidence. Therefore, we have to get the process right. We have set that out. The independent review that I announced last Friday will produce evidence, which will feed into the White Paper and the eventual legislation.

Russell George claimed that the Welsh Government responded to the fact of this debate by announcing this independent review, but I am afraid, Russell, that you overestimate the powers of the Welsh Conservatives and, indeed, the fleetness of foot of the Welsh Government. Although we show great speed on many occasions, I am

diwaelod, ac nid yw'r cyngor cyn ymgeisio hynny ar gael. A wnewch chi ymrwymo, fel un o'r Gweinidogion newydd, i wella argaeledd cyngor cyn ymgeisio?

**John Griffiths:** Wedi'r ymgynghori dros yr haf, byddwn yn cyhoeddi ein canllawiau ar gyngor cyn-ymgeisio tua diwedd eleni. Yr wyf yn gobeithio y bydd hynny'n ddefnyddiol iawn.

Credaf yn gryf fod yn rhaid i'r system gynllunio fod yn fwy ystwyth, amserol a chyson. Dros y blynnyddoedd diwethaf, yr ydym wedi gweld tuedd i'r system gynllunio gael ei heffeithio gan agendâu polisi eraill. Mae'r system gynllunio yn ymwneud â rheoleiddio datblygu a defnyddio tir er budd y cyhoedd. Rhaid inni sicrhau ei bod yn cadw'r ffocws hwnnw.

Crybwylodd Aelodau'r cynllun gofodol; byddwn yn bwrw ymlaen â datblygiadau mewn perthynas â'r cynllun gofodol ar y cyd â fframwaith yr amgylchedd naturiol ac yn gwneud ein gwaith cynllunio seilwaith ar gyfer gwastraff, ynni a dŵr.

Gellir bob amser gwneud mwy i wella'r system gynllunio. Yn dilyn y refferendwm, mae gennym bellach bwerau deddfu sylfaenol, a fydd yn bwysig iawn.

Mae amseru yn bwysig, ac yr ydym yn ceisio bwrw ymlaen â materion. Fodd bynnag, fel mae llawer o Aelodau wedi crybwyl, mae'n bwysig iawn bod popeth yn gywir ac yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn. Felly, rhaid inni sicrhau bod y broses yn iawn. Yr ydym wedi ei gosod allan. Bydd yr adolygiad annibynnol a gyhoeddais ddydd Gwener diwethaf yn cynhyrchu dystiolaeth, a fydd yn bwydo i mewn i'r Papur Gwyn a'r ddeddfwriaeth yn y pen draw.

Honnodd Russell George fod Llywodraeth Cymru wedi ymateb i fodolaeth y ddadl hon drwy gyhoeddi'r adolygiad annibynnol hwn, ond mae arnaf ofn, Russell, eich bod yn gorbrisio pwerau'r Ceidwadwyr Cymreig ac, yn wir, pa mor chwim yw Llywodraeth Cymru. Er ein bod yn dangos cyflymder mawr ar sawl achlysur, mae arnaf ofn na

afraid that it simply would not have been possible to have reacted that quickly in the way that you have suggested.

I will say a little about the independent advisory group. As Dafydd Elis-Thomas said, it will be chaired by John Davies, the former Welsh director of the Planning Inspectorate. He will bring a great deal of expertise to the table. We hope to have a call for evidence this autumn and for the report to be delivered by next May. Therefore, once again, we will be getting on with matters, collecting evidence and building consensus on future legislation. For those reasons, I cannot support the motion as tabled, or Peter Black's amendment 2. However, I urge Assembly Members to support amendment 1 tabled in the name of Jane Hutt.

Many Members have referred to what is taking place in England at the moment in relation to planning. We are very clear about sustainable development being at the heart of what we do in Wales. That is the case in relation to both local planning authorities and our national policy. I believe that there is some uncertainty regarding the approach in England. Some of that has been caused by the guidance being slimmed down to 52 pages or so, but also because there is not now a sequential approach that put brownfield sites first in England. We have retained that approach in Wales. Therefore, there is a great deal of anxiety in relation to the process in England, where the Government seems to be trying to steamroller through very important changes without proper scrutiny or debate, and that has also caused uncertainty.

I will conclude by mentioning that there seems to be a change of direction for the Welsh Conservatives under the leadership of Andrew Davies, which is perhaps illustrated by this debate. We have heard quite often that we, in Wales, should be emulating, in an unthinking way, what is happening in England. When you look at what has been said today and what has been said in this debate, it amounts to 'For Wales, see England'. That is not the approach of the Welsh Government.

fyddai wedi bod yn bosibl inni ymateb mor gyflym yn y ffordd y gwnaethoch awgrymu.

Dywedaf ychydig am y grŵp cyngori annibynnol. Fel y dywedodd Dafydd Elis-Thomas, caiff ei gadeirio gan John Davies, cyn-gyfarwyddwr Cymreig yr Arolygiaeth Gynllunio. Bydd yn dod â llawer o arbenigedd at y gwaith. Yr ydym yn gobeithio galw am dystiolaeth yr hydref hwn a chyflwyno'r adroddiad erbyn mis Mai nesaf. Felly, unwaith eto, byddwn yn bwrw ymlaen â materion, yn casglu dystiolaeth ac yn adeiladu consensws ar ddeddfwriaeth yn y dyfodol. Am y rhesymau hynny, ni allaf gefnogi'r cynnig fel y'i cyflwynwyd, neu welliant 2 Peter Black. Fodd bynnag, yr wyf yn annog Aelodau'r Cynulliad i gefnogi gwelliant 1 a gyflwynwyd yn enw Jane Hutt.

Mae llawer o Aelodau wedi cyfeirio at yr hyn sy'n digwydd yn Lloegr ar hyn o bryd parthed cynllunio. Yr ydym yn glir iawn bod datblygu cynaliadwy wrth wraidd yr hyn a wnawn yng Nghymru. Felly y mae hi mewn perthynas ag awdurdodau cynllunio lleol a'n polisi cenedlaethol. Yr wyf yn credu bod peth ansicrwydd ynglŷn â'r dull gweithredu yn Lloegr. Achoswyd rhan o hynny gan docio'r canllawiau i ryw 52 tudalen, ond hefyd am nad oes bellach ddull dilyniannol sy'n rhoi safleoedd tir llwyd yn gyntaf yn Lloegr. Yr ydym wedi cadw'r dull gweithredu hwnnw yng Nghymru. Felly, mae llawer iawn o bryder o ran y broses yn Lloegr, lle mae'n ymddangos bod y Llywodraeth yn ceisio gorfodi newidiadau pwysig iawn heb graffu neu ddadl briodol, ac mae hynny hefyd wedi achosi ansicrwydd.

Yr wyf am gloi gan ddweud ei bod yn ymddangos fel bod newid cyfeiriad yn hanes y Ceidwadwyr Cymreig dan arweiniad Andrew Davies, sydd efallai yn cael ei ddangos gan y ddadl hon. Yr ydym wedi clywed yn aml iawn y dylem ni yng Nghymru efelychu, mewn ffordd ddifeddwl, yr hyn sy'n digwydd yn Lloegr. Pan edrychwch ar yr hyn a ddywedwyd heddiw a'r hyn a ddywedwyd yn y ddadl hon, mae'n gyfystyr â dweud 'Am Gymru, gweler Lloegr'. Nid dyna agwedd Llywodraeth Cymru.

**Darren Millar:** I am pleased to conclude this debate this afternoon. For the most part, it has been a well-informed and intelligent debate, and there has been a great deal of consensus across the Chamber. There is certainly consensus that things need to change and that the planning system is in need of significant overhaul. I say to the Minister that we are not interested in a cut-and-paste version of planning policy in England being applied to Wales—we have never said that. We want something that is made in Wales, and we recognise that that should always be the case. That is why you will notice that our recent manifesto for the Assembly elections was significantly different from our manifesto for the UK elections.

I welcome the Minister's pre-emptive strike in his announcement last week of the independent advisory group. I welcome the fact that he wants to see simplification of the planning system, and that he referred to the need to balance the competing priorities that exist. However, sticking to the current timescales is not acceptable in these current difficult economic times, which are due to the legacy that his party left us in Government.

Turning to some of the comments made by other speakers during the debate, Russell George made reference to the fact that we need a radical reboot of our planning system, and that we need it now. We cannot tweak around the edges for another three years before we see real change delivered on the ground to support the economic growth strategy that this Government wants to pursue.

William Powell quite rightly made a point about the inconsistent approach in the Government's regionalisation agenda, whereby we have different boundaries for all sorts of different purposes across Wales. That will make it difficult to get people to work together in a coherent way.

Angela Burns referred to the many reports that have been produced over the years regarding the planning system in Wales, and the compelling need for change, as stated in the GVA Grimley report published in March 2010, and the report of the former

**Darren Millar:** Yr wyf yn falch i glo'i'r ddadl hon y prynhawn yma. Ar y cyfan, mae wedi bod yn ddadl wybodus a deallus, a bu llawer iawn o gonsensws ar draws y Siambra. Yn sicr, mae consensws bod angen i bethau newid a bod ar y system gynllunio angen gweddnewid sylweddol. Weinidog, nid oes diddordeb gennym dorri a gludo polisi cynllunio Lloegr a'i roi ar waith yng Nghymru—nid ydym erioed wedi dweud hynny. Yr ydym eisiau rhywbeth sy'n cael ei wneud yng Nghymru, ac yr ydym yn cydnabod y dylai hynny bob amser fod yn wir. Dyna pam y byddwch yn sylwi yr oedd ein maniffesto diweddar ar gyfer etholiadau'r Cynulliad yn sylweddol wahanol i'n maniffesto ar gyfer etholiadau'r DU.

Yr wyf yn croesawu rhagmosodiad y Gweinidog yn ei gyhoeddiad yr wythnos diwethaf am y grŵp cyngori annibynnol. Croesawaf y ffaith ei fod am weld symleiddio ar y system gynllunio ac y cyfeiriodd at yr angen i gydbwyso'r blaenoriaethau cystadleuol sy'n bodoli. Fodd bynnag, nid yw cadw at yr amserlenni presennol yn dderbyniol yn y cyfnod economaidd anodd hwn, sydd yn ganlyniad i'r etifeddiaeth a adawodd ei blaids inni yn y Llywodraeth.

Gan droi at rai o'r sylwadau a wnaed gan siaradwyr eraill yn ystod y ddadl, cyfeiriodd Russell George at y ffaith fod arnom angen ailgychwyn ein system gynllunio yn radical, a bod arnom ei angen yn awr. Ni allwn gwneud newidiadau bach, ymylol am dair blynedd arall cyn inni weld newid gwirioneddol ar lawr gwlad i gefnogi'r strategaeth o dwf economaidd y mae'r Llywodraeth hon yn awyddus i roi ar waith.

Gwnaeth William Powell bwynt cwbl briodol am yr ymagwedd anghyson yn agenda rhanbartholi'r Llywodraeth, lle mae gennym ffiniau gwahanol ar gyfer pob math o wahanol ddibenion ar draws Cymru. Bydd hynny'n ei gwneud yn anodd i gael pobl i weithio gyda'i gilydd mewn ffordd gydlynol.

Cyfeiriodd Angela Burns at yr adroddiadau niferus sydd wedi cael eu cynhyrchu dros y blynnyddoedd ynghylch y system gynllunio yng Nghymru, a'r angen dybryd am newid, fel y nodwyd yn yr adroddiad GVA Grimley a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2010, ac

Sustainability Committee, which received cross-party support in this Assembly. Those reports have made the case for change; we do not need more evidence for the case for change, which is what the Minister is looking for. What we need to do is to get on with it and deliver the changes that we so desperately need. Angela also referred to the profit culture that exists within the planning system, and it is regrettable that, under successive Labour-led administrations in this Assembly, we have seen the fee regime for planning purposes in local government change from nominal fees for planning applications to cost recovery models. It has become a bit of a cash cow, frankly, and that should not be allowed to be the case. Perhaps you can look at that as a matter of urgency, Minister, particularly given that when businesses are looking to invest in Wales they see this as a barrier.

Julie James missed the point in our reference to the need to simplify the guidance. This is about removing the shackles on local authorities and local communities in the existing planning guidance. If you free them from too restrictive guidance, it allows for some local discretion and a greater voice for the local community in the planning process. That is the point that we are trying to make, Julie; it is not about wanting to simplify for the sake of it—it is about wanting to give power back to people in their communities, which is something that we passionately believe in as Conservatives. Obviously, your party does not.

Janet Finch-Saunders referred to the controversy surrounding the Conwy local development plan, which has also been seen with local development plans in other parts of the country, such as Denbighshire.

I have to take issue with Vaughan Gething's assessment that the public is not interested in the planning process. If you go up to Conwy and Denbighshire, you will find many thousands of people who are interested in the planning process, particularly when it comes to the development of local development plans. So, I do not accept that the public is not interested in this important issue.

adroddiad y cyn-Bwyllgor Cynaliadwyedd, a gefnogwyd gan bob plaid yn y Cynulliad hwn. Mae'r adroddiadau hynny wedi gwneud yr achos dros newid; nid oes angen mwy o dystiolaeth ar yr achos dros newid, sef yr hyn y mae'r Gweinidog yn chwilio amdano. Yr hyn sydd angen inni ei wneud yw bwrw ati a chyflwyno'r newidiadau yr ydym eu hangen mor daer. Cyfeiriodd Angela hefyd at y diwylliant elw sy'n bodoli o fewn y system gynllunio, ac mae'n anffodus, o dan weinyddiaethau olynol dan arweiniad Llafur yn y Cynulliad hwn, ein bod wedi gweld y gyfundrefn ffioedd at ddibenion cynllunio mewn llywodraeth leol yn newid o fod yn ffioedd mewn enw ar gyfer ceisiadau cynllunio i fodelau adennill costau. Mae wedi dod yn dipyn o ffynhonnell arian, a dweud y gwir, ac ni ddylid caniatáu hynny. Efallai y gallwch edrych ar hynny ar frys, Weinidog, yn enwedig o gofio pan fydd busnesau yn ystyried buddsoddi yng Nghymru eu bod yn gweld hyn fel rhwystri.

Methodd Julie James yr ergyd yn ein cyfeiriad at yr angen am symleiddio'r canllawiau. Mae hyn yn ymwned â chael gwared ar yr hualau ar awdurdodau lleol a chymunedau lleol yn y canllawiau cynllunio presennol. Os byddwch yn eu rhyddhau o ganllawiau rhy gyfyng, caniateir rhywfaint o ddisgresiwn lleol a mwy o lais gan y gymuned leol yn y broses gynllunio. Dyna'r pwyt yr ydym yn ceisio'i wneud, Julie; nid dynuniad i symleiddio er ei fwyn ei hun ydyw, ond dynuniad i roi'r pŵer yn ôl i bobl yn eu cymunedau, sy'n rhywbeth yr ydym yn credu'n angerddol ynddo fel Ceidwadwyr. Yn amlwg, nid yw eich plaid yn gwneud.

Cyfeiriodd Janet Finch-Saunders at y ddadl am gynllun datblygu lleol Conwy, sydd hefyd wedi bod yn amlwg gyda chynlluniau datblygu lleol mewn rhannau eraill o'r wlad, megis sir Ddinbych.

Rhaid i mi anghytuno ag asesiad Vaughan Gething nad oes gan y cyhoedd ddiddordeb yn y broses gynllunio. Os ewch i fyny i Gonwy a sir Ddinbych, byddwch yn dod o hyd i filoedd o bobl sydd â diddordeb yn y broses gynllunio, yn enwedig pan ddaw i ddatblygu cynlluniau datblygu lleol. Felly, nid wyf yn derbyn nad oes gan y cyhoedd ddiddordeb yn y mater pwysig hwn.

**Ann Jones:** As you have mentioned Denbighshire's local development plan, do you agree that many people from other areas have been given the wrong information and so have campaigned against its local development plan? Some of the language used has been very upsetting for people who live in Bodelwyddan.

**Darren Millar:** I understand that there is sometimes misinformation put about when it comes to local development plans. However, the point is that the public is interested in them.

It does not surprise me that Lord Elis-Thomas wants to support the Government, and that there is a complacent attitude to the need for change in Wales as far as our planning system is concerned. We want to see growth and change now, not in many years' time.

**Lord Elis-Thomas** *rose—*

**Darren Millar:** I am sorry, but I will not take an intervention, as I am coming to the end of my speech. [ASSEMBLY MEMBERS: 'Oh.'] Paul Davies referred to the need to protect town centres. We have all walked in town centres around the country and been dismayed at the increase in the number of empty premises. That also needs to change, so let us hope that we will see some change on that front.

I will conclude by saying this: among the issues that we have not touched upon that the Government might like to consider, are the policies in place for flood protection in Wales. Also, one lesson that we need to learn from England is on the increased use of referenda when it comes to some of the more controversial planning applications that might be made. The Government might be able to take that on board.

**The Deputy Presiding Officer:** The proposal is that the motion be agreed without amendment. Is there any objection? I see that there is. Therefore, voting on this item will be deferred until voting time.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

**Ann Jones:** Gan eich bod wedi crybwyllynllun datblygu lleol sir Ddinbych, a ydych yn cytuno bod llawer o bobl o ardaloedd eraill wedi cael y wybodaeth anghywir ac felly wedi ymgyrchu yn erbyn ei gynllun datblygu lleol? Mae peth o'r iaith a ddefnyddiwyd wedi peri cryn ofid i drigolion Bodelwyddan.

**Darren Millar:** Yr wyf yn deall weithiau y lledaenir gwybodaeth anghywir ynghylch cynlluniau datblygu lleol. Fodd bynnag, y pwnt yw bod y cyhoedd yn ymddiddori ynddynt.

Nid yw'n fy synnu bod yr Arglwydd Elis-Thomas yn awyddus i gefnogi'r Llywodraeth, a bod agwedd hunanfodlon am yr angen am newid yng Nghymru cyn belled ag y mae ein system gynllunio yn y cwestiwn. Yr ydym am weld twf a newid yn awr, nid ymhen blynnyddoedd lawer.

**Lord Elis-Thomas** *a gododd—*

**Darren Millar:** Mae'n ddrwg gennyd, ond nid wyf am dderbyn ymyriad, gan fy mod yn dod i ddiwedd fy arraith. [AELODAU'R CYNULLIAD: 'O.'] Cyfeiriodd Paul Davies at yr angen i amddiffyn canol trefi. Yr ydym i gyd wedi cerdded yng nghanol trefi o amgylch y wlad ac yn gresynu at y cynnydd yn y nifer o eiddo gwag. Mae angen i hynny hefyd newid, felly gadewch inni obeithio y gwelwn rywfaint o newid yn y maes hwnnw.

Yr wyf am gloi drwy ddweud hyn: ymhlihyd y materion nad ydym wedi crybwyllynllun datblygu lleol sir Ddinbych eu hystyried yw'r polisiau ar waith ar gyfer amddiffyn rhag lliifogydd yng Nghymru. Yn ogystal, un wers y mae angen inni ei dysgu o Loegr yw'r defnydd cynyddol o refferenda pan ddaw i rai o'r ceisiadau cynllunio mwy dadleuol a allai gael eu gwneud. Efallai y gall y Llywodraeth ystyried hynny.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cynnig yw bod y cynnig yn cael ei gytuno heb ei ddiwygio. A oes unrhyw wrthwynebiad? Gwelaf fod gwrthwynebiad. Felly, caiff y bleidlais ar yr eitem hon ei gohirio tan y cyfnod pleidleisio.

*Voting deferred until voting time.*

**Dadl Plaid Cymru**  
**Plaid Cymru Debate**

**Y Rhaglen Lywodraethu**  
**The Programme for Government**

**The Deputy Presiding Officer:** I have selected amendment 1 in the name of Jane Hutt, amendments 2, 5, 6 and 7 in the name of William Graham and amendments 3 and 4 in the name of Peter Black.

*Cynnig NDM4818 Jocelyn Davies*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*1. Yn gresynu at ddiffyg manylion a thargedau ystyrlon yn y Rhaglen Lywodraethu: a*

*2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod ei Rhaglen yn canolbwytio ar y sialensiau y bydd yr economi yn eu hwynebu dros yr ychydig flynyddoedd nesaf.*

**Alun Ffred Jones:** Cynigiaf y cynnig.

Yr wyf yn falch iawn o gael cyflwyno'r cynnig hwn.

These are difficult times. Public spending is being slashed by the coalition Government in London. The Government in Wales has no means to vary or raise taxes, because of the inadequate settlement. Any governing party in the National Assembly would inevitably face difficult decisions in such circumstances. The programme for government that was revealed last week is a rerun of the Labour manifesto—no surprises there. However, the global context has changed. It has changed dramatically since all our manifestos were created. Billions of pounds have been wiped off the value of shares in London. A Belgian-French bank teetered on the brink of collapse yesterday. There is panic on the streets of Athens and on Wall Street, and the UK construction sector seems to be heading for recession as public sector projects dry up. According to the president of the European Central Bank, we are experiencing the worst

**Y Dirprwy Lywydd:** Yr wyf wedi dethol gwelliant 1 yn enw Jane Hutt, gwelliannau 2, 5, 6 a 7 yn enw William Graham a gwelliannau 3 a 4 yn enw Peter Black.

*Motion NDM4818 Jocelyn Davies*

*To propose that the National Assembly for Wales:*

*1. Regrets the lack of meaningful targets and detail contained in the Programme for Government: and*

*2. Calls on the Welsh Government to ensure that its Programme focuses on the challenges which the economy will face during the next few years.*

**Alun Ffred Jones:** I move the motion.

I am very pleased to present this motion.

Mae hwn yn gyfnod anodd. Mae gwariant cyhoeddus yn cael ei dorri gan y Llywodraeth glynblaid yn Llundain. Nid oes gan y Llywodraeth yng Nghymru ffordd i amrywio neu godi trethi, oherwydd y setliad annigonol. Byddai unrhyw blaidd lywodraethol yn y Cynulliad Cenedlaethol yn anochel yn wynebu penderfyniadau anodd mewn amgylchiadau o'r fath. Mae'r rhaglen lywodraethu a ddatgelwyd yr wythnos diwethaf yn ail-redeg maniffesto Llafur—nid yw hynny'n annisgwyl. Fodd bynnag, mae'r cyd-destun byd-eang wedi newid. Mae wedi newid yn ddramatig ers crëwyd pob un o'n maniffestos. Mae biliynau o bunnoedd wedi cael eu dileu oddi ar werth cyfranddaliadau yn Llundain. Yr oedd banc o Wlad Belg a Ffrainc ar fin mynd i'r wal ddoe. Mae panig ar strydoedd Athen ac ar Wall Street, ac ymddengys fod sector adeiladu'r DU yn mynd ar ei ben am ddirwasgiad wrth i

crisis since the second world war, and the UK's second-quarter growth figures have been revised downwards to an alarming level today.

brosiectau sector cyhoeddus ddiflannu. Yn ôl llywydd Banc Canolog Ewrop, yr ydym yn profi'r argyfwng gwaethaf ers yr ail ryfel byd, ac mae ffigurau twf ail chwarter y DU heddiw wedi cael eu diwygio am i lawr i lefel frawychus.

However, we do not need to look elsewhere to realise the gravity of the situation. The high rate of unemployment among young people in Wales, many of them graduates, and the struggling businesses in our communities, are a daily reminder of these dire days. If the Welsh economy is not in recession, it is not far from it. The question that we in Plaid Cymru are asking today is whether this programme for government is an adequate response to the daunting challenges ahead. I fear that the answer is 'no'. It smacks of business as usual; it is far too timid and vague. It will come as a disappointment to all the people and businesses looking to the Government to stand up for Wales during these times of economic crisis.

Fodd bynnag, nid oes angen i ni edrych rhywle arall i sylweddoli difrifoldeb y sefyllfa. Mae'r gyfradd uchel o ddiweithdra ymhlih pobl ifanc yng Nghymru, llawer ohonynt yn raddedigion, a'r busnesau sydd yn eu cael hi'n anodd yn ein cymunedau yn ein hatgoffa yn ddyddiol o'r dyddiau enbyd hyn. Os nad yw economi Cymru mewn dirwasgiad, nid yw'n bell ohoni. Y cwestiwn yr ydym ym Mhlaid Cymru yn ei ofyn heddiw yw a yw'r rhaglen llywodraethu hon yn ymateb digonol i'r sialensiau dychrynllyd o'n blaenau. Ofnaf mai 'na' yw'r ateb. Mae'n sawru o fusnes fel arfer; mae'n llawer rhy ofnus ac amwys. Bydd yn peri siom i'r holl bobl a busnesau sydd yn disgwyl i'r Llywodraeth sefyll dros Gymru yn ystod y cyfnod hwn o argyfwng economaidd.

The introduction to chapter 1, 'Growth and Sustainable Jobs', says that it wants to set out

Mae'r cyflwyniad i bennod 1, 'Twf a Swyddi Cynaliadwy', yn dweud ei bod am amlinellu

'a clear and realistic role for the Welsh Government... As a devolved government, we are only able to impact significantly on the Welsh economy in the longer-term.'

'rôl glir a realistic i Lywodraeth Cymru... Fel llywodraeth ddatganoledig, dim ond yn y tymor hir y gallwn gael effaith sylweddol ar economi Cymru.'

I wonder how long that 'longer term' is. It smacks of waving the white flag even before entering the fray.

Tybed pa mor hir yw'r 'tymor hir' hwnnw. Mae'n sawru o chwifio baner wen cyn hyd yn oed mynd i mewn i'r gad.

The programme was described by the First Minister as 'a fresh approach' and as a 'road map'. I am afraid that it is more of the same, and I would contend that, after four months, the Government should have produced a document containing far more detailed and measurable outcomes. After all, a road map tells you exactly how to get from A to B, and possibly on to C. It tells you how many miles you have to travel and much more. According to the First Minister all that this does or is intended to do is

Cafodd y rhaglen ei ddisgrifio gan y Prif Weinidog fel 'ymagwedd o'r newydd' ac fel 'map ffordd'. Ofnaf ei bod yn fwy o'r un peth, a byddwn yn dadlau, ar ôl pedwar mis, y dylai'r Llywodraeth fod wedi cynhyrchu dogfen yn cynnwys canlyniadau llawer mwy manwl a mesuradwy. Wedi'r cyfan, mae map ffordd yn dweud wrthych yn union sut i fynd o A i B, ac, o bosibl, ymlaen i C. Mae'n dweud wrthych faint o filftiroedd sydd yn rhaid ichi deithio a llawer mwy. Yn ôl y Prif Weinidog, y cyfan a wna hyn, neu'r cyfan y bwriedir iddo ei wneud yw

'to steer the Government machine in the right direction.'

'i lywio peiriant y Llywodraeth yn y cyfeiriad cywir.'

That sounds a bit like the spatial plan, which we heard about recently, which is still trying to find a meaningful role while eating up time, effort and money to little effect.

The First Minister stated that Labour would not be a ‘strategy factory’. Those are his words; it is a laudable aim, and I applaud it. However, the programme aims to create six new strategies, two new action plans, four new frameworks and three new plans. That is on top of the 16 existing strategies, the six existing frameworks and the 12 existing plans that the programme for government says that Labour will continue to implement.

5.30 p.m.

The First Minister also made a statement prior to the publication of the programme that he wanted the public to be able to judge the success or otherwise of the Government; the most obvious way of doing that would be to set out clear aims and measurable targets. What do we get? Among the indicators, there are 97 instances where a percentage sign appears without a figure next to it, and just five instances where a percentage sign appears with a figure. How anyone will be able to assess the Government’s performance objectively is beyond me. We must assume that this is a deliberate ploy to avoid the unfortunate fate of the gross domestic product target of 90 per cent of the UK average set by the then First Minister at the beginning of the original European programme.

The greatest failure of the programme for Government is the absence of any understanding of the economic storm raging around us. Professor Brian Morgan, in a recent article, said that

‘Potentially the biggest economic driver is increased capital investment in transport and the built environment’.

He went on to mention social housing, energy, integrated transport networks, broadband and renewable energy investment as opportunities to lever in private finance,

Mae hynny’n swnio ychydig fel y cynllun gofodol, y clywsom amdano yn ddiweddar, sydd yn dal i geisio dod o hyd i'r rôl ystyrlon wrth lowcio amser, ymdrech ac arian heb fawr o effaith.

Dyweddodd y Prif Weinidog na fyddai Llafur yn ffatri strategaeth. Dyna ei eiriau ef; mae'n nod canmoladwy, a chymeradwyaf hynny. Fodd bynnag, mae'r rhaglen yn bwriadu creu chwe strategaeth newydd, dau gynllun gweithredu newydd, pedwar fframwaith newydd a thri chynllun newydd. Mae hynny ar ben yr 16 strategaeth gyfredol, y chwe fframwaith presennol a'r 12 cynllun presennol y mae'r rhaglen llywodraethu yn dweud y bydd Llafur yn parhau i'w gweithredu.

Gwnaeth y Prif Weinidog hefyd ddatganiad cyn cyhoeddi'r rhaglen ei fod eisiau i'r cyhoedd allu barnu llwyddiant neu fethiant y Llywodraeth; y ffordd amlycaf o wneud hynny fyddai gosod nodau clir a thargedau mesuradwy. Beth ydym yn ei gael? Ymhlieth y dangosyddion, mae 97 o achosion lle mae arwydd canran yn ymddangos heb ffigwr wrth ei ymyl, a dim ond pum achos lle mae arwydd canran yn ymddangos gyda ffigur. Sut y bydd unrhyw un yn gallu asesu perfformiad y Llywodraeth yn wrthrychol, nid wyf yn gwybod. Mae'n rhaid i ni gymryd yn ganiataol bod hyn yn ddysais bwriadol i osgoi tynged anffodus y targed cynnrych mewnwladol crynswth o 90 y cant o gyfartaedd y Deyrnas Unedig a osodwyd gan y Prif Weinidog ar y pryd ar ddechrau'r rhaglen Ewropeaidd wreiddiol.

Methiant mwyaf y rhaglen llywodraethu yw absenoldeb unrhyw ddealltwriaeth o'r storom economaidd gynddeiriog o'n cwmpas. Mewn erthygl diweddar, dywedodd yr Athro Brian Morgan,

O bosib, y sbardun economaidd mwyaf yw mwy o fuddsoddi cyfalaf mewn trafnidiaeth a'r amgylchedd adeiledig.

Aeth ymlaen i sôn am dai cymdeithasol, ynni, rhwydweithiau trafnidiaeth integredig, band eang a buddsoddiad ynni adnewyddadwy fel cyfleoedd i ddenu cyllid preifat, rhoi hwb i'r

boost the economy and deliver real improvements in many areas. Unfortunately, transport has been taken away from the business portfolio; a baffling move by the First Minister.

I acknowledge that there was a general commitment in the budget statement yesterday to explore all potential mechanisms for levering in additional investment. However, we would have been far more convinced if that was at the core of the programme for government and included firm commitments. Considering the importance of small and medium-sized enterprises to the economy in Wales, the absence of any specific reference to them in the document is a glaring omission. Of course, there are good things in the programme: schemes that we will support with enthusiasm. There are longer-term projects, such as the review of the planning policy—which we have just been discussing—and we will contribute to the development of that new planning policy. However, we are deeply concerned that the programme does not address the immediate economic storm that is upon us, and the lack of measurable outcomes suggests that the Government lacks confidence in its own programme. That is a real worry.

*Gwelliant 1 Jane Hutt*

*Dileu pwynt 1) a rhoi yn ei le:*

*'Yn nodi'r Rhaglen Lywodraethu a'r angen i allu mesur sut y gweithredir polisi'r Llywodraeth'; a*

**The First Minister:** I move amendment 1 in the name of Jane Hutt.

*Gwelliant 2 William Graham*

*Ychwanegu fel pwynt 1 newydd ac ail-rifo'r pwyntiau sy'n dilyn:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddiwygio ei Rhaglen Lywodraethu i fynd i'r afael â'r sialensiau economaidd a chymdeithasol sy'n wynebu pobl Cymru.*

*Gwelliant 5 William Graham*

economi a sicrhau gwelliannau gwirioneddol mewn llawer o feysydd. Yn anffodus, mae trafnidiaeth wedi cael ei gymryd i ffwrdd oddi wrth y portffolio busnes; symudiad annealladwy gan y Prif Weinidog.

Yr wyf yn cydnabod bod yna ymrwymiad cyffredinol yn y datganiad cyllideb ddoe i archwilio'r holl fecanweithiau posibl i ddenu buddsoddiad ychwanegol i mewn. Fodd bynnag, byddem wedi cael ein hargyhoeddi lawer yn fwy petai hynny wedi bod wrth wraidd y rhaglen lywodraethu a'i fod yn cynnwys ymrwymiadau pendant. O ystyried pwysigrwydd busnesau bach a chanolig i'r economi yng Nghymru, mae absenoldeb unrhyw gyfeiriad penodol atynt yn y ddogfen yn ddiffyg amlwg. Wrth gwrs, mae yna bethau da yn y rhaglen: cynlluniau y byddwn yn eu cefnogi â brwd frydedd. Mae yna brosiectau tymor hwy, megis yr adolygiad o'r polisi cynllunio—yr ydym newydd fod yn ei drafod—a byddwn yn cyfrannu at y gwaith o ddatblygu'r polisi cynllunio newydd hwnnw. Fodd bynnag, rydym yn bryderus iawn nad yw'r rhaglen yn mynd i'r afael â'r storom economaidd uniongyrchol sydd ar ein pennau, ac y mae'r prinder o ganlyniadau mesuradwy yn awgrymu bod y Llywodraeth yn brin o hyder yn ei rhaglen ei hun. Mae hynny'n bryder go iawn.

*Amendment 1 Jane Hutt*

*Delete point 1) and replace with:*

*'Notes the Programme for Government and the need for measurable delivery when it comes to implementing Government policy'; and*

**Y Prif Weinidog:** Cynigiaf welliant 1 yn enw Jane Hutt.

*Amendment 2 William Graham*

*Add as new point 1 and renumber accordingly:*

*Calls on the Welsh Government to revise its Programme for Government to address the economic and social challenges facing the people of Wales.*

*Amendment 5 William Graham*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:* Add as new point at end of motion:

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ailgyhoeddi ei Rhaglen Lywodraethu er mwyn cynnwys targedau a chanlyniadau mesuradwy.* Calls for the Welsh Government to republish its Programme for Government to include measurable targets and outcomes.

*Gwelliant 6 William Graham*

*Amendment 6 William Graham*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:* Add as new point at end of motion:

*Yn gresynu wrth fethiant Llywodraeth Cymru i bennu, yn y Rhaglen Lywodraethu, fesurau i godi perfformiad Gwerth Ychwanegol Crynswth Cymru erbyn 2015.* Regrets the Welsh Government's failure to specify, within the Programme for Government, measures to raise the performance of Wales' Gross Value Added by 2015.

*Gwelliant 7 William Graham*

*Amendment 7 William Graham*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:* Add as new point at end of motion:

*Yn credu y dylai'r Rhaglen Lywodraethu gynnwys rhaglen gynhwysfawr o ryddhad ardrethi busnes sef yr ymyriad polisi gorau i hybu cyflogaeth a buddsoddiad yn y sector preifat ac y gellid cyflwyno ymyriad o'r fath ar unwaith heb yr angen am adolygiad pellach.*

*Believes the Programme for Government should include a comprehensive programme of business rate relief as the best policy intervention to encourage private sector investment and employment and that such an intervention could be introduced immediately without the need for a further review.*

**Andrew R.T. Davies:** I move amendments 2, 5, 6 and 7 in the name of William Graham.

**Andrew R.T. Davies:** Cynigiaf welliannau 2, 5, 6 a 7 yn enw William Graham.

I thank Plaid Cymru for tabling this debate. The First Minister promised to make delivery the mantra of the Welsh Labour Government for the next five years, but on the basis of its record over the last 12 years, can we really trust Labour to deliver? More than a decade into devolution, Wales is now the poorest part of the United Kingdom, propping up many of the league tables instead of leading from the front—as we on this side of the Chamber know that Wales can, with the right direction.

Yr wyf yn diolch i Blaid Cymru am gyflwyno'r ddadl hon. Addawodd y Prif Weinidog ddarparu mantra Llywodraeth Lafur Cymru ar gyfer y pum mlynedd nesaf, ond ar sail ei record dros y 12 mlynedd diwethaf, a allwn ni wir ymddiried yn y Blaid Lafur i gyflawni? Fwy na degawd i mewn i ddatganoli, Cymru bellach yw rhan dlotaf y Deyrnas Unedig, lle mae'n cynnal llawer o'r tablau cynghrair yn lle arwain o'r tu blaen—fel y gwyddom ni, ar yr ochr hon i'r Siambr, y gall Cymru ei wneud, gyda'r cyfeiriad cywir.

In general, it is difficult to disagree with much of what is promised in this document. There is enough motherhood and apple pie for everyone here, and plenty more besides for the interest groups and lobbyists. However, there is precious little in this

Yn gyffredinol, mae'n anodd anghytuno â llawer o'r hyn a addawyd yn y ddogfen hon. Mae yna ddigon i bawb gytuno arno yma, a llawer mwy ar gyfer y grwpiau buddiant a lobiwyr. Fodd bynnag, ychydig sydd yn y ddogfen hon i ddangos bod Llywodraeth

document to show that the Welsh Government knows what success ought to look like. There are no strict timescales or targets by which to gauge progress, which leaves this programme for government lacking a clear sense of purpose and direction. The First Minister has promised to report back annually on progress, so that people can see what his Government has delivered. However, the Welsh Government will not be publishing its first annual report until May 2012, which will make the first meaningful comparisons impossible until the following year. Surely, if the First Minister had any confidence in his Government's performance, he would have released figures for this year along with the document. As it stands, it appears that we are expected to defer judgment for two years. That is why we are calling on the Welsh Government to republish this document and include clear targets, timescales and expected outcomes.

We have already identified the areas that Welsh Conservatives would have prioritised: health, the economy and education. The Welsh Government had an opportunity to strengthen these areas and deliver a confident and ambitious programme for Wales. Instead, we have been given an extensive, 56-page document that somehow manages to say almost nothing. As so often with the Welsh Government, the end is rhetoric, not results; dithering, not delivery. Belated progress over enterprise zones was a welcome inclusion within the programme, but long overdue. The UK Government announced its proposals in March, and the Welsh Government appears to have sat on its hands before unveiling a policy that contained little by the way of detail or substance. With the Welsh Government having chosen to focus on a range of trophy sectors, it is vital that it brings forward other policies to ensure that other scales and types of businesses can also prosper. Where, for example, is the Welsh Government support for the retail sector, in what was once famously referred to as a nation of shopkeepers? It is disappointing, therefore, that the Government has missed this opportunity to introduce a comprehensive programme of business rate relief to stimulate growth and enterprise—this is what amendments 6 and 7 in the name of William Graham seek to address. That

Cymru yn gwybod beth y dylai llwyddiant edrych fel. Nid oes amserlen neu dargedau llym ar gyfer mesur cynnydd, sy'n golygu bod y rhaglen lywodraethu heb ymdeimlad clir o bwrpas a chyfeiriad. Mae'r Prif Weinidog wedi addo adrodd yn ôl yn flynyddol ar gynnydd, fel y gall pobl weld beth y mae ei Lywodraeth wedi ei gyflawni. Fodd bynnag, ni fydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ei hadroddiad blynnyddol cyntaf tan fis Mai 2012, a fydd yn peri i'r cymariaethau ystyrlon cyntaf fod yn amhosibl tan y flwyddyn ganlynol. Yn sicr, petai gan y Prif Weinidog unrhyw hyder ym mherfformiad ei Lywodraeth, byddai wedi rhyddhau ffigurau ar gyfer eleni law yn llaw â'r ddogfen. Ar hyn o bryd, mae'n ymddangos bod disgwyl i ni ohirio dyfarniad am ddwy flynedd. Dyna pam yr ydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i ailgyhoeddi'r ddogfen hon a chynnwys targedau clir, amserlenni a chanlyniadau disgwyliedig.

Rydym eisoes wedi nodi'r meysydd y byddai'r Ceidwadwyr Cymreig wedi rhoi blaenoriaeth iddynt: iechyd, yr economi ac addysg. Cafodd Llywodraeth Cymru gyfle i gryfhau'r meysydd hyn a chyflwyno rhaglen hyderus ac uchelgeisiol i Gymru. Yn lle hynny, yr ydym wedi cael dogfen helaeth 56 tudalen sydd, rywsut, yn llwyddo i ddweud bron dim byd. Fel ag y mae yn aml gyda Llywodraeth Cymru, rhethreg yw'r diwedd, nid canlyniadau; cloffi, nid cyflwyno. Yr oedd y datblygiad hwyr gyda'r parthau menter i'w groesawu fel rhan o'r rhaglen, ond bu'n hir a hwyr yn dod. Cyhoeddodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig ei chynigion ym mis Mawrth, ac ymddengys bod y Llywodraeth Cymru wedi eistedd ar ei dwylo cyn dadorchuddio polisi a oedd yn cynnwys fawr ddim o ran manylion neu sylwedd. Gyda Llywodraeth Cymru wedi dewis canolbwytio ar ystod o sectorau troffi, mae'n hanfodol ei bod yn cyflwyno polisiau eraill i sicrhau bod graddfeydd a mathau eraill o fusnes hefyd yn ffynnu. Ble, er enghraift, y mae cefnogaeth Llywodraeth Cymru i'r sector manwerthu, yn yr hyn a adwaenid unwaith fel cenedl o siopwyr? Mae'n siomedig, felly, bod y Llywodraeth wedi colli'r cyfle hwn i gyflwyno rhaglen gynhwysfawr o ryddhad ardrethi busnes i ysgogi twf a menter—dyma beth y mae gwelliannau 6 a 7, yn enw William Graham,

would have been a shot in the arm for small companies across Wales, freeing them to use their profits to employ extra staff, to expand and to develop new products, giving our economy the boost that it needs to grow. We need to turn the Welsh economy into one that creates wealth and does not just consume it. It is disappointing that the Welsh Government has not specified any measures to raise the performance of Welsh GVA by 2015.

yn ceisio mynd i'r afael ag ef. Byddai hynny wedi bod yn ergyd yn y fraich i cwmniau bach ledled Cymru, gan eu rhyddhau i ddefnyddio'u helw i gyflogi staff ychwanegol, i ehangu a datblygu cynyrrch newydd, gan roi'r hwb y mae ar ein heconomi ei angen i dyfu. Mae angen i ni droi economi Cymru yn un sy'n creu cyfoeth ac yn gwneud mwy nag yfed ohono. Mae'n siomedig nad yw Llywodraeth Cymru wedi nodi unrhyw fesurau i godi perfformiad gwerth ychwanegol crynswth Cymru erbyn 2015.

In healthcare, £1 billion-worth of cuts over three years are already placing huge strains on the Welsh NHS, and the evidence points to a very grave financial future for our health boards. The Welsh Government wants to expand GP opening hours. That was a flagship initiative, yet the Government remains in the dark as to how it will cost it and about the timescales to deliver it, merely stating that 10 per cent of existing GP surgeries do it, which, according to my maths, means that 90 per cent and not doing it. We have constantly called for the Welsh Minister for Health and Social Services to bring forward a comprehensive cancer plan and to establish a cancer drugs fund to give Welsh patients access to 24 drugs that are currently accessible in England. Sadly, both proposals were conspicuous by their absence from the programme of government. Instead of investing the £3.3 million that the Rarer Cancers Foundation stated would set up such a fund, we get £3 million spent on free toothbrushes. We need proper policies, not costly gimmicks.

Mewn gofal iechyd, mae gwerth £1 biliwn o doriadau dros dair blynedd eisoes yn rhoi straen aruthrol ar y gwasanaeth iechyd gwladol yng Nghymru, ac y mae'r dystiolaeth yn dangos dyfodol ariannol dwys iawn ar gyfer ein byrddau iechyd. Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i ehangu oriau agor meddygon teulu. Roedd hwnnw'n fenter flaenllaw, ac eto mae'r Llywodraeth yn dal yn y tywyllwch o ran sut y bydd yn ei gostio, ac o ran yr amserlen i'w gyflawni, gan ddatgan bod 10 y cant o'r meddygfeydd presennol yn gwneud hynny, sydd, yn ôl fy mathemateg i, yn golygu nad yw 90 y cant yn gwneud hynny. Yr ydym wedi galw'n gyson ar y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i gyflwyno cynllun canser cynhwysfawr a sefydlu cronfa cyffuriau canser er mwyn rhoi mynediad at 24 o gyffuriau sydd ar gael yn Lloegr ar hyn o bryd i gleifion o Gymru. Yn anffodus, amlygywyd y ddau gynnig gan eu habsenoldeb yn y rhaglen lywodraethu. Yn hytrach na buddsoddi'r £3.3 miliwn y dywedasai'r Sefydliad Canserau Prinnach y byddai'n sefydlu cronfa o'r fath, cawsom £3 miliwn wedi'i wario ar frwsys dannedd am ddim. Mae arnom angen bolisiau priodol, nid gimigau costus.

In education, the Welsh Government plans to raise the amount of money delegated to schools to 85 per cent. However, successive Labour Governments have allowed this to languish to as low as 67 per cent in some instances. We believe that the Welsh Government could have taken this opportunity to introduce direct funding to schools.

Ym maes addysg, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu codi'r swm o arian a ddirprwyir i ysgolion i 85 y cant. Fodd bynnag, mae Llywodraethau Llafur olynol wedi caniatáu hyn i ddihoeni cyn ised â 67 y cant mewn rhai achosion. Credwn y gallai Llywodraeth Cymru wedi cymryd y cyfle hwn i gyflwyno cyllid uniongyrchol i ysgolion.

It is therefore with these clear commitments

Felly, gyda'r ymrwymiadau a'r amlinelliadau

and policy outlines that we address the motion before Plenary today, and we urge the First Minister to take our amendments seriously and revisit his programme for government.

*Gwelliant 3 Peter Black*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Yn gresynu nad yw Llywodraeth Cymru wedi cyflawni addewid y Prif Weinidog ar gyfer rhaglen lywodraethu sydd â thargedau mesuradwy.*

*Gwelliant 4 Peter Black*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno rhaglen lywodraethu ddiwygiedig sydd â thargedau pendant a mesuradwy ac amserlen ar gyfer eu cyflawni.*

**Peter Black:** I move amendments 3 and 4 in my name.

The Welsh Liberal Democrats support the thrust of this motion, particularly its focus on the economy as part of the programme for government. We are a little taken aback, however, that Plaid Cymru should be asking for that, given that it led the economic portfolio under the previous Government and, in fact, took three years to come up with an economic strategy. Hopefully, this Government will not equal that record in terms of how long we have to wait for its strategy.

However, the One Wales Government at least had targets, even if it missed some of them, particularly in relation to affordable housing. [Interruption.] The affordable housing targets were clearly missed by the previous Government. The programme for government does not include targets or figures; that would not be so bad had the First Minister not already promised that it would. We now find ourselves with a roadmap in the age of the satnav—this document has no compass.

polisi clir hyn yr ydym yn mynd i'r afael â'r cynnig gerbron y Cyfarfod Llawn heddiw, ac anogwn y Prif Weinidog i gymryd ein gwelliannau o ddifrif ac ailedrych ar ei raglen lywodraethu.

*Amendment 3 Peter Black*

*Add as new point at end of motion:*

*Regrets that the Welsh Government has not delivered on the First Minister's promise of a programme for government with measurable targets.*

*Amendment 4 Peter Black*

*Add as new point at end of motion:*

*Calls on the Welsh Government to bring forward a revised programme for government with concrete, measurable targets, and a timetable for delivery.*

**Peter Black:** Cynigiaf welliannau 3 a 4 yn fy enw i.

Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn cefnogi byrdwn y cynnig hwn, yn enwedig ei ffocws ar yr economi fel rhan o'r rhaglen lywodraethu. Yr ydym wedi ein synnu, fodd bynnag, fod Plaid Cymru yn gofyn am hynny, o ystyried ei bod wedi arwain y portffolio economaidd o dan y Llywodraeth flaenorol ac, mewn gwirionedd, wedi cymryd tair blynedd i ddod o hyd i strategaeth economaidd. Y gobaith yw na fydd y Llywodraeth hon yn dilyn y record hwnnw o ran pa mor hir y bydd yn rhaid i ni aros am ei strategaeth.

Fodd bynnag, o leiaf yr oedd gan Lywodraeth Cymru'n Un dargedau, hyd yn oed os colloedd rai ohonynt, yn enwedig o safbwyt tai fforddiadwy. [Torri ar draws.] Mae'n amlwg bod y targedau ar gyfer tai fforddiadwy wedi'u colli gan y Llywodraeth flaenorol. Nid yw'r rhaglen lywodraethu yn cynnwys targedau neu ffigurau; ni fyddai hynny gynddrwg petai'r Prif Weinidog heb addo hynny eisoes. Canfyddwn ein hunain bellach gyda map ffordd yn oes y satnav—nid oes cwmpawd i'r ddogfen hon.

It would be a strange Government indeed that would not want to see things improve. We therefore want to know today by how much this Government is aiming to improve them. For example, how many apprenticeships will there ultimately be? How many hours of education does it want young people on community sentences to receive, and how many visitors to national museum sites does it want to see? It is all very well to say that it will look at these things, but watching them decrease or rise slowly is simply not good enough. Everyone knows that people make the best progress when they have a firm target to aim for. Is the Government simply sick of missing its own targets?

The programme for government commits to continue the funding for certain schemes. Has the Government assessed the success and effectiveness of these schemes, or is it continuing to throw good money after bad? When we come to measure the success of the Government, we have to look at the outcomes, which is what the targets would measure. We do not always want to compare outcomes with England, but there are some apt comparisons that need to be looked at. Wales has the lowest results of the UK nations in the Programme for International Student Assessment, for example—its score fell last year. We are not making any progress on education, regardless of any comparison with England. Literacy and numeracy in Wales are worse than in England.

Waiting times are longer here than they are in England. English patients can access a greater range of drugs on the NHS, particularly cancer drugs, which we debated earlier. Wales built fewer homes as a percentage than the other UK nations; just 918 homes were built in the first quarter of 2011, compared with 1,120 in the first quarter of 2010. Wales has not adopted new technology to screen for bowel cancer, whereas England has allocated £60 million to roll out screening. Homes in Wales are less environmentally friendly than those in England, and the gap is widening. The average efficiency rating of a Welsh home is 81.7 out of 100, compared to 82.4 in

Llywodraeth hynod iawn fyddai un na ddymunai weld pethau'n gwella. Felly, dymunwn wybod heddiw gan faint y mae'r Llywodraeth hon yn anelu i'w gwella. Er enghraift, faint o brentisiaethau a geir yn y pen draw? Faint o oriau o addysg y mae'n dymuno i bobl ifanc ar ddedfrydau cymunedol i'w derbyn, a faint o ymwelwyr â safleoedd yr amgueddfa genedlaethol y mae'n dymuno ei weld? Mae'n ddigon hawdd dweud y bydd yn edrych ar y pethau hyn, ond nid yw eu gwyllo yn gostwng neu'n codi yn araf yn ddigon da. Gŵyr pawb mai gyda tharged pendant i anelu ato y bydd pobl yn gwneud y cynnydd gorau. A ydyw'r Llywodraeth wedi hen alaru ar fethu ei thargedau ei hun?

Mae'r rhaglen lywodraethu yn ymrwymo i barhau â'r cyllid ar gyfer cynlluniau penodol. A ydyw'r Llywodraeth wedi asesu llwyddiant ac effeithiolrwydd y cynlluniau hyn, neu a ydyw'n parhau i daflu arian da ar ôl drwg? Pan fyddwn yn dod i fesur llwyddiant y Llywodraeth, bydd yn rhaid inni edrych ar y canlyniadau, sef yr hyn y byddai'r targedau'n eu mesur. Nid ydym bob amser yn awyddus i gymharu canlyniadau â Lloegr, ond mae yna rai cymariaethau priodol y mae angen eu hystyried. Cymru sydd â'r canlyniadau isaf o wledydd y Deyrnas Unedig yn y Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr, er enghraift—disgynnodd ei sgôr y llynedd. Nid ydym yn gwneud unrhyw gynnydd ar addysg, beth bynnag fo'r gymhariaeth â Lloegr. Mae llythrennedd a rhifedd yng Nghymru yn waeth nag yn Lloegr.

Mae amseroedd aros yn hwy yma nag y maent yn Lloegr. Gall cleifion o Loegr gael mynediad at ystod ehangach o gyffuriau o dan y gwasanaeth iechyd gwladol, yn enwedig cyffuriau canser, a drafodwyd gennym yn gynharach. Adeiladwyd llai o gartrefi yng Nghymru, fel canran, nag a wnaed yng ngwledydd eraill y Deyrnas Unedig; dim ond 918 o dai a adeiladwyd yn chwarter cyntaf 2011, o gymharu â 1,120 yn chwarter cyntaf 2010. Nid yw Cymru wedi mabwysiadu technoleg newydd ar gyfer sgrinio am ganser y coluddyn, tra bod Lloegr wedi dyrannu £60 miliwn i gyflwyno sgrinio. Mae cartrefi yng Nghymru yn llai caredig i'r amgylchedd na'r rhai yn Lloegr, ac y mae'r

England.

bwlch yn lledu. Mae'r gyfradd effeithlonrwydd cyfartalog mewn cartref Cymreig yn 81.7 allan o 100, o gymharu ag 82.4 yn Lloegr.

The Government has not provided any indication of the steps that it will take to improve things in Wales. The programme for government includes a lot of ‘reform’, ‘evaluate’ and ‘continuing to’, but there are no concrete, measurable targets to which we can hold the Government to account. Without those targets, this is not so much a programme for government as a waste of paper.

**Simon Thomas:** Mae'n ddiddorol nodi bod y dynion busnes cyntaf yn dechrau cydnabod ein bod yn parhau i fod mewn dirwasgiad ac nid oes gwelliant yn yr economi wedi bod ers dros flwyddyn. Dywedodd Justin King o Sainsbury's yn glir iawn bod y ffigurau diweddar yn wall mathemategol. Mae hyn yn atgyfnerthu'r hyn yr ydym oll yn ei deimlo o siarad â phobl yn ein cymunedau, ein hetholaethau a'n rhanbarthau. Mae pobl yn gwybod yn iawn bod y dirwasgiad yn parhau. Mae gan y Democratiaid Rhyddfrydol *cheek* y diawl—wedi ein cadw mewn dirwasgiad am flwyddyn gyfan—i feirniadu'r Llywodraeth flaenorol am achub 20,000 o swyddi drwy gynllun ProAct, er enghraifft, neu am gyflwyno cynlluniau â thargedau pendant. A bod yn deg, mae Peter Black wedi cydnabod y cynlluniau hyn. Targedau pendant sydd ar goll o'r rhaglen lywodraethu bresennol ar hyn bryd.

**Peter Black:** I accept that the economic development programme had clear targets, but why did it take three years to get to that programme?

**Simon Thomas:** There was the small business of a recession, Peter, which your Government's policies are keeping us in.

Gan droi at y sefyllfa bresennol, mae'n glir bod arnom angen cynlluniau amgen i fynd i'r afael â gwella'r economi, creu swyddi a hybu twf yng Nghymru. Mae pawb yn gytûn ar hynny; mae'r Blaid Lafur yn cytuno, oherwydd dyna'r pethau y mae Ed Balls ac Ed Miliband yn galw amdanynt yn San Steffan. Yr oedd yn siom, felly, nad oedd y

Nid yw'r Llywodraeth wedi darparu unrhyw arwydd o'r camau y bydd yn eu cymryd i wella pethau yng Nghymru. Mae'r rhaglen lywodraethu yn cynnwys llawer o 'diwygio', 'gwerthuso' a 'dal i', ond nid oes targedau concrid, mesuradwy y gallwn ddal y Llywodraeth i gyfrif yn eu herblyn. Heb y targedau hynny, mae hwn yn fwy o wastraff papur na rhaglen lywodraethu.

**Simon Thomas:** It is interesting to note that the first businessmen have started to acknowledge that we are still in recession and that there has been no improvement in the economy over the past year. Justin King, of Sainsbury's, clearly said that the recent figures are a mathematical blip. That strengthens what we have all felt in talking to people in our communities, our constituencies and our regions. People know too well that the recession is continuing. The Liberal Democrats have the cheek of the devil—having kept us in recession for a whole year—to criticise the previous Government for saving 20,000 jobs through the ProAct scheme, for example, or for introducing schemes with specific targets. To be fair, Peter Black acknowledged those schemes. What is missing at the moment from the programme for government are clear targets.

**Peter Black:** Yr wyf yn derbyn bod gan y rhaglen datblygu economaidd dargedau clir, ond pam y cymerwyd tair blynedd i gyrraedd y rhaglen?

**Simon Thomas:** Cafwyd y mater bach hwnnw o ddirwasgiad, Peter, y mae polisiau eich Llywodraeth chi yn ein cadw ni ynddo.

Turning to the current situation, it is clear that we need alternative plans to get to grips with improving the economy, creating jobs and promoting growth in Wales. All are agreed on that; the Labour Party agrees, because that is what Ed Balls and Ed Miliband are calling for at Westminster. It was therefore disappointing to find that the

rhaglen lywodraethu bresennol yn cynnwys cynlluniau mwy pendant a oedd wedi'u diwygio. Er fy mod yn cydnabod hawl Llafur i roi manifesto ar waith, mae'r manifesto hwnnw'n dyddio'n ôl nid yn unig i fis Mai, ond yn ôl i'r hydref neu'r haf cyn hynny, oherwydd dyna pryd y cafodd y manifestos eu paratoi a'u cymeradwyo gan y pleidiau gwahanol. Mae angen cynllun B ar y Llywodraeth hon. Mae angen i'r rhaglen lywodraethu adlewyrchu dulliau newydd. Mae lle i wneud hynny, wrth gwrs, oherwydd mae'r Llywodraeth wedi ysgrifennu rhaglen sydd heb unrhyw ffigurau ynddi o gwbl. Digon hawdd yn awr fyddai ailfuddwl a chynnwys ffigurau.

**Mick Antoniw:** Thank you for giving way. Do you agree with comments that were made by the Conservative MP Andrew Tyrie, Chair of the House of Commons Treasury Committee, given that you have referred to a plan B? He said that the Conservative Party had no idea of how to restore growth in the economy, and that it dogmatically refused to consider a plan B. Instead, he said that cuts that going too far and too fast are choking the economic recovery, with the consequence of flatlined growth and more unemployment. Do you agree with those sentiments?

programme for government does not include clearer, amended schemes. While I acknowledge Labour's right to implement its manifesto, that manifesto not only dates back to May, it dates back to the previous autumn or summer, because that is when the manifestos were drafted and approved by the various parties. This Government needs a plan B. The programme for government needs to reflect new ways of doing things. There is a place for that, of course, because the Government has written a programme that contains no figures at all. It would be easy enough now to reconsider and include figures.

**Mick Antoniw:** Diolch i chi am ildio. A ydych yn cytuno â'r sylwadau a wnaed gan yr AS Ceidwadol, Andrew Tyrie, cadeirydd Pwyllgor y Trysorlys yn Nhî'r Cyffredin, o ystyried eich bod wedi cyfeirio at gynllun B? Dywedodd nad oedd gan y Blaid Geidwadol unrhyw syniad sut i adfer twf yn yr economi, a'i bod yn gwrthod yn ddogmatig i ystyried cynllun B. Yn lle hynny, dywedodd fod toriadau sy'n mynd yn rhy bell ac yn rhy gyflym yn tagu'r adferiad economaidd, gyda'r canlyniad o dwf gwastad a mwy o ddiweithdra. A ydych chi'n cytuno â'r teimladau hynny?

5.45 p.m.

**Simon Thomas:** Unsurprisingly, I do agree with them, as did Nick Clegg a year ago, of course. However, Andrew Tyrie was rugby tackled by Steve Hilton on his way to give further views on such sentiments, and they effectively killed off yours as well.

Mae dwy ffordd y gellid gwella'r rhaglen lywodraethu. Gallai gynnwys syniadau gwell ar gyfer adeiladu cyfalaf. Beirniadodd Peter Black y Llywodraeth flaenorol am beidio â chyrraedd y targed o adeiladu 6,500 o dai fforddiadwy. Wrth gwrs, mynd dros y targed ac adeiladu 8,000 o dai a wnaethom ni—

**Simon Thomas:** Nid yw'n syndod fy mod i'n cytuno â hwy, fel y gwnaeth Nick Clegg flwyddyn yn ôl, wrth gwrs. Fodd bynnag, gwnaeth Steve Hilton dacl rygbi ar Andrew Tyrie ar ei ffordd i roi barn bellach ar deimladau o'r fath, ac maent wedi lladd eich un chi yn effeithiol hefyd.

There are two ways that we could look at the programme for government to improve it. There could be better ideas for building capital, for example. Peter Black criticised the previous Government for failing to reach the target of 6,500 affordable homes. However, we exceeded that target, building 8,000—

**Peter Black:** Will you take an intervention?

**Peter Black:** A wnewch chi dderbyn ymyriad?

**Simon Thomas:** Na, nid wyf am ganiatáu

**Simon Thomas:** No, I will not take another

ymyrraeth arall oherwydd nid oes llawer o amser gennyl ar ôl. Wrth fynd dros y targed, mae'n wir i ddweud bod y rhaglen lywodraethu bresennol—[*Torri ar draws.*]

Yes, well, if you do not have 6,500 because you have 8,000, it does not mean that you have missed the target; it means you have gone over the target.

**Peter Black:** Will you take an intervention?

**Simon Thomas:** Nid wyf am ildio. Mae'r rhaglen bresennol yn rhoi llai o arian i dai na'r rhaglen flaenorol. Os yw Peter Black yn anhapus gyda'r hyn a wnaeth Llywodraeth Cymru'n Un, rhaid i mi ddweud wrtho am edrych ar yr hyn y mae'r Llywodraeth hon yn bwriadu ei wneud ym maes tai. Nid oes ganddi darged o gwbl ar gyfer adeiladu tai fforddiadwy, ac nid oes ganddi unrhyw ddulliau na thechneg o greu cyfalaf o'r newydd. Dyna yr ydym angen ei weld yn y fan hon.

Yr ail sector a allai dyfu a gyrru economi Cymru yw'r economi werdd. Unwaith eto, nid oes targedau yn y rhaglen i baratoi at y chwyldro gwyrdd sydd ei angen ar Gymru—gwlad sy'n gyfoethog o ran adnoddau naturiol. Mae'n wir i ddweud, ac yn od i ddweud, bod y Gweinidog John Griffiths wedi gosod allan y cynllun datblygu cynaliadwy i Gymru ddoe gan gyfeirio o hyd at yr amcan o dorri allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru gan 3 y cant y flwyddyn. Dyna oedd y targed o dan y Llywodraeth flaenorol wrth gwrs a dyna'r targed sydd yn y cynllun datblygu cynaliadwy o hyd. Fodd bynnag, nid oes targed yn y rhaglen lywodraethu bresennol ac, yn fwy na hynny, nid oes cyfeiriad at yr amcan o gael targed yn y rhaglen lywodraethu bresennol.

Felly, yr oedd y ddau beth hynny yn bethau yr oedd y Llywodraeth flaenorol, ar y cyd â Plaid Cymru, yn dweud bod modd eu defnyddio i wella'r economi, drwy yrur'r rhaglen gyfalaf a drwy yrur'r economi werdd. Nid oes sôn yn y rhaglen hon am y pethau hynny ac, yn waeth fyth, nid oes targedau a fydd yn ein caniatáu i fesur datblygiad y Llywodraeth bresennol. Mae'n siom i weld

intervention because I do not have enough time left. We exceeded that target. It is true to say that the programme—[*Interruption.*]

Ie, wel, os nad oes gennych 6,500 gan fod gennych 8,000, nid yw'n golygu eich bod chi wedi methu'r targed; mae'n golygu eich bod wedi mynd dros y targed.

**Peter Black:** A wnewch chi dderbyn ymyriad?

**Simon Thomas:** I will not give way. The current programme provides less money for housing than the previous programme. If Peter Black is unhappy with what the One Wales Government did, I must tell him to look at what the current Government is planning to do on the issue of housing. It has no target at all for building affordable homes, and it has no means of creating new capital. That is what we need to see happening here.

The second sector that could grow the Welsh economy and drive it forward is the green economy. Once again, there are no targets in the programme to prepare for the green revolution that is needed in Wales—a country that is rich in natural resources. It is true, and strange, to say that, yesterday, the Minister John Griffiths set out the sustainable development scheme for Wales and constantly referred to the objective of cutting greenhouse emissions in Wales by 3 per cent a year. That was the target under the previous Government, of course, and that is the target that remains in the sustainable development scheme. However, there is no target in the current programme for government and, more than that, there is no reference to the objective of having a target in the programme for government.

So, those are two things that the previous Government, in coalition with Plaid Cymru, said could be used to improve the economy, by driving the capital programme and the green economy. Those things are not mentioned in this programme and, worse than that, there are no targets set that would allow us to measure the development of the current Government. It is disappointing to see that. It

hynny. Mae'n wir y cawn dargedau o fewn blwyddyn neu ddwy, ond y cwestiwn sylfaenol i'r Llywodraeth bresennol yw: pa fath o stad fydd economi Cymru ynnddi pan fydd y Llywodraeth yn dihuno i'r angen ar gyfer gwell systemau i gefnogi twf yng Nghymru?

**Kenneth Skates:** The programme for government sets out a vision for Wales that advances beyond traditional realms. It sets out a vision of a better skilled, healthier and more ambitious society, plotting a roadmap for the next decade and beyond. Crucially, it links together reforms happening right across Government. The goals set out in the programme for government are about increasing the pace of reform in Wales and developing effective mechanisms that can measure the changes we are seeing, but which are flexible about the way these can be delivered. To this end, I particularly welcome the new system of annual reporting and the range and depth of indicators that will be available to the public. It is information that will empower people to assess the Welsh Government's progress in delivering change. Taking time to ensure that the changes we deliver actually improve people's lives and become more than simply an exercise in technocratic box-ticking is what this programme for government sets out to achieve, and I support that shift in emphasis. Indeed, no matter what the opposition says, setting arbitrary targets of money spent or programmes delivered does not, in itself, deliver results that matter. To this end, I agree with the Bevan Foundation's Dr Victoria Winckler, who said recently that

'The fact that the Programme sets out a series of indicators is actually a massive step forward. Never before has there been a Welsh Government programme or strategy that has so explicitly set out how progress will be measured. Neither 'One Wales' nor most of the numerous strategies and plans that have emerged over the years managed to do this.'

is true that we will have targets in a year or two, but the fundamental question for the current Government is: what kind of state will the Welsh economy be in when the Government wakes up to the need to have better systems in place to support growth in Wales?

**Kenneth Skates:** Mae'r rhaglen lywodraethu yn amlinellu gweledigaeth ar gyfer Cymru sydd yn symud y tu hwnt i'r meysydd traddodiadol. Mae'n nodi gweledigaeth o gymdeithas fwy medrus, iachach a mwy uchelgeisiol, gan gynllunio map ffordd ar gyfer y ddegawd nesaf a thu hwnt. Yn hanfodol, mae'n cysylltu ynghyd ddiwygiadau sy'n digwydd ar draws y Llywodraeth. Mae'r nodau a amlinellir yn y rhaglen lywodraethu yn ymwneud â chyflymu'r broses o ddiwygio yng Nghymru a datblygu mecanweithiau effeithiol a all fesur y newidiadau yr ydym yn eu gweld, ond sy'n hyblyg am y ffordd y gellir eu cyflwyno. I'r perwyl hwn, yr wyf yn croesawu'n arbennig y system newydd o adrodd blynnyddol a'r ystod a dyfnoder o ddangosyddion a fydd ar gael i'r cyhoedd. Mae'n wybodaeth a fydd yn grymuso pobl i asesu cynnydd Llywodraeth Cymru o ran cyflawni newid. Cymryd amser i sicrhau bod y newidiadau a ddarparwn yn gwella bywydau pobl mewn gwirionedd a'u bod yn fwy na dim ond ymarfer technocratig mewn ticio blychau yw beth y mae'r rhaglen llywodraethu hon yn ceisio ei gyflawni, ac yr wyf yn cefnogi'r newid pwyslais. Yn wir, ni waeth beth y mae'r wrthblaid yn ei ddweud, nid yw gosod targedau mympwyol o arian a wariwyd neu ragleni a gyflwynir, ynddo'i hun, yn sicrhau canlyniadau sydd o bwys. I'r perwyl hwn, yr wyf yn cytuno â Dr Victoria Winckler o Sefydliad Bevan, a ddywedodd yn ddiweddar

Mae'r ffaith bod y rhaglen yn nodi cyfres o ddangosyddion mewn gwirionedd yn gam enfawr ymlaen. Erioed o'r blaen y bu rhaglen gan Lywodraeth Cymru neu strategaeth sydd wedi nodi mewn modd mor eglur sut y bydd cynnydd yn cael ei fesur. Ni wnaeth 'Cymru'n Un' na'r rhan fwyaf o'r strategaethau a chynlluniau niferus sydd wedi dod i'r amlwg dros y blynnyddoedd lwyddo i wneud hyn.

I particularly support the commitments being made to tackle the economy and boost economic growth. In areas such as north-east Wales, building an advanced specialised region of industrial networks will require intervention and support from a committed Government over the long term. The key action indicators in the programme outline the commitment and incorporate the flexibility needed to create companies and boost those industries that will fuel our nation's growth. In particular, I welcome the commitment to build strong links with our anchor companies in Wales and to develop mutually supportive and beneficial relationships with the key drivers of economic growth. I view the plans mapped out in the programme for government as paving the way for the development of flexible specialisation in our economy.

This is an economic model that took Europe's four motors to fulfilment and prosperity and that took Bavaria from rags to riches. In their recent history, Bavarians have embraced a culture of change in terms of business, utilising the sort of business zones announced recently here to create clusters of manufacturing and research excellence. Today, there 55,000 jobs in research and development in Munich alone, directly because of the reforms. What was crucial to the four motors in Bavaria is also central to our future prospects. It is simply that those delivering services, particularly in the economic sphere, embrace a public service reform agenda and seek collaboration as a pathway to prosperity, and that assessments are made on the basis of outcomes, not box-ticking or short-term targets. I am proud to support an ambitious programme for government that defies the oppressive gloom of the Tory-Lib Dem UK coalition.

**Llyr Huws Gruffydd:** Yr wyf am ddechrau drwy ganmol y Llywodraeth am greu a chyflwyno dogfen mor lliwgar a deniadol. Mae llawer o destun ond, yn anffodus, nid oes fawr ddim sylwedd. Wrth ei darllen, yr oeddwn yn cael y teimlad ei bod yn ddogfen

Yr wyf i, yn arbennig, yn cefnogi'r ymrwymiadau a wneir i fynd i'r afael â'r economi a rhoi hwb i dwf economaidd. Mewn ardaloedd fel gogledd-ddwyrain Cymru, gan adeiladu un o ranbarthau arbenigol uwch o rwydweithiau diwydiannol, bydd angen ymyrraeth a chefnogaeth gan Lywodraeth ymroddedig dros yr hir dymor. Mae'r dangosyddion gweithredu allweddol yn y rhaglen yn amlinellu'r ymrwymiad ac yn ymgorffori'r hyblygrwydd y mae ei angen i greu cwmniâu a rhoi hwb i'r diwydiannau hynny a fydd yn danwydd i dwf ein cenedl. Yn benodol, yr wyf yn croesawu'r ymrwymiad i adeiladu cysylltiadau cryf â'n cwmniâu angori yng Nghymru ac i ddatblygu perthynas gefnogol a buddiol i'r ddwy ochr gyda sbardunau allweddol twf economaidd. Yr wyf yn gweld y cynlluniau sydd wedi'u mapio yn y rhaglen lywodraethu fel modd o baratoi'r ffordd ar gyfer datblygu arbenigedd hyblyg yn ein heonomi.

Mae hwn yn fodel economaidd a wnaeth arwain pedwar rhanbarth sbardun Ewrop i fodhad a ffyniant, a Bafaria o dodi i gyfoeth. Yn eu hanes diwedd, mae pobl Bafaria wedi croesawu diwylliant o newid o ran busnes, gan ddefnyddio'r math o barthau busnes a gyhoeddwyd yn ddiwedd yma i greu clystyrau o ragoriaeth gweithgynhyrchu ac ymchwil. Heddiw, mae 55,000 o swyddi ymchwil a datblygu ym Munich yn unig, yn uniongyrchol oherwydd y diwygiadau. Mae'r hyn a oedd yn hollbwysig i'r pedwar rhanbarth sbardun yn Bafaria yn ganolog i'n rhagolygon yn y dyfodol hefyd. Yn syml, mae'r rhai sy'n darparu gwasanaethau, yn enwedig ym myd economaidd, yn croesawu agenda diwygio gwasanaethau cyhoeddus ac yn ceisio cydweithio fel ffordd i ffyniant, ac y mae asesiadau yn cael eu gwneud ar sail canlyniadau, nid ar sail ticio bocsys neu dargedau tymor byr. Yr wyf yn falch o gefnogi'r rhaglen lywodraethu uchelgeisiol hon sy'n herio gwyll gormesol clymbaid Torïaid-Democratiaid Rhyddfrydol y Deyrnas Unedig.

**Llyr Huws Gruffydd:** I will start by praising the Government for creating and presenting such a colourful and attractive document. There is a great deal of text, but, unfortunately, not much substance. When reading it, I got the feeling that it was an

anorffenedig. Yr oedd rhywun yn cael yr argraff mai dogfen ddrafft gyda'r ffigurau i ddilyn ydyw, a'r targedau mesuradwy hollbwysig yw'r rheini, wrth gwrs. Ar ddiwedd bob adran, mae'r ddogfen yn gofyn sut y byddwn yn gwybod bod y camau yn dilyn y trywydd iawn. Dyna'r union gwestiwn yr oeddwn yn gofyn fy hun wrth ei darllen. Yr wyf yn ofni mai'r ateb yw na fyddwn yn gwybod. Yn yr adran ar gymunedau gwledig, er enghraifft, nid oes un targed penodol a chyraeddadwy—mae'r cyfan yn niwlog ac yn annelwig. Mae sôn am fonitro strategaethau ac arfarniadau, heb unrhyw gyd-destun ystyrlon. Gyda'r holl bwyslais honedig ar gyflawni, beth y gellir ei gyflawni drwy fonitro rhywbeth?

Yr wyf am roi enghraifft. Dywed y ddogfen y bydd y Llywodraeth yn sicrhau bod gan gymunedau gwledig fynediad at fand eang cyflymach a gwasanaethau digidol newydd. Y mesuryddion yw canran yr eiddo gwledig sydd â mynediad at fand eang sylfaenol a band eang cyflym. Nid oes ffigurau, felly beth mae hynny'n ei olygu? Ni all neb ddadlau yn erbyn yr angen i gynyddu argaeedd band eang ac os mai'r bwriad yw i bob eiddo gael band eang, pam na ddywedwch mai'r targed yw 100 y cant? Nid oes dim yma i ddangos sut y byddwch yn mesur llwyddiant neu fethiant, dim ond brawddegau annelwig sydd, yn y pen draw, yn gadael y drws yn agored i chi i beidio â bod mor atebol ag y byddech fel arall. Nid oes sôn am faint mwy o swyddi, er enghraifft, y byddai'r buddsoddiad mewn band eang yn eu creu yng nghefn gwlaid. Nid oes sôn am faint o bobl ifanc fyddai'n gallu aros yng nghefn gwlaid i gael bywoliaeth o ganlyniad. Nid oes sôn ychwaith am sut y byddai'n hwyluso mwy o weithio gartref er mwyn lleihau'r ddibyniaeth ar gar a chyrraedd targedau yn y cyd-destun hwnnw. Nid oes sôn ychwaith am sut y byddai'n taclo tlodi trafnidiaeth a dod â buddiannau amgylcheddol yn sgîl hynny. Un enghraifft yw hynny, ond mae'n tanlinellu gwendid sylfaenol y rhaglen hon.

Os edrychwn ar y ffigurau o safbwynt amaeth—nid oes ffigurau. Canran taliadau uniongyrchol y polisi amaethyddol cyffredin sy'n cael eu talu cyn y Nadolig bob blwyddyn yw un—

unfinished document. One was left with the impression that it was a draft document with figures to follow—those figures being the measurable targets, of course. At the end of each section, the document asks how we will know that we are on the right path. That is the very question that I was asking as I read the document. I am afraid that the answer is that we will not know. In the section on rural communities, for example, there is not a single specific and achievable target—it is all very ambiguous and vague. There is mention of monitoring strategies and evaluations, but without any meaningful context. With all the alleged emphasis on delivery, what can be delivered by monitoring something?

I will give an example. The document says that the Government will ensure that rural communities have access to faster broadband and new digital services. The indicators are the percentage of rural properties that have access to basic and fast broadband. There are no figures, so what does that mean? No-one could argue against the need to increase the availability of broadband and if the intention is for every property to have access to broadband, why do you not say that the target is 100 per cent? There is nothing here to say how you will measure success or failure, just some ambiguous sentences that, at the end of the day, leave the door open for you not to be as accountable as you would otherwise have to be. For example, there is no mention of how many more jobs the investment in broadband would create in rural areas. There is no mention of how many young people would be able to stay in rural areas and make a decent living as a result. There is also no mention of how it would facilitate more working from home in order to reduce dependency on cars and to reach targets in that context. There is no mention of how it would tackle transport poverty and bring about environmental benefits as a result. That is just one example, but it underlines the fundamental weakness of this programme.

If we look at the figures in terms of agriculture—there are no figures. A percentage of common agricultural policy direct payments paid before Christmas annually is one—

**Joyce Watson:** Thank you for taking an intervention; my question will be absolutely pointed. In light of what everyone is saying about the fact that we are in a situation that is changing rapidly, do you really think that it would be better for us to have targets to focus on even if that meant missing the wider picture of delivery? It seems to me that, today, there is an over-focus on numeric targets instead of the wider delivery that needs to happen, particularly at this point in time.

**Llyr Huws Gruffydd:** Mae'n dweud cyfrolau nad ydych yn derbyn bod modd cael y ddau beth. Credaf fod hynny'n syfrdanol a'i fod yn tanlinellu'r diffyg uchelgais sylfaenol sy'n mynd at galon y ddadl hon.

Yr oeddwn yn sôn am amaeth, lle nad oes ffigurau. Nid oes esgus yn y cyd-destun hwn oherwydd ein bod yn gwybod y *baselines* ar gyfer blynnyddoedd blaenorol. Felly, ai diogi yw hyn? Ni wn pam nad ydym yn cael y ffigurau hyn. Mae hefyd yn dweud llawer i mi eich bod wedi cyhoeddi'r rhaglen ddydd Mawrth diwethaf gydag ymrwymiad i barhau i frwydro dros gymorth i ffermwyr mewn ardaloedd llai ffafriol, ond, erbyn dydd Gwener, Cymru oedd yr unig ran o'r Deyrnas Unedig heb fecanwaith gwahaniaethol penodol i gynorthwyo ffermwyr mewn ardaloedd llai ffafriol. Yr wyf yn ofni nad yw'r rhaglen hon yn rhoi llawer o hyder i bobl Cymru y gall y Llywodraeth hon gyflawni i wella safon eu bywydau. Mae'n ddogfen weledol hyfryd, ond yn ddogfen sydd yn ei hanfod, ac yn absenoldeb targedau ystyrlon, yn golygu fawr ddim.

**Byron Davies:** I am delighted that Plaid Cymru has secured this debate, and I congratulate them on that. I rise to speak in support of the amendments in the name of William Graham in this debate. [Interruption.] It does not happen often, but I congratulate them on this occasion.

It is with great sadness on behalf of the people of Wales that I rise to take part in this debate. We have all discussed and identified the lack of ambition and questionable

**Joyce Watson:** Diolch ichi am gymryd ymyriad; Bydd fy nghwestiwn yn hollol graff. Yng ngoleuni'r hyn y mae pawb yn ei ddweud am y ffaith ein bod mewn sefyllfa sy'n newid yn gyflym, a ydych wir yn meddwl y byddai'n well inni gael targedau i ganolbwytio arnynt hyd yn oed os oedd hynny'n golygu colli'r darlun ehangach o ddarparu? Mae'n ymddangos i mi, heddiw, bod yna ganolbwytio'n ormodol ar dargedau rhifol yn hytrach na darparu ehangach sydd yn rhaid digwydd, yn enwedig ar y pwynt hwn mewn amser.

**Llyr Huws Gruffydd:** It speaks volumes that you do not accept that both things are possible. I think that that is quite astonishing and it underlines the fundamental lack of ambition that gets to the heart of this debate today.

I was talking about agriculture, on which there are no figures. There is no excuse in this context because we know the baselines for previous years. Therefore, is it just a matter of being lazy? I do not know why we are not getting these figures. It also tells me a great deal that you published the programme last Tuesday containing a commitment to continue to fight for assistance for farmers in less favoured areas, but, by Friday, Wales was the only part of the United Kingdom without a mechanism that differentiated between farmers in less favoured areas and others and provided assistance for them. I am afraid that this programme does not give the people of Wales much confidence that this Government can deliver to improve their quality of life. It is visually a wonderful document, but fundamentally, and in the absence of targets, it means virtually nothing.

**Byron Davies:** Rwyf wrth fy modd bod Plaid Cymru wedi sicrhau'r ddadl hon, ac rwy'n eu llongyfarch ar hynny. Yr wyf yn codi i siarad o blaid y gwelliannau yn enw William Graham yn y ddadl hon. [Torri ar draws.] Nid yw'n digwydd yn aml, ond yr wyf yn eu llongyfarch ar yr achlysur hwn.

Gyda thristwch mawr ar ran pobl Cymru yr wyf yn codi i gymryd rhan yn y ddadl hon. Rydym i gyd wedi trafod ac wedi adnabod y diffyg uchelgais a blaenoriaethau amheus yn

priorities within the Labour Welsh Government's programme for government. I hope that this debate will help to redirect the Government towards a programme that reflects the ambitions and needs of our country.

I realise that the comments made by Sir Emry Jones Parry questioning your Government's priorities—correctly, in my opinion—have not gone unnoticed and they have indeed been mentioned in the Chamber. However, I want to reiterate his concerns, which I know are shared by people living in communities across Wales. Indeed, it has been a popular discussion point. Sir Emry, who led the inquiry into the case for a more powerful National Assembly, recognises that your Government's programme is not a natural fit for the problems faced by Wales. This is extremely damning language from an experienced diplomat of his stature.

**Jocelyn Davies:** I am sure that there are a great many Members in the Chamber who are delighted that devolution prevents the UK Government from imposing on us legislation that we do not want.

**Byron Davies:** Well, that is your opinion. [Laughter.] It is not an opinion that I agree with.

I recognise and support many of the Government's aims, such as sustainable travel, and its commitments on cycling. However, timing is everything. The people of Wales and our country more generally, are suffering economically, academically and socially. The Welsh Labour Government must use every weapon in its arsenal to support the Welsh economy and ensure that we have the skills, educational achievement and the correct environment to support entrepreneurs and businesses so that Wales grows and succeeds.

**Vaughan Gething:** I know that you have said that these are difficult economic times for Wales; perhaps you could explain whether you agree or disagree with the comments that were made by a respected economic commentator on Radio Wales at the start of the week. He claimed that the

rhaglen Llywodraeth Lafur Cymru ar gyfer Llywodraeth. Gobeithiaf y bydd y ddadl hon yn helpu i ailgyfeirio'r Llywodraeth tuag at raglen sy'n adlewyrchu uchelgeisiau ac anghenion ein gwlad.

Sylweddolaf fod y sylwadau a wnaed gan Syr Emry Jones Parry yn holi blaenorriaethau eich Llywodraeth—yn gywir, yn fy marn i—heb fynd heb i neb sylwi ac yn wir maent wedi cael eu crybwyllyn y Siambr. Fodd bynnag, yr wyf am ailadrodd ei bryderon, a gwn eu bod yn cael eu rhannu gan bobl sy'n byw mewn cymunedau ar draws Cymru. Yn wir, mae wedi bod yn bwynt trafod poblogaidd. Mae Syr Emry, a arweiniodd yr ymchwiliad i'r achos dros Gynulliad Cenedlaethol mwy pwerus, yn cydnabod nad yw rhaglen eich Llywodraeth yn naturiol yn addas ar gyfer y problemau a wynebir gan Gymru. Mae hyn yn iaith hynod o ddamniol gan ddiplomydd profiadol o'i statws.

**Jocelyn Davies:** Yr wyf yn siŵr bod llawer iawn o Aelodau yn y Siambr sy'n falch iawn bod datganoli yn atal Llywodraeth y Deyrnas Unedig rhag gosod arnom ddeddfwriaeth nad ydym yn ei dymuno.

**Byron Davies:** Wel, dyna yw eich barn chi. [Chwerthin.] Nid yw'n farn yr wyf yn cytuno â hi.

Yr wyf yn cydnabod ac yn cefnogi llawer o amcanion y Llywodraeth, megis teithio cynaliadwy, a'i hymrwymiadau ar feicio. Fodd bynnag, amseru yw popeth. Mae pobl Cymru a'r wlad yn fwy cyffredinol, yn dioddef yn economaidd, yn academaidd ac yn gymdeithasol. Rhaid i Lywodraeth Lafur Cymru ddefnyddio pob arf yn ei harsenal i gefnogi economi Cymru a sicrhau bod gennym y sgiliau, y cyrhaeddiad addysgol a'r amgylchedd cywir i gefnogi entrepreneuriaid a busnesau er mwyn i Gymru dyfu a llwyddo.

**Vaughan Gething:** Gwn eich bod wedi dweud bod hwn yn gyfnod economaidd anodd ar gyfer Cymru; efallai y gallech egluro a ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r sylwadau a wnaed gan sylwebydd economaidd uchel ei barch ar Radio Wales ar ddechrau'r wythnos. Honnodd fod y wlad

country had been returned to growth by the UK Government. Do you agree with Andrew R.T. Davies or do you agree that the economy is still in a stagnant phase?

wedi ei dychwelyd i dwf gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig. A ydych chi'n cytuno ag Andrew R.T. Davies neu a ydych yn cytuno bod yr economi yn dal i fod mewn cyfnod llonydd?

**Byron Davies:** You will not be surprised to hear that I agree with Andrew R.T. Davies.

The Welsh Labour Government must use every weapon in its arsenal to support the Welsh economy and ensure that we have the skills, educational achievement and the correct environment to support entrepreneurs and businesses so that Wales grows and succeeds. I make no apology for repeating that. The one glaring exception from within your Government is the measure to raise the performance of gross value added in Wales within the lifetime of this Government, which will be short-lived if you do not drop the dogma and start delivering for the people of Wales. I cannot emphasise sufficiently my absolute disbelief that there is no target to increase GVA in Wales over your term of office. You really must address that. We also need clear measureable targets and outcomes, which, once again, is an obvious requirement for any credible Government, especially one that values openness and transparency as much as this Labour Welsh Government.

**Byron Davies:** Ni fyddwch yn synnu clywed fy mod yn cytuno ag Andrew R.T. Davies.

Rhaid i Lywodraeth Lafur Cymru ddefnyddio pob arf yn ei harsenal i gefnogi economi Cymru a sicrhau bod gennym y sgiliau, y cyrhaeddiad addysgol a'r amgylchedd cywir i gefnogi entrepreneuriaid a busnesau er mwyn bod Cymru yn tyfu ac yn llwyddo. Nid wyf yn ymddiheuro am ailadrodd hynny. Yr un eithriad amlwg o fewn eich Llywodraeth yw'r mesur i godi perfformiad gwerth ychwanegol yng Nghymru yn ystod oes y Llywodraeth hon, a fydd yn fyrhoedlog os nad ydych yn gollwng y dogma a dechrau cyflawni dros bobl Cymru. Ni allaf bwysleisio ddigon fy anghrediniaeth llwyr nad oes targed i gynyddu gwerth ychwanegol crynswth yng Nghymru yn ystod eich cyfnod yn y swydd. Mae'n rhaid i chi, yn wir, fynd i'r afael â hynny. Mae arnom hefyd angen targedau a chanlyniadau mesuradwy clir, sydd, unwaith eto, yn ofyniad amlwg i unrhyw Lywodraeth gredadwy, yn enwedig un sy'n gwerthfawrogi bod yn agored ac yn dryloyw gymaint ag y mae'r Llywodraeth Lafur hon yng Nghymru.

If the reason that your programme for government lacks ambition is that you have none, then come to us, because we have the ideas to get the Welsh economy back on track and to deliver for Wales.

Os mai'r ffaith nad os gennych uchelgais yw'r rheswm bod eich rhaglen lywodraethu yn brin o uchelgais, yna dewch atom ni, oherwydd mae gennym ni y syniadau i gael economi Cymru yn ôl ar y trywydd iawn a chyflawni dros Gymru.

**Several Assembly Members rose—**

**Sawl Aelod Cynulliad a gododd—**

**The Deputy Presiding Officer:** Order. Will you take an intervention?

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. A wnewch chi dderbyn ymyriad?

**Byron Davies:** No, I am going to carry on or I will run out of time.

**Byron Davies:** Na wnaf. Yr wyf yn mynd i barhau neu byddaf yn rhedeg allan o amser.

One necessary policy—and this one is free of charge—can be seen in amendment 7. You must include a comprehensive programme for business rate relief. This would encourage private sector investment and employment. Such an intervention could be introduced

Gellir gweld un polisi angenrheidiol—ac y mae hwn yn rhad ac am ddim—yng ngwelliant 7. Mae'n rhaid i chi gynnwys rhaglen gynhwysfawr ar gyfer rhyddhad ardrethi busnes. Byddai hyn yn annog buddsoddiad gan y sector preifat a

immediately, without the need for further review or delay by your Government. This would especially help in areas such as South Wales West, where your Government has ignored pleas for an enterprise zone and other initiatives.

chyflogaeth. Gellid cyflwyno ymyriad o'r fath ar unwaith, heb yr angen am adolygu neu oedi pellach gan eich Llywodraeth. Byddai hyn yn arbennig yn helpu mewn ardaloedd megis Gorllewin De Cymru, lle mae eich Llywodraeth wedi anwybyddu ceisiadau am ardal fenter a mentrau eraill.

I will finish with a stark warning. I met the august body of business leaders, the Institute of Directors, at a dinner this week. We discussed the Welsh economy and ways to get our economy working. It was gratifying to hear its endorsement of the UK Government, agreeing it was the only way—plan A all the way. However, within a devolved context, we have much work to do. I have the briefing document with me, and I am happy to share it with you. We need to reform the planning system, deregulate and localise wherever possible and open up partnership working where we can. Once this has been accomplished, we can move on to other priorities. Without a fundamental change to your economic programme for government, I fear that the opposition parties could be sending you and your Ministers off on your bikes for a long ride.

Yr wyf am orffen gyda rhybudd llym. Cyfarfum â'r corff mawreddog o arweinwyr busnes, Sefydliad y Cyfarwyddwyr, mewn cinio yr wythnos hon. Buom yn trafod economi Cymru a'r ffyrdd o gael ein economi i weithio. Roedd yn braf clywed ei gymeradwyaeth o Lywodraeth y Deyrnas Unedig, gan gytuno mai dyna'r unig ffordd—sef cynllun A bob cam. Fodd bynnag, o fewn cyd-destun datganoledig, mae gennym lawer o waith i'w wneud. Mae gennyf y ddogfen briffio gyda mi, ac yr wyf yn fodlon ei rhannu â chi. Mae angen inni ddiwygio'r system gynllunio, dadreoleiddio a lleoleiddio lle bo hynny'n bosibl ac annog gweithio mewn partneriaeth lle gallwn. Unwaith y bydd hyn wedi cael ei gyflawni, gallwn symud ymlaen at flaenoriaethau eraill. Heb newid sylfaenol yn eich rhaglen economaidd ar gyfer y llywodraeth, rwy'n ofni y bydd y gwrthbleidiau yn eich anfon chi a'ch Gweinidogion ar eich beiciau am reid hir.

6.00 p.m.

**Lindsay Whittle:** I want to make it clear that there is nothing in the document's overall objectives to which we take exception. We get a lot of these glossy documents—we could build a dry stone wall around Wales with them. However, this document should be the most important document that we have as a National Assembly. Sadly, there are significant gaps in it, and I wish to focus my remarks on children in Wales, because they are our hope and our future.

**Lindsay Whittle:** Rwyf am ei gwneud yn glir nad oes dim yn amcanion cyffredinol y ddogfen yr ydym yn ei wrthwynebu. Rydym yn derbyn llawer o'r dogfennau sgleiniog hyn—gallem eu defnyddio i adeiladu wal gerrig sych o amgylch Cymru. Fodd bynnag, y ddogfen hon ddylai fod y ddogfen bwysicaf sydd gennym fel Cynulliad Cenedlaethol. Yn anffodus, mae bylchau sylweddol ynddo, ac yr wyf yn dymuno canolbwytio fy sylwadau ar blant yng Nghymru, oherwydd mai nhw yw ein gobaith a'n dyfodol.

First of all, we look in vain for the benchmarks and milestones that are essential to hold this Government to account. For example, it is all very well in chapter 5 of this document to refer to the percentage of looked-after children who experience a change of school in the year. However, you should bear in mind that there are real human stories behind those bare statistics. We are

Yn gyntaf oll, rydym yn chwilio yn ofer am y meinchnodau a'r cerrig milltir sy'n hanfodol i ddal y Llywodraeth hon i gyfrif. Er enghraift, mae'n ddigon hawdd ym mhennod 5 y ddogfen hon i gyfeirio at ganran y plant sy'n derbyn gofal sy'n newid ysgol yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag, dylech gofio bod yna straeon dynol go iawn y tu ôl i'r ystadegau moel hynny. Ni ddywedir wrthym

told nothing about the present situation in Wales or what reasonable changes to the percentage of such children that the Welsh Government expects to achieve, and why.

We are promised annual reports—this has already been briefly referred to—but we will not have any meaningful figures until 2013, so we will not be able to assess progress with regard to those vulnerable children until halfway through this Government's term of office. Progress must be monitored more regularly if we are to scrutinise effectively. The First Minister said in his first week as First Minister in the fourth Assembly that he accepted that we were here, as opposition, to scrutinise. That is part of our job. I think that it was Archimedes who said 'If you give me a lever, I can move the world'. We do not have any levers here, so we cannot move or scrutinise very much.

My second concern is that there is no mention in the document about the plight of children who are family carers, some of whom are so young they are in primary school. The chapter on Supporting People refers to 'refreshing the carers strategy' by April 2013. That is a fairly bland statement, and I look in vain to find a policy that sets out this Government's commitment to making sure that children will take on the huge responsibility of being family carers have the support that they need and deserve from local authorities, local health boards and their schools.

Finally, we need to know what steps will be taken to offset the grim financial position of too many parents in Wales, particularly lone parents who cannot afford to seek work or remain in work because of excessive childcare costs. In Wales, a country where child poverty is a major social problem, we must take action to ensure that parents who want to work are not disadvantaged.

**Julie Morgan:** Would the Member accept that the main problem with childcare is that the coalition Government in Westminster has cut the childcare tax credit?

**Lindsay Whittle:** There is no argument at all

unrhyw beth am y sefyllfa bresennol yng Nghymru, neu ba newidiadau rhesymol i ganran y plant o'r fath y mae Llywodraeth Cymru yn disgwyel eu cyflawni, a pham.

Addewir adroddiadau blynnyddol inni—cyfeiriwyd at hyn yn fyr eisoes—ond ni fydd gennym unrhyw ffigurau ystyrlon tan 2013, felly ni fyddwn yn gallu asesu cynnydd o ran y plant hynny sy'n agored i niwed tan hanner ffordd drwy dymor y Llywodraeth hon. Rhaid monitro cynnydd yn fwy rheolaidd os ydym am graffu'n effeithiol. Dywedodd y Prif Weinidog yn ei wythnos gyntaf fel Prif Weinidog Cymru yn y pedwerydd Cynulliad ei fod yn derbyn ein bod yma, fel gwrthblaid, i graffu. Mae hynny'n rhan o'n gwaith. Yr wyf yn meddwl mai Archimedes a ddywedodd 'Os rhowch i mi lifer, gallaf symud y byd'. Nid oes gennym unrhyw liferi yma, felly ni allwn symud neu graffu llawer iawn.

Fy ail bryder yw nad oes unrhyw sôn yn y ddogfen am sefyllfa plant sy'n ofalwyr teuluol—rhai ohonynt mor ifanc fel eu bod yn yr ysgol gynradd. Mae'r bennod ar Gefnogi Pobl yn cyfeirio at 'adnewyddu'r strategaeth gofalwyr' erbyn Ebrill 2013. Mae hwnnw'n ddatganiad eithaf annelwig, ac edrychaf yn ofer er mwyn dod o hyd i bolisi sy'n nodi ymrwymiad y Llywodraeth hon i wneud yn siŵr y bydd gan blant sy'n cymryd y cyfrifoldeb enfawr o fod yn ofalwyr teuluol y cymorth sydd ei angen arnynt ac y maent yn ei haeddu gan awdurdodau lleol, byrddau ieichyd lleol a'u hysgolion.

Yn olaf, mae angen inni wybod pa gamau a gymerir i wneud iawn am sefyllfa ariannol enbyd gormod o rieni yng Nghymru, yn enwedig rhieni unigol na allant fforddio chwilio am waith neu aros mewn gwaith otherwydd costau gormodol gofal plant. Yng Nghymru, gwlad lle mae tlodi plant yn broblem gymdeithasol enfawr, mae'n rhaid i ni gymryd camau i sicrhau nad yw rhieni sydd eisiau gweithio o dan anfantais.

**Julie Morgan:** A fyddai'r Aelod yn derbyn mai'r brif broblem gyda gofal plant yw bod y Llywodraeth glymblaid yn San Steffan wedi torri'r credyd treth gofal plant?

**Lindsay Whittle:** Nid oes dadl o gwbl â'r

with that statement. However, we must address the issues ourselves—if they will not do it, it is up to us to try.

datganiad hwnnw. Fodd bynnag, rhaid inni roi sylw i'r materion ein hunain—os na fyddan nhw yn gwneud hynny, rhaid i ni roi cynnig arni.

I referred earlier to the fact that I have visited a school in my region this week—I did three one hour lessons, one after the other. I always thought that I wanted to be a teacher, but I can tell you that it is pretty tough. However, if I was a schoolteacher, my assessment of this document would be ‘almost satisfactory, but could do much better’.

Cyfeiriaid yn gynharach at y ffaith fy mod wedi ymweld ag ysgol yn fy rhanbarth yr wythnos hon—fe wnes i dair wers awr o hyd, un ar ôl y llall. Roeddwn i bob amser yn meddwl fy mod am fod yn athro, ond gallaf ddweud wrthych ei fod yn eithaf anodd. Fodd bynnag, os oeddwn yn athro ysgol, fy asesiad o'r ddogfen hon fyddai 'bron yn fodhaol, ond gellir gwneud llawer yn well'.

**Ann Jones:** Housing will have a major bearing on how the Welsh Government delivers its aims across other portfolios, from economic activity to health outcomes. We all know that, if you live in a house of substandard quality, your attainment or aspiration will drop.

**Ann Jones:** Bydd tai yn cael effaith fawr ar y ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn cyflawni ei nodau ar draws portffolios eraill, o weithgarwch economaidd i ganlyniadau iechyd. Rydym i gyd yn gwybod, os ydych yn byw mewn tŷ o safon is, bydd eich cyrhaeddiad neu ddyhead yn gostwng.

However, we should remember that this document that we are debating is not the only document for Government action. There is major work going on across the north Wales coast to boost regeneration through the strategic regeneration area. That work is pivotal to my constituency in the Vale of Clwyd for many reasons. It will give hope to people that we can get housing sorted out in the west end of Rhyl, that we can offer people some jobs, that we can sort out their transport needs and that we can create a community again in the west end. It is only happening because a Labour Government has committed to stand by those communities in their hour of need. I am hopeful that the focus on Welsh homes in the programme for government will help us to improve areas like Rhyl in the long term, and I hope that the new houses that we build will all have sprinklers in them. I promise that that is the last time that I will mention that this week, in Plenary. [Laughter.]

Fodd bynnag, dylem gofio nad yr unig ddogfen ar gyfer gweithredu gan y Llywodraeth yw'r ddogfen hon yr ydym yn ei draffod. Mae gwaith mawr yn digwydd ar draws arfordir gogledd Cymru i roi hwb i adfywio drwy'r ardal adfywio strategol. Mae'r gwaith hwnnw'n ganolog i fy etholaeth yn Nyffryn Clwyd am nifer o resymau. Bydd y ffaith ein bod yn gallu rhoi trefn ar dai yn rhoi gobaith i bobl ym mhen gorllewinol y Rhyl, ynghyd â'r ffaith y gallwn gynnig swyddi i bobl, datrys eu hanghenion trafnidiaeth a chreu cymuned eto yn y pen gorllewinol. Mae ond yn digwydd oherwydd mai Llywodraeth Lafur sydd wedi ymrwymo i gefnogi'r cymunedau hynny pan fo'r angen fwyaf. Yr wyf yn obeithiol y bydd y ffocws ar gartrefi Cymru yn y rhaglen lywodraethu yn ein helpu i wella ardaloedd fel y Rhyl yn y tymor hir, ac yr wyf yn gobeithio y bydd systemau chwistrellu yn yr holl dai newydd yr ydym yn eu hadeiladu. Yr wyf yn addo mai dyna'r tro olaf y byddaf yn sôn am hynny'r wythnos hon, yn y Cyfarfod Llawn. [Chwerthin.]

The housing Bill is set to come before us, and I hope that it will offer better rights for tenants. While we await the details of the Bill, I urge the Government to consider a voluntary register for landlords that would create a more transparent market. Good

Mae'r Bil tai wedi ei osod i ddod ger ein bron, ac yr wyf yn gobeithio y bydd yn cynnig gwell hawliau i denantiaid. Er ein bod yn aros am fanylion y Bil, yr wyf yn annog y Llywodraeth i ystyried cofrestr wirfoddol ar gyfer landlordiaid a fyddai'n creu marchnad

landlords will sign up to a code of practice and a good registration programme; it is the bad landlords who will run shy of them. That is why we need legislation. When people go into the private rented sector, they need to know that standards are in place, and the Government has to deliver that. We have to know that the tenancies on offer are safe and professional. The previous UK Labour Government delivered in the interest of tenants with a deposit protection scheme, which was a real step forward. We can move together with good landlords on that issue. It is often the good landlords who get bad press, because of rogue landlords. Sadly, rogue landlords are still around in areas such as Rhyl and in other areas where there is student accommodation. We need a practical approach to ensure that everyone in Wales can live in a decent home. In doing that, we can build on efforts to create jobs and growth.

fwy tryloyw. Bydd landlordiaid da yn ymrwymo i'r cod ymarfer a rhaglen gofrestru dda; y landlordiaid drwg a fydd yn gwingo rhagddynt. Dyna pam y mae arnom angen deddfwriaeth. Pan fydd pobl yn mynd i mewn i'r sector rhentu preifat, mae angen iddynt wybod bod y safonau yn eu lle, ac mae'n rhaid i'r Llywodraeth gyflawni hynny. Mae'n rhaid i ni wybod bod y tenantiaethau a gynigir yn ddiogel ac yn broffesiynol. Darparodd Llywodraeth Lafur flaenorol y DU er budd tenantiaid gyda chynllun diogelu blaendal, a oedd yn gam gwirioneddol ymlaen. Gallwn symud ynghyd â landlordiaid da ar y mater hwnnw. Yn aml, y landlordiaid da sy'n cael sylw gwael, oherwydd y landlordiaid drwg. Yn anffodus, mae landlordiaid drwg yn dal i fod o gwmpas mewn ardaloedd megis y Rhyl ac mewn ardaloedd eraill lle mae llety i fyfyrwyr. Mae arnom angen dull ymarferol i sicrhau y gall pawb yng Nghymru fyw mewn cartref boddhaol. Wrth wneud hynny, gallwn adeiladu ar ymdrechion i greu swyddi a thwf.

The Welsh jobs fund will, as we debated last week, help many young people in these situations. This is obviously a wide-ranging task for the Government, but I am pleased to see that the fund is being applied in various ways, from apprenticeships, to young recruit training programmes to the Wales union learning fund. I know that the Tories have a problem with offering work training and development, as they continue to criticise the union learning fund with their ideological ramblings, but what we are doing through the Wales union learning fund is a good thing.

Bydd cronfa swyddi Cymru, fel y trafodwyd yr wythnos diwethaf, yn helpu llawer o bobl ifanc yn y sefyllfaoedd hyn. Mae hyn yn amlwg yn dasg eang i'r Llywodraeth, ond yr wyl yn falch o weld bod y gronfa yn cael ei gymhwysyo mewn gwahanol ffyrdd, o brentisiaethau, i raglenni hyfforddi reciwtiaid ifanc i gronfa ddysgu undebau Cymru. Gwn fod gan y Torïaid broblem gyda chynnig hyfforddiant a datblygiad gwaith, gan eu bod yn parhau i feirniadu'r gronfa ddysgu undebau gyda'u malu awyr ideolegol, ond mae'r hyn yr ydym yn ei wneud drwy gronfa ddysgu undebau Cymru yn beth da.

I am also encouraged by the wider work to continue the social partnership with businesses in Wales, with a focus on anchor companies. I hope that we will be able to include some of the most pioneering companies in clusters, such as the OpTIC cluster in the Vale of Clwyd. The annual statement on the work undertaken to support businesses in Wales will give us an idea of where investment is working well and where it should be better targeted for the future.

Rwyf wedi fy nghalonogi hefyd gan y gwaith ehangach i barhau â'r bartneriaeth gymdeithasol â busnesau yng Nghymru, gan ganolbwytio ar gwmniau angor. Yr wyl yn gobeithio y byddwn yn gallu cynnwys rhai o'r cwmniau mwyaf arloesol mewn clystyrau, megis y clwstwr OpTIC yn Nyffryn Clwyd. Bydd y datganiad blynnyddol ar y gwaith a wnaed i gefnogi busnesau yng Nghymru yn rhoi syniad o lle mae buddsoddiad yn gweithio'n dda i ni a lle y dylid ei dargedu'n well ar gyfer y dyfodol.

I have only briefly focused on two areas in housing and jobs, but I believe that they will

Rwyf wedi canolbwytio yn fyr ar ddau faes yn unig, sef tai a swyddi, ond rwy'n credu y

be key to protecting and developing local economies in many parts of Wales. The Government has set out a responsible programme for these difficult times. I am confident that this Government will make a positive difference to life in Wales, proving that there is an alternative to what is happening in Westminster.

**The First Minister (Carwyn Jones):** I thank all those who have contributed to this debate. My Government was elected in May on the basis of the manifesto that we put before the Welsh people. It should, therefore, come as no surprise that our programme is based on that manifesto, on which we were given a mandate by the people of Wales. It is the first time that I have heard criticism of a party that has produced a programme for government based on a manifesto that it put before the people in an election.

The motion alleges that the programme for government lacks detail. I do not accept that. The programme's annex covers each and every one of the manifesto commitments on which we were elected. I remind Plaid Cymru that the annex follows exactly the same format as the 'One Wales Delivery Plan', and provides the same level of information that both of our parties signed up to during our term of office. There is no difference there.

There is also a suggestion that, apparently, all the targets that we had before have suddenly disappeared. They have not. We still have a commitment to making sure that everyone has access to high-speed broadband by 2015. That has not changed, and it applies to all individuals, living in rural or urban areas. I heard Llyr talking about the less favoured area. The reason why we cannot provide support to the LFA through Glastir is because the European Commission has told us that we cannot. It is not because it is our decision. Secondly, farmers in Wales would have received £33.60 per ha under the old proposals, but they are receiving £34 under the new ones. I cannot for the life of me understand why someone would object to getting more money at a time when so many other sectors of the economy have to make do with less. I do not understand the logic of that argument.

byddant yn allweddol i amddiffyn a datblygu economiau lleol mewn sawl rhan o Gymru. Mae'r Llywodraeth wedi gosod rhaglen cyfrifol am y cyfnod anodd hwn. Rwy'n hyderus y bydd y Llywodraeth hon yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywyd yng Nghymru, gan brofi bod yna ddewis amgen i'r hyn sy'n digwydd yn San Steffan.

**Y Prif Weinidog (Carwyn Jones):** Diolchaf i bawb sydd wedi cyfrannu at y ddadl hon. Cafodd fy Llywodraeth ei hethol ym mis Mai ar sail y maniffesto a roddwyd gerbron pobl Cymru. Ni ddylai, felly, fod yn syndod bod ein rhaglen yn seiliedig ar y maniffesto hwnnw, y rhoddyd mandad inni arno gan bobl Cymru. Dyma'r tro cyntaf imi glywed beirniadaeth o blaid sydd wedi cynhyrchu rhaglen ar gyfer llywodraethu yn seiliedig ar y maniffesto a gyflwynodd gerbron pobl mewn etholiad.

Mae'r cynnig yn honni bod y rhaglen llywodraethu yn brin o fanylion. Nid wyf yn derbyn hynny. Mae atodiad y rhaglen yn cwmpasu pob un o'r ymrwymiadau maniffesto y cawsom ein hethol arnynt. Atgoffaf Blaid Cymru fod yr atodiad yn dilyn union yr un fformat â'r 'Cynllun Cyflenwi Cymru'n Un', ac yn darparu'r un lefel o wybodaeth y bu i'n dwy blaid gytuno ag ef yn ystod ein cyfnod yn y Llywodraeth. Nid oes unrhyw wahaniaeth yno.

Mae yna awgrym hefyd, mae'n debyg, bod yr holl dargedau a oedd gennym o'r blaen wedi diflannu'n sydyn. Nid ydynt wedi. Mae dal gennym ymrwymiad i sicrhau bod pawb yn cael mynediad at fand eang cyflym erbyn 2015. Nid yw hynny wedi newid, ac mae'n berthnasol i bob unigolyn, sy'n byw mewn ardaloedd gwledig neu drefol. Clywais Llyr yn siarad am yr ardal lai ffafriol. Y rheswm pam na allwn roi cefnogaeth i'r ardaloedd hynny drwy Glastir yw oherwydd bod y Comisiwn Ewropeaidd wedi dweud wrthym nad ydym yn gallu. Nid yw hynny oherwydd mai ein penderfyniad ni ydyw. Yn ail, byddai ffermwyr yng Nghymru wedi derbyn £33.60 yr hectar o dan yr hen gynigion, ond maent yn derbyn £34 o dan y rhai newydd. Ni allaf yn fy myw ddeall pam y byddai rhywun yn gwrthwynebu cael mwy o arian ar adeg pan fo cymaint o sectorau eraill o'r economi yn gorfod ymdopi gyda llai. Nid wyf yn deall

rhesymeg y ddadl.

In addition, the covering chapters of the programme provide a detailed road map. They set out a clear direction for this administration and how we will measure the impact that the Government is having. Therefore, on any objective assessment, we are providing much more detail than the One Wales Government, of which Plaid Cymru was a part. That is the truth of the matter. I must also add that the ‘One Wales Delivery Plan’ was published in April 2008, six months later—in relative terms—than this programme, so the accusations of not acting quickly enough are simply not correct.

Yn ogystal, mae'r penodau sy'n ymdrin â'r rhaglen yn darparu map ffordd manwl. Maent yn nodi cyfeiriad clir ar gyfer y weinyddiaeth hon a sut y byddwn yn mesur yr effaith y mae'r Llywodraeth yn ei gael. Felly, ar unrhyw asesiad gwrthrychol, rydym yn darparu llawer mwy o fanylion na Llywodraeth Cymru'n Un, yr oedd Plaid Cymru yn rhan ohono. Dyna'r gwir amdani. Rhaid i mi hefyd ychwanegu bod ‘Cynllun Cyflenwi Cymru'n Un’ wedi'i gyhoeddi ym mis Ebrill 2008, chwe mis yn ddiweddarach—yn nhermau cymharol—na'r rhaglen hon, felly, mae'r cyhuddiadau o beidio â gweithredu'n ddigon cyflym, yn syml, yn anghywir.

The motion and two of the amendments criticise the lack of targets. As we have said, we will publish an annual report to the Welsh people beginning from next May. This will measure our performance against the indicators in our programme, and will show people what progress is being made from baselines established in previous years. The report next year will contain the baselines from this year, so it will be possible to compare performance next year against this year, rather than waiting two years, as the leader of the opposition suggested. We know that comparing performance with other regions and nations is often a much better guide to progress than picking a random target. Compare us with other parts of the UK, or compare us with other parts of Europe—we will be judged on that. I think that that is what the people of Wales would wish.

Mae'r cynnig a dau o'r gwelliannau yn beirniadu'r diffyg targedau. Fel yr ydym wedi'i ddweud, byddwn yn cyhoeddi adroddiad blynnyddol i bobl Cymru, gan ddechrau mis Mai nesaf. Bydd hyn yn mesur ein perfformiad yn erbyn y dangosyddion yn ein rhaglen, a bydd yn dangos i bobl pa gynnydd sy'n cael ei wneud o linellau sylfaen a sefydlwyd yn y blynnyddoedd blaenorol. Mae'r adroddiad y flwyddyn nesaf yn cynnwys y llinellau sylfaen o eleni, felly bydd yn bosibl cymharu perfformiad y flwyddyn nesaf yn erbyn y flwyddyn hon, yn hytrach nag aros dwy flynedd, fel yr awgrymwyd gan arweinydd yr wrthblaid. Rydym yn gwybod bod cymharu perfformiad â rhanbarthau a chenhedloedd eraill yn aml yn ganllaw llawer gwell i symud ymlaen nag yw dewis targed ar hap. Cymharwch ni â rhannau eraill o'r DU, neu gymharwch ni â rhannau eraill o Ewrop—fe'n bernir ar hynny. Credaf mai dyna beth y byddai pobl Cymru yn ei ddymuno.

The motion calls on us to focus on the economic challenges. If you look at our budget, and our programme for government, we have said that jobs and the economy are overriding priorities. They are not just actions for the Minister for Business, Enterprise, Technology and Science, but actions right across the Government on the skills agenda, infrastructure projects and new homes and schools. It has already been said in the Assembly that the consequential funding that we get, following the UK Government's

Mae'r cynnig yn galw arnom i ganolbwytio ar yr heriau economaidd. Os ydych yn edrych ar ein cyllideb, ac ar ein rhaglen lywodraethu, rydym wedi dweud mai swyddi a'r economi yw ein prif flaenoriaethau. Nid camau gweithredu ar gyfer y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth ydynt yn unig, ond camau gweithredu ar draws y Llywodraeth ar yr agenda sgliau, prosiectau seilwaith a chartrefi newydd ac ysgolion. Mae eisoes wedi cael ei ddweud yn y Cynulliad y bydd y cyllid canlyniadol a

announcement on Monday, will be used to promote the economy, and jobs and skills. We believe that that is right, and we believe that, at this time, when it is important to ensure that we help businesses through difficult times, that money should be made available to support them. Yesterday, the Minister for Finance set out our budget for growth and jobs. It had within it funding to extend our Adapt programme and to avoid another generation lost to youth unemployment, with Jobs Growth Wales benefiting 4,000 young people every year. It has been said that we have too many strategies; I say to Plaid Cymru that it is better to have too many than none. We have five commitments on which we were elected that we will carry forward—

derbyniwn, yn dilyn cyhoeddiad Llywodraeth y DU ar ddydd Llun, yn cael ei ddefnyddio i hybu'r economi, a swyddi a sgiliau. Rydym yn credu bod hynny'n iawn, ac rydym yn credu, ar hyn o bryd, pan fydd yn bwysig sicrhau ein bod yn helpu busnesau drwy'r cyfnod anodd, y dylai arian fod ar gael i'w cefnogi. Ddoe, cyflwynodd y Gweinidog dros Gyllid ein cyllideb ar gyfer twf a swyddi. Roedd ynddo gyllid i ymestyn ein rhaglen Adapt ac i osgoi cenhedlaeth arall yn cael eu colli i ddiweithdra ymhlih pobl ifanc, gyda Thwf Swyddi Cymru yn helpu 4,000 o bobl ifanc bob blwyddyn. Dywedwyd fod gennym ormod o strategaethau; dywedaf wrth Blaid Cymru ei bod yn well cael gormod na dim o gwbl. Mae gennym pum ymrwymiad y cawsom ein hethol arnynt y byddwn yn parhau—

**Bethan Jenkins:** Will the First Minister give way?

**The First Minister:** In a second. I will make another point; if business was so disappointed with this programme for government, why has it been praised by CBI Wales and the Institute of Directors?

**Bethan Jenkins:** You say that it is better to have too many strategies than none, but when it comes to targets, it seems that you are calling them at random. It seems that targets have become something that your Government does not want anymore.

**The First Minister:** We have targets. Again, looking at your party's manifesto, there was hardly anything in it, which is why I will not take criticism regarding our stance in that election.

We have also said that we would encourage investment, entrepreneurship and innovation in key sectors and industries—the same priorities that the leader of Plaid Cymru set out when he launched the economic renewal programme last year. Today, there has been a major jobs announcement on Ynys Môn—500 jobs are coming to Anglesey, on top of the 600 that were announced earlier in the year. You say that we are not getting things right, but that indicator shows that that is far from the truth; in fact, Wales is an attractive

**Bethan Jenkins:** A wnaiff y Prif Weinidog ildio?

**Y Prif Weinidog:** Mewn eiliad. Gwnaf bwynt arall; pe buasai busnes mor siomedig gyda'r rhaglen lywodraethu hon, pam y mae wedi'i ganmol gan CBI Cymru a Sefydliad y Cyfarwyddwyr?

**Bethan Jenkins:** Yr ydych yn dweud ei bod yn well cael gormod o strategaethau na dim, ond pan ddaw'n fater o dargedau, mae'n ymddangos eich bod yn eu cyhoeddi ar hap. Mae'n ymddangos bod y targedau wedi dod yn rhywbeth nad yw eich Llywodraeth yn dymuno eu cael mwyach.

**Y Prif Weinidog:** Mae gennym dargedau. Unwaith eto, gan edrych ar faniffesto eich plaid chi, nid oedd fawr ddim ynddo, a dyna pam na fyddaf yn cymryd beirniadaeth am ein safiad yn yr etholiad hwnnw.

Rydym hefyd wedi dweud y byddem yn annog buddsoddi, entrepeneuriaeth ac arloesedd mewn sectorau a diwydiannau allweddol—yr un blaenoriaethau a nododd arweinydd Plaid Cymru pan lansiodd y rhaglen adnewyddu economaidd y llynedd. Heddiw, bu cyhoeddiad pwysig am swyddi ar Ynys Môn—mae 500 o swyddi yn dod i Ynys Môn, ar ben y 600 a gyhoeddwyd yn gynharach yn y flwyddyn. Yr ydych yn dweud nad ydym yn gwneud pethau'n iawn, ond y mae'r dangosydd hwnnw'n dangos bod

destination for business.

hynny'n bell oddi wrth y gwirionedd; mewn gwirionedd, mae Cymru yn gyrchfan deniadol ar gyfer busnes.

We know that the economy is fragile, and we know that business conditions are tough, which is why we are making sure that support is right for businesses today as well as tomorrow. That is why we are driving ahead by developing a 10-year national infrastructure plan and establishing a single Welsh Government capital fund. We are also exploring innovative ways of raising capital for infrastructure investment, and seeking borrowing powers in order to be able to do this. I listened carefully to what Peter Black had to say; he came out with lots of figures and said that we should not compare Wales with England, and then he did just that. I have said many times before that, in the past 36 weeks, more people have been waiting for operations in England than in Wales, and, in England, the spiral is going upwards.

